# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO** | **PLANNING POLICY COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 19 HYDREF 2023 am 10.00 o'r gloch yb** | **THURSDAY, 19 OCTOBER, 2023 at 10.00 a.m.** |
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO - CYFARFOD HYBRID - YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI A DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol /The Independent Group**

Ieuan Williams (Is-gadeirydd)/Vice-Chair

**Plaid Lafur Cymru/ Welsh Labour Party**

Pip O'Neill

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones (Cadeirydd/Chair), Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor a Robin Williams

**Annibynnwyr Mon/Anglesey Independents**

Robert Ll Jones, Liz Wood

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gafwyd ar 12 Gorffennaf, 2023.

4 **DIWEDDARIAD AR SEFYDLU TIM POLISI CYNLLUNIO NEWYDD A PHARATOI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD** (Tudalennau 5 - 212)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWLLGOR POLISI CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 12 Gorffennaf 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr John Ifan Jones, R Ll Jones, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd,<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ),<br>Rheolwr Polisi Cynllunio (JIW),<br>Pennaeth Democratiaeth (DS),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes MBE a Jackie Lewis |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodwyd y Cynghorydd John I Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodwyd y Cynghorydd Ieuan Williams fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

**4 DIWEDDARIAD AR SEFYDLU TÎM POLISI CYNLLUNIO NEWYDD A PHARATOI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Polisi Cynllunio mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y Cynllun Datblygu Lleol yn flaenoriaeth newydd ar gyfer y swyddogaeth Gynllunio a'r Cyngor. Bydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio'n chwarae rôl allweddol yn natblygiad y cynllun, a bydd ei gyfraniad yn hollbwysig o ran y broses o greu'r Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd y byddai Cylch Gorchwyl manwl ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio mai rôl y Pwyllgor yw darparu arweinyddiaeth ar faterion megis cyflwyno dogfennau drafft i'w hystyried, datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol, adroddiadau monitro blynyddol a dogfennau eraill sy'n ymwneud â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol; ynghyd â sylwadau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Eglurodd y Rheolwr Polisi Cynllunio, yn dilyn diddymu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd pan ddaeth y cytundeb cydweithio i ben ym mis Mawrth 2023, fod Cyngor Sir Ynys Môn bellach yn gyfrifol am baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol ei hun unwaith eto. Er hysbysebu sawl swydd ddwywaith ar gyfer y Tîm Polisi newydd, mae'r broses hyd yma wedi bod yn

aflwyddiannus. Roedd trosglwyddo un swyddog i'r Tîm drwy drosglwyddiad TUPE yn fanteisiol i'r Tîm, ac fe gychwynnodd yn y swydd ar 1 Ebrill 2023. Wedi hynny penodwyd Rheolwr Uned ar secondiad am gyfnod o 12 mis. Isod, fe weler y staff sydd eu hangen ar y Tîm:-

- Rheolwr Polisi Cynllunio (Gradd 9)
- Uwch Swyddog Polisi Cynllunio (Gradd 7)
- 2x Swyddog Polisi Cynllunio (Gradd 6)
- Swyddog Polisi Cynorthwyol (Gradd 4)

Yn dilyn hynny nodwyd bod angen Cydlynydd Her Tai Lleol.

Oherwydd y diffyg staffio, bydd proses recriwtio cydunol arall yn cael ei rhoi ar waith gan y Gwasanaeth i geisio denu unigolion profiadol at y swyddi hyn. Bwriedir hysbysebu'r swyddi'n ehangach mewn cylchgronau proffesiynol, trwy hysbysebion uniongyrchol mewn prifysgolion penodol a gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hanfodol bod gennym Dîm addas a medrus er mwyn sicrhau bod camau amrywiol y gwaith o baratoi'r cynllun yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni cytunedig a bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni'n foddhaol. Mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â phroses gaffael i geisio dod o hyd i gwmni ymgynghorol profiadol a all ddarparu cymorth proffesiynol i'r Swyddogaeth Cynllunio o dan gytundeb Fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cyfrifoldebau cynllunio statudol y Cyngor.

Aeth y Rheolwr Polisi Cynllunio ymlaen i ddweud fod paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cyrraedd sawl carreg filltir benodol fydd yn cael eu cynnwys mewn Cytundeb Cyflawni, a rhaid i Lywodraeth Cymru gytuno ar y cytundeb hwnnw. Wedi iddo gael ei gytuno, rhaid glynu'n gaeth wrth y rhaglen ar gyfer cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol a bydd rhaid i unrhyw wyriadau gael eu cytuno gan Lywodraeth Cymru. Darparwyd amserlen ddangosol yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Gofynnodd y Cynghorydd Robert Ll Jones beth oedd y rhesymau dros ddod â'r trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i ben. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio gan fod y penderfyniad hwn eisoes wedi'i wneud gan y Cyngor, nid oedd pwrpas ail-drafod y mater yn y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, gellid anfon adroddiadau cyhoeddus yn ymwneud â'r mater at y Cynghorydd Jones pe dymunai.

Holodd y Cynghorydd Pip O'Neill am y mater staff o fewn y Tîm a chafwyd ateb gan y Prif Swyddog Cynllunio.

Holodd y Cynghorydd Ken Taylor ynghylch trefniadau gwe-ddarlledu ar gyfer y cyfarfodydd nesaf. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol nad oedd ganddo ateb, ond y gellid edrych ar y mater cyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Ken Taylor, gan nad yw rhai aelodau'r Pwyllgor hwn yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, a oes modd darparu copïau caled o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, y Canllawiau Cynllunio Atodol a'r Polisïau Cynllunio Cenedlaethol. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod gan y Cyngor bolisi digidol o ran dosbarthu dogfennau.

Cynigiodd y Cynghorydd Ieuan Williams fod mynegai yn cael ei baratoi yn cynnwys dolenni ar y polisïau cynllunio digidol, canllawiau cynllunio atodol a'r polisïau cenedlaethol.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts fod angen darparu hyfforddiant, mewn perthynas â'r broses gynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol, i'r Pwyllgor hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams a oes cyllideb addas ar gael er mwyn comisiynu cwmni arbenigol allanol os bydd y broses recriwtio'n aflwyddiannus. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd fod cyllid ar gael i barhau â sefydlu Tîm Polisi Cynllunio, ynghyd â chyllideb wrth gefn er mwyn paratoi'r Cynllun. Dywedodd efallai y bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn ariannu unrhyw gefnogaeth bellach wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, fodd bynnag, bydd yr effeithiolrwydd o ran costau a fforddiadwyedd yn cael eu monitro, ac fe adroddir ar hyn i'r Pwyllgor yn fuan.

Gofynnodd y Cynghorydd Williams a fyddai rôl y Cydlynydd Her Tai Lleol, sy'n berthnasol i gyflwyno trywydd Erthygl 4 posibl ar Ynys Môn, sy'n ymwneud ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr, yn disgyn o fewn cylch gwaith y pwyllgor hwn. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod cysylltiadau clir iawn rhwng y gwaith hwn a datblygu Cynllun Datblygu Lleol, ac y byddai rôl ar gyfer y pwyllgor oherwydd hyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bwrw ymlaen â'r broses recriwtio dargedig i recriwtio unigolion cymwys fel bod gan y tîm y gallu i gyflawni cynllun datblygu cadarn ac effeithiol;**

- **Ymgysylltu ag arbenigwyr yn y sector preifat a all ymgymryd â gwahanol gamau'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (bydd y Rheolwr Polisi Cynllunio'n rheoli'r contractau hyn).**

- **Datblygu Cynllun Cyflawni drafft y gellir ymgynghori arno a'i adneuo;**

- **Darparu rhaglen hyfforddi a datblygu i Aelodau Etholedig yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer prif/uwch swyddogion sydd ddim yn ymwneud â'r Adran Gynllunio. Mae hyn er mwyn rheoli disgwyliadau a chael trafodaethau adeiladol ynglŷn â'r hyn y gall Cynllun Datblygu Lleol fynd i'r afael ag o a'i gyflawni;**

- **Paratoi mynegai gyda dolenni at ddogfennaeth ddigidol h.y. polisïau cynllunio, canllawiau cynllunio atodol a pholisïau cenedlaethol.**

**CYNGHORYDDJOHN I JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 19 Hydref 2023 |
| Pwnc: | Diweddariad ar sefydlu Tîm Polisi Cynllunio Newydd a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol newydd |
| Aelod Portffolio: | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Mae'n berthnasol i bob Aelod Etholedig |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol er cymeradwyaeth cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru;
- Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor hwn;
- Rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor ar ddatblygiadau o ran recriwtio wrth sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd;
- Trafod materion yn ymwneud â'r Cytundeb Cyflawni a'r Strategaeth Cynnwys Cymunedau;
- Rhoi diweddariad i aelodau ar faterion yn ymwneud â deddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi a llety gwyliau, a phwerau i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir yn y cyswllt hwnnw; a
- Darparu manylion am hyfforddiant i aelodau yn gysylltiedig â materion polisi cynllunio a pharatoi cynllun datblygu newydd.

## 2.0 Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)

2.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol fod angen monitro'r CDLI yn flynyddol a rhaid cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno drafft o'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Lluniwyd yr

AMB gan swyddogion yr hen Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gan fod trefniadau cydweithio ar waith yn ystod y cyfnod monitro.

2.2 Bydd rhaid trafod a chytuno ar drefniadau ar gyfer llunio'r AMB ar gyfer y cyfnod monitro nesaf, a oedd yn parhau i fod o fewn y cyfnod cydweithio, gyda'n cydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd.

2.3 Mae'r AMB yn darparu sail dystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLl ar y Cyd, a dros gyfnod o amser gall yr adroddiadau hyn ddangos tueddiadau, dangos pa bolisïau sy'n cyflawni, neu ddim yn cyflawni, ac amlygu p'un a oes unrhyw fylchau neu a oes unrhyw beth wedi'i adael allan o ran y ddarpariaeth polisi.

2.4 Mae'r AMB yn rhestru 15 prif ganfyddiad, sef:

1. *Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 315 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2022/23. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2. Roedd 163 uned (52%) yn dai fforddiadwy.*

2. *Cwblhawyd 298 o dai yn ystod y cyfnod monitro.*

3. *Cwblhawyd 122 o unedau tai fforddiadwy yn 2022-23, sef 41% o'r holl unedau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hon. Sylwer nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.*

4. *Nodir bod 4569 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2021/22, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigwr o 5663. Mae hyn felly 19.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr. Mae hyn oherwydd na welwyd twf economaidd ar y raddfa ddisgwyliedig, nid yw prosiectau isadeiledd ar raddfa fawr wedi mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl, effeithiau'r pandemig ac nid oedd y galw am dai yn rhai o ardaloedd y Cynllun yn unol â'r raddfa ddisgwyliedig.*

5. *Mae 43.2% o'r unedau tai a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr AMB o fewn y Ganolfan Is-ranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 29.8% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 27.0% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau a'r Cefn Gwlad Agored.*

6. *Yn ystod cyfnod yr AMB (2022-23), mae 25.8% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd a glustnodwyd ar gyfer tai.*

7. *Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod yr AMB yw 28.5 uned fesul hectar.*

8. *Caniatawyd pum safle eithrio ar gyfer tai fforddiadwy yn ystod cyfnod yr AMB (caniatawyd 33 uned ar y safleoedd hyn).*

*9. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i bedwar uned marchnad leol newydd yn ystod cyfnod yr AMB. Cwblhawyd tair uned marchnad leol yn ystod cyfnod yr AMB. Y CDLl ar y Cyd yw'r unig Gynllun Lleol yng Nghymru i gynnwys y polisi hwn a deallir fod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu polisi cenedlaethol tebyg.*

*10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 70% o ganiatadau tai ar safleoedd newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau i ben) ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle. O'r 6 safle a ganiatawyd yn 2022-2023 sydd ag 11 uned neu fwy, roedd 4 o'r safleoedd ar gyfer datblygiadau oedd yn cynnwys 100% o dai fforddiadwy ac roedd y safle arall yn darparu'r lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy. Yn dilyn asesiad hyfywedd cytunwyd na fyddai darparu unedau fforddiadwy yn hyfyw ar un safle.*

*11. O'r unedau a gafodd ganiatâd ac a gwblhawyd ers mabwysiadu'r Cynllun, mae'r canran o dai fforddiadwy yn 48%.*

*12. Derbyniodd y Cynghorau 29 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro a gwrthodwyd 53% ohonynt. Nid oedd yr un o'r apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio polisïau a gynhwysir yn y Cynllun. Roedd yr apeliadau a ganiatawyd yn ymwneud â materion megis addasrwydd y briffordd, dyluniad ac effaith ar y dirwedd. Cafwyd apeliadau hefyd yn gysylltiedig â cheisiadau gan ddeiliaid tai a datblygiadau amaethyddol.*

*13. Un o amcanion strategol y CDLl ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig a bu'r amcan hwnnw'n llwyddiannus yn ystod cyfnod yr AMB, gyda chaniatâd yn cael ei roi ar gyfer defnyddiau cyflogaeth amrywiol, gan gynnwys sied ar gyfer magu pysgod, parlwr trin cŵn, unedau storio a strwythur ffrâm bren ar gyfer clinig y cefn.*

*14. Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyflawni'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib a nodir yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn, sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh ar gyfer gwres wedi cael ei gyflawni erbyn 2021. Fodd bynnag, hyd at 2023, dim ond 70.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLl ar y Cyd a ddarparwyd. Felly, nid yw'r targed o gyflenwi 50% o'r ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a thrydan erbyn 2021 wedi cael ei wireddu. Gallai'r cynlluniau a ganiatawyd gynhyrchu 3,281.4 GWh. Byddai hyn yn cyflawni'r targed a gynhwysir yn y Cynllun ond mae rhai o'r cynigion wedi derbyn caniatâd ers cryn amser. Mae'n amlwg felly fod y methiant i gyflawni'r targed a gynhwysir yn y Cynllun yn gysylltiedig â rhoi'r cynlluniau ar waith yn hytrach na methiant Polisïau Ynni Adnewyddadwy'r Cynllun.*

*15. Gwrthodwyd 8 o geisiadau yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 13 cais ganiatâd gydag amod cynllunio i sicrhau mesurau lliniaru ieithyddol.*

2.5 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rhaid adolygu Cynlluniau bob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Mabwysiadwyd y Cynllun presennol ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly paratowyd Adroddiad Adolygu. Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad y dylid cynnal Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n golygu paratoi Cynllun newydd. Yn dilyn hynny, mewn cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd a chyfarfod o Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn penderfynwyd dod â'r trefniadau cydweithio rhwng y ddau Gyngor i ben a pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol ar wahân. Daeth y cytundeb cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023.

2.6 Mae'r AMB hwn yn dilyn yr un diwyg â'r adroddiadau blaenorol ac mae'n cofnodi perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar draws ardal gyfan y Cynllun, hynny yw, Ynys Môn a Gwynedd, yn ystod y cyfnod monitro. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i lywio gwaith datblygu polisïau yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn fydd yn adlewyrchu anghenion yr Ynys o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

2.7 Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cytuno ar yr AMB drafft (ynghlwm fel **Atodiad 1**) a'i gasgliadau fel y gellir gwneud trefniadau gyda chydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad a bennwyd, sef 31 Hydref 2023.

## 3.0 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio

3.1 Drafftiwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ac mae ynghlwm i'r adroddiad hwn yn **Atodiad 2**.

3.2 I grynhoi, bydd y Pwyllgor yn darparu arweiniad a barn mewn perthynas â:

- dogfennau drafft a baratowyd wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a chyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno;
- adborth a dderbyniwyd yn sgil ymgynghori â'r cyhoedd neu ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid;
- dogfennau drafft a baratowyd wrth baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) cyn iddynt gael eu cyhoeddi er mwyn ymgynghori arnynt;
- adborth gan y cyhoedd/grwpiau rhanddeiliaid i ymgynghoriad o'r fath;
- Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl; a
- dogfennau a baratowyd fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLl.

3.3 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig trawsbleidiol a chaiff ei gydnabod yn y Cytundeb Cyflawni a bydd yn cefnogi ac yn cyfrannu at y broses o greu a chynnal y CDLl. Bydd ei benderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth.

3.4 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 11 aelod etholedig a benodwyd yn unol â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, a bydd y Deilydd Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd yn aelod. Bydd y Prif Swyddog Cynllunio a'r Rheolwr Polisi Cynllunio (neu ddirprwyon a enwebir ganddynt) yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau a chynghori aelodau. Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cael eu hethol o blith yr aelodau bob blwyddyn.

3.5 Bydd swyddogion o Wasanaethau eraill yn mynychu yn ôl y gofyn.

3.6 O ran gwneud penderfyniadau, bydd rhaid i o leiaf **pum** aelod fod yn bresennol i ffurfio cworwm. Mae hyn yn gyson â pharagraff 3.4.11 o Gyfansoddiad y Cyngor.

3.7 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn fisol (neu yn ôl y gofyn) a bydd ei aelodau'n derbyn y papurau bum diwrnod clir cyn unrhyw gyfarfod.

3.8 O ran unrhyw adroddiadau y bydd gofyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, bydd adborth a barn y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau hynny.

## 4.0 Staffio

4.1 Paratowyd pecynnau recriwtio newydd gyda'r nod o ddenu mwy o ddiddordeb yn y swyddi gweigion. Paratowyd pecynnau ar gyfer y swyddi canlynol – Uwch Swyddog Cynllunio, Cydlynydd Her Tai Lleol, Swyddog Cynllunio a Chynorthwyydd Cynllunio. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys cefndir ar gyfer y swyddi unigol, amlinelliad o'r buddiannau sydd ar gael i weithwyr y Cyngor Sir a disgrifiad swydd manwl, yn ogystal â manyleb person. Hysbysebwyd y swyddi ar 22 Medi 2023 a'r dyddiad cau yw 9 Hydref. Gan fod yr adroddiad hwn wedi cael ei ysgrifennu cyn y dyddiad cau ar gyfer y swyddi hyn, rhoddir diweddariad llafar ar y sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod hwn.

4.2 Fel y gwyddys yr aelodau, wynebwyd anawsterau wrth recriwtio staff i'r Tîm Polisi Cynllunio newydd, er nad yw hyn yn unigryw o ran penodi swyddogion polisi cynllunio gan y wynebwyd problemau tebyg mewn meysydd recriwtio eraill, yn enwedig meysydd lle mae'r swyddi'n rhai arbenigol. Nid yw sefyllfa o'r fath yn unigryw i Fôn gan fod awdurdodau cynllunio eraill yng Ngogledd Cymru wedi cael problemau tebyg o ran recriwtio.

4.3 Mae gwireddu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn swyddogaeth statudol ac mae'r Cynllun yn darparu sail polisi er mwyn cyfeirio datblygiadau i leoliadau priodol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio er mwyn galluogi datblygiadau i ddigwydd. Bydd y CDLl felly'n allweddol o ran cyflawni'r blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a nodir yng nghynlluniau corfforaethol/strategol y Cyngor Sir (e.e. y Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28). Fel y cyfryw, mae'n hanfodol fod tîm yn cael ei sefydlu er mwyn llunio cynllun credadwy ac ymgymryd â'r camau niferus o waith drafftio polisïau, ymgynghori, dadansoddi, archwilio a mabwysiadau fydd yn dilyn o'r amserlen gytunedig.

4.4 Bydd y rhaglen recriwtio gyfun hon yn targedu sefydliadau a chyfryngau priodol er mwyn cyrraedd mwy o bobl. Mae copi o’r pecyn ar gyfer yr Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio ynghlwm yn **Atodiad 3**.

4.5 Os bydd bylchau’n parhau yn y strwythur staffio cytunedig yna bydd rhaid ceisio cymorth allanol.

4.6 Rhoddir diweddariad pellach ar sut mae’r broses recriwtio’n mynd rhagddi yn y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Polisi Cynllunio.

## 5.0 Cynllun Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau

5.1 Fel yr esboniwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Polisi Cynllunio, bydd camau rhagarweiniol cwblhau CDLl yn destun amserlen a gynhwysir mewn Cytundeb Cyflawni (CC) ffurfiol y bydd rhaid ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ganolbwyntio ar y CC ac mae’n defnyddio’r drafft a baratowyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, cyn dod â’r trefniadau cyd-weithio i ben, fel sail ar gyfer drafftio’r cytundeb.

5.2 Bydd angen cynnwys mewnbwn manwl ychwanegol yn y CC cyn y gellir cynnal trafodaethau ynghylch ei briodoldeb gyda Llywodraeth Cymru.

5.3 Mae’r CC ar ei ffurf derfynol yn rhan bwysig a chyfreithiol o’r broses o lunio’r CDLl ac mae’n ffurfio cytundeb swyddogol rhwng y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw wyriadau oddi wrth y CC na chafodd eu cytuno gan Lywodraeth Cymru’n brawf pwysig o gadernid y CDLl. Mae cynnwys y CC a’r dull y bydd y Cyngor Sir yn ei roi ar waith felly yn hanfodol i lwyddiant y CDLl.

5.4 Yn unol â Rheoliadau 6, 8 a 9 Cynlluniau Datblygu Lleol a’r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, bydd y CC yn cael ei rannu’n ddwy ran:

- **Yr amserlen** sydd yn nodi’r dyddiadau penodol ar gyfer cyfnodau paratoi’r CDLl hyd at gyfnod y Cynllun Adneuo a bydd yn darparu dyddiadau dangosol hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu;
- **Y Strategaeth Cynnwys Cymunedau** a fydd yn nodi pwy fydd y Cyngor Sir yn cysylltu â nhw wrth baratoi’r CDLl, sut a phryd y gall swyddogion y Cyngor Sir, Aelodau etholedig, y cyhoedd, grwpiau rhanddeiliaid lleol a datblygwyr gyfrannu at y broses gyfan a beth fydd yn digwydd i’r ymatebion.

5.5 Mae’r CC yn nodi hefyd sut fydd y CDLl newydd yn cael ei asesu yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu trwy’r Arfarniad o Gynaliadwyedd ynghyd ag Asesiadau Effaith Integredig, gan gynnwys Asesiad o Effaith y Cynllun ar y Gymraeg.

5.6 Rhaid gwneud ymrwymiad mewn perthynas â staff ac adnoddau ariannol ar gyfer cyflawni’r gwahanol gamau angenrheidiol yn y broses o baratoi’r CDLl.

5.7 Bydd cynnydd wrth ddatblygu’r CDLl newydd yn cael ei fonitro a’i adolygu yn erbyn gofynion y CC gyda’r bwriad o sicrhau fod y gwahanol gamau a nodir yn

yr amserlen yn cael eu cyrraedd/cyflawni yn unol â'r dyddiadau a bennwyd. Serch hynny, gall achosion godi lle y gallai bod angen adolygu a diwygio'r CC. Maent yn cynnwys:

- Os yw'r broses gryn dipyn ar ei hôl hi o ran yr amserlen (3 mis)
- Os oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r Strategaeth Cynnwys Cymunedau
- Os oes newidiadau sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor
- Os bydd deddfwriaeth, rheoliadau neu ganllawiau newydd gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru'n gofyn bod gweithdrefnau neu dasgau newydd yn cael eu rhoi ar waith
- Os bydd unrhyw newidiadau eraill i'r amgylchedd yn cael effaith sylweddol ar gyflawni'r cynllun yn unol â'r CC.

Pe cyfyd yr angen i adolygu'r CC, bydd angen ymgynghori â chyrff penodol yn ogystal â cheisio cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i wneud hynny.

5.8 Mewn perthynas â'r Strategaeth Cynnwys Cymunedau, mae'r Rheoliadau CDLl yn nodi bod rhaid i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a'r gymuned yn gynnar yn y broses o baratoi'r CDLl. Un o brif amcanion y system Cynlluniau Datblygu yw y dylid seilio Cynlluniau ar drefniadau cynnar, effeithiol ac ystyrlon i gynnwys cymunedau er mwyn deall ac ystyried amrediad eang o safbwyntiau (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Mawrth 2020).

5.9 Mae'r CC yn pennu sut a phryd y caiff cymunedau eu cynnwys ym mhroses y CDLl er mwyn rhoi cyfle i gymunedau gynorthwyo i siapio a dylanwadu'n effeithiol ar y cynnwys. Bydd y Strategaeth Cynnwys Cymunedau'n nodi'r hyn y mae'r Cyngor Sir yn bwriadu ei wneud, os bydd amser yn caniatáu, ac, os yw'n angenrheidiol, gellir darparu cyfnodau ymgysylltu ychwanegol.

5.10 Bydd disgwyl mewnbwn i'r broses gan y cyhoedd, busnesau, perchnogion tir, datblygwyr, cyrff ymgynghori penodol a chyrff ymgynghori cyffredinol. Paratowyd cronfa ddata o gysylltiadau yn sgil paratoi'r CDLl newydd. Mae gan unrhyw un hawl i ofyn i gael eu hychwanegu neu eu tynnu oddi ar y gronfa ddata cysylltiadau ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau yn ystod unrhyw un o'r cyfnodau ymgynghori'n cael eu hychwanegu i'r gronfa 5

5.11 Bydd pob cam o'r broses CDLl yn destun Asesiad Cynaliadwyedd (AC) ac, er mai ymarfer technegol ydyw mewn gwirionedd, rhoddir cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb ynddo i gyflwyno sylwadau. Bydd y sail dystiolaeth sy'n cefnogi'r AC yn ffurfio rhan o adroddiad cwmpasu a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

5.12 O ran cynnwys gwleidyddion, bydd pob aelod etholedig yn derbyn gwybodaeth ar adegau pwysig drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl, er enghraifft: trafodaethau ar y weledigaeth; nodau ac amcanion strategol ar gyfer y CDLl; ystyriaeth o'r strategaeth a ffafrir ac, yn nes ymlaen pan geir trafodaeth ar faterion penodol o ran safleoedd ac aneddiadau. Bydd gan y Cynghorwyr hefyd rôl bwysig oherwydd eu gwybodaeth leol, gan weithredu fel "pencampwyr" lleol

er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y cymunedau a thrwy hynny hwyluso'r broses o lunio'r CDLl. Bydd cyfraniadau'r Cynghorwyr yn cael eu harwain gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a'r Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddylanwad ar rôl y Cynghorwyr o wneud argymhellion a phenderfyniadau yn y pwyllgorau perthnasol.

5.13 Bydd ymgynghori gyda swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor yn allweddol drwy gydol cyfnod paratoi'r CDLl. Y bwriad yw sefydlu grŵp o uwch swyddogion/swyddogion arbenigol i gynrychioli bob gwasanaeth fydd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Bydd y grŵp yn trafod materion penodol, e.e. tai, yr economi, addysg a materion yn ymwneud â meysydd penodol er mwyn cyflwyno a thrafod materion yn ymwneud â'r CDLl. Bydd trafodaethau'r grŵp yn cyfrannu at y Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y CDLl fydd yn cael ei ystyried ar lefel wleidyddol.

## 6.0 Cyfarwyddyd Erthygl 4

6.1 Mewn ymateb i'r pwysau y mae preswylwyr lleol yn ei wynebu wrth iddynt geisio prynu neu rentu cartrefi yn eu cymunedau oherwydd ail gartrefi a chartrefi gwyliau, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau mewn deddfwriaeth gynllunio gan roi pwerau i Awdurdodau Cynllunio Lleol fynd i'r afael â phryderon o'r fath trwy deilwra eu mesurau rheoli i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 i greu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi (Dosbarth Defnydd C3), Cartrefi Eilaidd (Dosbarth Defnydd C5) a Llety Gwyliau Tymor Byr (Dosbarth Defnydd C6);
- Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 er mwyn caniatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi, Cartrefi Eilaidd, a Llety Gwyliau Tymor Byr; a
- Diwygio Polisi Cynllunio Cymru i'w gwneud yn glir, pan fo hynny'n berthnasol, bod rhaid ystyried nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried y gofynion tai a'r polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

6.2 Mae'r ail o'r mesurau hyn yn berthnasol iawn gan ei fod yn caniatáu newid rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd heb fod angen caniatâd cynllunio i newid defnydd. Fodd bynnag, mae mecanweithiau'n bodoli i ddileu'r hawliau datblygu a ganiateir sydd gan berchnogion tai i newid rhwng y gwahanol ddosbarthiadau defnydd dan sylw. Mae hawliau a ganiateir yn cael eu caniatáu gan Erthygl 3 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn yn caniatáu i'r hawliau hynny gael eu diddymu – *"If the Secretary of State or the appropriate local planning authority is satisfied that it is expedient that any development described in any Part ........ should not be carried out*

*unless permission is granted for it on application"[1].* Mae cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei adnabod yn aml fel Cyfarwyddyd Erthygl 4.

6.3 Oherwydd y pwysau y mae'r galw am ail gartrefi neu gartrefi gwyliau ar Ynys Môn yn ei roi ar y farchnad eiddo leol, a'r darpariaethau a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, bydd rhaid i'r Cyngor Sir fynd ati i ystyried a ddylid cyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath ar yr ynys. Byddai'r gwaith hwn yn rhan o gyfrifoldebau'r Cydlynydd Her Tai, swydd sy'n cael ei hysbysu fel rhan o'r ymgyrch recriwtio sy'n mynd rhagddi.

6.4 Er nad yw'r Cyngor Sir wedi ymrwymo'n llawn eto i ystyried priodoldeb Cyfarwyddyd Erthygl 4 i fynd i'r afael â phroblem perchnogaeth ail gartref a llety gwyliau, mae cydweithwyr yng Ngwynedd wedi penderfynu cyhoeddi Cyfarwyddyd ar gyfer ardal gyfan yr awdurdod cynllunio lleol (hynny yw, yr ardaloedd o'r sir sydd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Ar hyn o bryd mae'r cam hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn cau ar 13 Medi 2023.

6.5 Mae'r Cyngor Sir wedi paratoi a chyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad a chafodd ei ystyried gan y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai). Rhannwyd copi o'r ymateb drafft gyda phob un o grwpiau gwleidyddol y Cyngor Sir.

6.6 Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor hwn wrth i Ynys Môn barhau i ystyried y mater pan fydd hynny'n briodol ac yn amodol ar benodi'r swyddog perthnasol.

## 7.0 Hyfforddiant i Aelodau

7.1 Mewn ymateb i'r cais a wnaed yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Polisi Cynllunio (12 Gorffennaf 2023) mae rhaglen hyfforddi'n cael ei pharatoi ar gyfer aelodau a bydd yn cynnwys trosolwg o'r broses ar gyfer paratoi cynllun datblygu, ynghyd â sesiynau mwy manwl fydd yn edrych ar elfennau penodol o'r broses, gan ganolbwyntio ar feysydd gwaith unigol.

7.2 Yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor, gellir trefnu dyddiad ar gyfer darparu'r sesiwn trosolwg a gellir cytuno wedyn ar ddyddiadau ar gyfer cyflwyno'r rhaglen o sesiynau manwl.

[1] Dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg felly nid oes cyfieithiad ar gael.

This page is intentionally left blank





# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026

5ed Adroddiad Monitro Blynyddol
1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn
# 2011-2026


## ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL
## 1 EBRILL 2022 – 31 MAWRTH 2023
### 5ed Adroddiad Monitro Blynyddol

**Cynnwys**

CRYNODEB GWEITHREDOL .......... 3
Casgliadau Allweddol yr AMB .......... 6
Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd .......... 8
PENNOD 1: CYFLWYNIAD .......... 9
Beth yw'r AMB? .......... 10
Dangosyddion .......... 10
Trothwyon .......... 11
Camau gweithredu .......... 11
Adolygu'r Cynllun .......... 13
Strwythur a chynnwys .......... 13
PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
Y CYD- DESTUN LLEOL .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
CASGLIAD .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION .......... 23
6.1 Cymunedau Diogel, Nodedig, Iach a Bywiog .......... 25
6.2 Byw'n Gynaliadwy .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
6.3 Economi ac Adfywio .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
6.4 Cyflenwad ac ansawdd tai .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig .......... **Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**
PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION .......... 138

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

i. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.






ii. Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd.

Mae'n cynnwys cyfanswm o 70[1] o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae'n cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy'n sbardun i arwain at weithredu pellach, pan fydd angen hynny. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a ystyriwyd yn yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLl ar y Cyd.

iii. Fel rhan o broses statudol y Cynllun Datblygu, mae'n rhaid i'r Cynghorau baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB. Bydd yr AMB yn cofnodi'r gwaith o asesu'r dangosyddion ac unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLl ar y Cyd. Dros gyfnod amser mae'n gyfle i'r Cynghorau asesu effaith y CDLl ar y Cyd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun.

iv. Hwn yw'r pumed AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Mae'r AMB hwn yn edrych ar y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023. Mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref, 2023.

v. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| Symbol | Disgrifiad | Nifer o Ddangosyddion |
|---|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 33 |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 21 |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 5 |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 0 |

[1] Bydd AMB 5 yn adrodd ar 59 o ddangosyddion. Mae'r targed ar gyfer 5 o'r dangosyddion wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB1,5 arall wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB2 ac 1 wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB3. Gan hynny nid oes angen parhau i fonitro'r dangosyddion yma.

| | |
|---|---|
| Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni | 11 |

vi. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

**Tabl A: Crynodeb o gasgliadau'r asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro**

| **Asesiad** | **Gweithred** | **Nifer o ddangosyddion yn y categori** |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 46 |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 0 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | 13 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu'r Cynllun | 0 |
| Targed wedi ei gyflawni. | Dim angen gweithrediad pellach. | 11 |

vii. Fel y gwelir uchod, nid yw'r mwyafrif y dangosyddion angen unrhyw weithred bellach ar wahân i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi eu lliwio mewn llwyd gan eu bod wedi'u cyflawni. Gan nad oes angen unrhyw weithredu pellach nid ydynt wedi'u nodi uchod.

viii. Mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud â pharatoi’r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), a gweler nad yw’r gyfres o CCA wedi eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, cofnodir rhesymau i gyfiawnhau’r oedi wrth baratoi'r CCA a dangosir byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ble fo dangosydd yn ymwneud â CCA sydd wedi ei fabwysiadu mae’r weithred wedi ei liwio’n llwyd gan nad yw unrhyw weithredu pellach yn angenrheidiol mewn perthynas â’r dangosydd.

ix. Wrth asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd, yn ogystal â ystyried y dangosyddion, mae rhaid i’r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl ar y Cyd.

**Casgliadau Allweddol yr AMB**

1. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 315 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2022/23. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o’r AMB. Roedd 163 uned (52%) ar gyfer tai fforddiadwy.
2. Cwblhawyd 298 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma.
3. Cwblhawyd 122 o unedau tai fforddiadwy yn 2022-23 sydd yn 41% o’r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.
4. Nodir bod 4569 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2022/23, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi cwblhau o 5663 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 19.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr. Mae hyn oherwydd bod y twf economaidd ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyliedig, dydi prosiectau isadeiledd ar raddfa mawr ddim wedi dod yn ei flaen, o ganlyniad i’r pandemig a newydd fod y galw am dai mewn rhai ardaloedd o’r Cynllun ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyliedig.
5. Mae 43.2% o'r unedau tai[2] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a’r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 29.8% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 27.0% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
6. Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2022-23), mae 25.8% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
7. Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMB yw 28.5 o unedau fesul hectar.
8. Caniatawyd pump safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 33 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).

2 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

9. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i bedwar uned marchnad leol o'r newydd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Cwblhawyd tri uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn. Nodir mai'r CDLl ar y Cyd yw'r unig Gynllun yng Nghymru sydd gyda'r polisi yma a deallir fod Llywodraeth Cymru erbyn hyn yn edrych i ddatblygu polisi tebyg yn genedlaethol
10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 70% o ganiatadau tai ar safleoedd o'r newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) a sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle. Ar gyfer yr 6 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2022 i 2023 mae 4 safle ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo un safle arall yn darparu y lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy. Yn dilyn asesiad hyfywedd fe gytunwyd oherwydd natur y bwriad nad oedd yn hyfyw cael unedau fforddiadwy ar un safle.
11. Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy yn 48%
12. Derbyniodd y Cynghorau 29 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 53% o'r rhain eu gwrthod. Nid oedd unrhyw un o'r apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio'r polisïau a gynhwysir yn y Cynllun. Roedd yr apeliadau a gymeradwywyd yn ymwneud â materion megis addasrwydd priffyrdd, dyluniad ac effeithiau'r dirwedd. Roedd hefyd apeliadau yn ymwneud â cheisiadau gan ddeiliaid tai a datblygiadau amaethyddol.
13. Un o amcanion strategol y CDLl ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer amryw o ddefnyddiau cyflogaeth er engrafit sied magu a bridio pysgod, parlwr trin cŵn, unedau storio a ffrâm bren ar gyfer clinig asgwrn cefn..
14. Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2023 dim ond 70.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLl ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a trydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni. Mae gan y cynlluniau a ganiateir botensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,281.4GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun fodd bynag mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisïau Ynni Adnewyddadwy y Cynllun.
15. Cafodd 8 cais ei gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a cafodd 13 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.

**Adolygu'r Cynllun**

x. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid adolygu Cynlluniau pob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd gwneud Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd. Yn dilyn hyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a


Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn oedd dirwyn y trefniant cydweithio i ben rhwng y ddau Gyngor a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Fe fydd casgliadau'r holl AMB yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd i'r ddau Gyngor. Er bod penderfyniad i baratoi CDLl ar wahân i'r ddau Gyngor, mae'r AMB yma yn dilyn yr un fformat a'r rhai blaenorol, oherwydd mae'n ofynnol adrodd ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mi fydd y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno yn yr Adroddiad yma yn ddefnyddiol fel tystiolaeth i'r ddau Gyngor ar gyfer paratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol unigol.

**Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC)**

xi. Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLl yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLl.

**PENNOD 1: CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun ac o fewn oes y CDLl ar y Cyd (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




1.2 Mae Isadran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cynghorau'n cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sydd yn berthnasol i'w CDLl ar y Cyd ar ôl ei fabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ardal y CDLl ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB. Bydd angen cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, cyn

belled bod blwyddyn ariannol gyfan (1 Ebrill - 31 Mawrth) wedi mynd heibio ers dyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd.

1.3 Dyma'r pumed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r AMB hwn yn edrych y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023. Mae'n ofynnol fod yr AMB yma (AMB4) yn cael ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2023.

**Beth yw'r AMB?**

1.4 Mae'r AMB yn darparu cyfle i gofnodi asesiadau o faterion pwysig a allai ddylanwadu ar y gallu i gyflawni'r CDLl ar y Cyd a chasgliadau'r gwaith hwnnw, yn ogystal â hygrededd y CDLl ar y Cyd o safbwynt cynaliadwyedd. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLl ar y Cyd. Mae gofyn bod y Cynghorau'n cynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl ar y Cyd bob 4 blynedd fan bellaf o'r adeg y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu gyntaf, sef y 31 Gorffennaf 2021 yng nghyd destun y CDLl ar y Cyd. Fe fydd casgliadau'r AMBau yn rhan o sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at paratoi CDLl newydd. Mae Adolygiad wedi cael ei gynnal ag Adroddiad Adolygu wedi cael ei baratoi mae gwybodaeth pellach yn paragraff 1.12 isod.

1.5 Y Fframwaith Monitro yw prif sylfaen yr AMB. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 69 (wedi ei ddiwygio i 70, gweler para 1.6 isod) o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau.

**Dangosyddion**

1.6 Mae yna ddisgwyliad o fewn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion allweddol yn ymwneud a'r canlynol:-

**Tabl 1: Dangosyddion Craidd**

| Dangosydd craidd | Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | D47 |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig. | D44 |
| Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun. | D47 |
| Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth). | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai. | D50 |
| Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2. | D18 |

1.7 Mae'r Fframwaith Fonitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cynghorau sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y CDLl ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

1.8 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r llall. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

**Trothwyon**

1.9 Mae gan bob un o'r dangosyddion drothwy penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronnol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir y trothwy, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

**Camau gweithredu**



1.10 Mae'r Fframwaith Monitro'n nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg casglu data neu ganlyniadau annisgwyl. Fe allai methiant a chyflawni targed penodol olygu fod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun cyfan) angen bod yn destun adolygiad.

1.11 Mae Tabl 2 isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro ac fe'u nodir yn y Fframwaith Monitro sydd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd. Mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml, a ddangosir yn Nhabl 3 isod, i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

**Tabl 2: Camau gweithredu posibl**

| Asesiad | Gweithred |
|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Arolygu'r polisi yn unol â hynny |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Arolygu'r Cynllun |
| Targed wedi ei gyflawni | Dim angen gweithrediad pellach |

**Tabl 3: Symbolau monitro**

| | |
|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| | |
|---|---|
| ○ | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. |

**Adolygu'r Cynllun**

1.12 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid adolygu Cynlluniau pob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd gwneud Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd. Yn dilyn hyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn oedd dirwyn y trefniant cydweithio i ben rhwng y ddau Gyngor a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Fe fydd casgliadau'r holl AMB yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd i'r ddau Gyngor. Er bod penderfyniad i baratoi CDLl ar wahân i'r ddau Gyngor, mae'r AMB yma yn dilyn yr un fformat a'r rhai blaenorol, oherwydd mae'n ofynnol adrodd ar berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mi fydd y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno yn yr Adroddiad yma yn ddefnyddiol fel tystiolaeth i'r ddau Gyngor ar gyfer paratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol unigol.

**Strwythur a chynnwys**

1.13 Dyma strwythur gweddill yr AMB hwn.

**Tabl 5: Strwythur yr AMB**

| **Pennod** | | **Cynnwys yn fras** |
|---|---|---|
| 2 | Dadansoddi newid cyd-destunol sylweddol | Crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach o fewn yr hyn mae'r CDLl yn gweithredu ynddo, e.e. deddfwriaeth/ strategaethau/polisïau allanol. |
| 3 | Dadansoddiad o ddangosyddion | Manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLl ar y Cyd (yn nhrefn y CDLl ar y Cyd) |
| 4 | Casgliad ac argymhellion | Adnabod newidiadau gofynnol i'r cynllun yn ystod adolygiad statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw'n briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Atodiadau | 1. Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd<br>2. Dosbarthiad caniatadau preswyl.<br>3. Darpariaeth o dir ar gyfer tai. |

1.14 Dylai strwythur yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd i allu cymharu un gyda'r blaenorol/olynnol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol a ffeithiol a gyrchir gan y Cynghorau a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu beidio bod yn gyfoes. Yn unol â hynny, efallai y bydd AMB dilynol yn gorfod nodi unrhyw ystyriaethau o'r math hwn.

## PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL

2.1 Yn ystod y cyfnod monitro, mae nifer o ddogfennau polisi/canllawiau newydd/diweddariad wedi'u eu cyhoeddi. Mae'n bwysig deall y gwahanol ffactorau a all effeithio ar berfformiad y CDLl ar y Cyd, o'r lefelau byd-eang a chenedlaethol, i lawr i bolisïau a chanllawiau lleol y Cynghorau eu hunain. Mae rhai newidiadau yn amlwg yn hollol allan o reolaeth y Cynghorau. Mae'r Bennod hwn yn rhoi trosolwg cryno o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gafodd ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'n cynnwys cynlluniau, polisïau a strategaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ble'n briodol, amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol ar yr CDLl ar y Cyd. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod yr AMB yma hefyd yn cael eu hadnabod. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLl ar y cyd yn adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma.

### Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL

#### Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 (Ddatblygu llifogydd ac erydu arfordirol)

2.2 Yn mis Tachwedd 2021 cadarnhawyd ni fyddai TAN 15 newydd yn dod i rym tan fis Mehefin 2023. Serch hynny, mae ystyriaeth lawn o risg llifogydd a'i reolaeth yn y system gynllunio yn parhau i fod o'r flaenoriaeth uchaf. Yn y cyfamser, bydd fframwaith polisi presennol Polisi Cynllunio Cymru, TAN 15 a'r Map Cyngor Datblygu, ynghyd â TAN 14 (Cynllunio'r arfordir) yn parhau yn ei le.

2.3 Yn mis Ionawr 2023 cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol yn amlinellu diwygiadau pellach i'r TAN 15. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg hyd at mis Ebrill 2023.

#### Newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987

2.4 Yn mis Hydref 2022 daeth newidiadau i'r Gorchymyn uchod i rym gan greu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer:

- Tai annedd, a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif breswylfa (Dosbarth C3).
- Tai annedd a ddefnyddir mewn modd ac eithrio fel unig breswylfa neu brif breswylfa (Dosbarth C5).
- Llety Gosod tymor byr – Tai annedd a ddefnyddir ar gyfer llety gosod tymor byr masnachol heb fod am fwy na 31 diwrnod ar gyfer pob cyfnod o feddiannaeth (Dosbarth C6).

2.5 Yn flaenorol nid oedd y Gorchymyn yn gwahaniaethu rhwng unrhyw un o'r uchod ac roeddynt i gyd yn disgyn o fewn dosbarth defnydd C3.

#### Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO)

2.6 Hefyd yn mis Hydref 2022, diwygiwyd y GPDO er caniatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd, C3, C5 a C6. O'r herwydd, nid oes angen hawl cynllunio ar gyfer newid o un o'r 3 dosbarthiadau defnydd newydd i'r llall. Serch hynny, fe all Awdurdod Cynllunio Lleol datgymhwyso'r hawliau datblygu a ganiateir hyn o fewn ardal benodol drwy gyflwyno Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar sail tystiolaeth a chyfiawnhad priodol. Er mwyn hwyluso'r gwaith a'ch cynorthwyo i wneud Cyfarwyddiadau Erthygl 4, mae'r GPDO hefyd yn cael ei ddiwygio i gynnwys Erthygl 4 newydd sy'n symleiddio'r broses.

**Polisi Cynllunio Cymru**

2.7 Yn gysylltiedig gyda'r diwygiadau i'r Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, mae newidiadau ategol hefyd i adran 4.2 o Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae'r newidiadau i'r arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol hyn yn ei gwneud yn glir, pan fo hynny'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried nifer yr ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried y gofynion tai a'r ymdriniaeth/arweiniad polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Mae'r diwygiadau i PCC yn ei gwneud yn glir, pan fo Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, y dylai atgyfnerthu ei weithredoedd drwy ei gwneud yn ofynnol i amodau gael eu gosod ar bob annedd newydd sy'n cyfyngu ar eu defnydd i Ddosbarth C3 lle byddai amod o'r fath yn bodloni'r profion perthnasol. Dylid hefyd neilltuo safleoedd mewn CDLlau sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3, gan gynnwys tai marchnad leol, mewn ardaloedd lle maent yn ceisio rheoli ail gartrefi a llety tymor byr.

2.8 Ar hyn o bryd nid yw'r fersiwn ffurfiol o PCC wedi ei ddiwygio i ymgorffori y newidiadau hyn. Serch hynny, mae copi o'r diwygiadau i adran 4.2 o PCC ynghlwm a lythyr Y Gweinidog Newid Hinsawdd i Awdurdodau Cynllunio Lleol (Dyddiedig 28/09/2022) (https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-ddeddfwriaeth-pholisi-cynllunio-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-tymor-byr).

**Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (Hydref 2022)**

2.9 Mae'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael a'r heriau sydd yn wynebu Cymunedau Cymraeg gyda dwysedd uwch o ail gartrefi ac yn ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd a'r Gymraeg, ac yn ystyried pa gamau pellach sydd eu hangen.

2.10 Nod y Cynllun hwn yw grymuso cymunedau i greu a datblygu cynlluniau ar eu cyfer eu hunain drwy gydweithio ar becyn o ymyraethau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r cynllun peilot yn Nwyfor ar nifer o bolisïau i gefnogi a gwarchod y Gymraeg ar lefel gymunedol.

2.11 Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cynnwys yr ymyraethau canlynol:

- Yr Economi, Tai a'r Gymraeg
- Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned
- Tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned
- Grŵp llywio asiantau eiddo a rhanddeiliaid

- Ymgyrch addysgiadol - 'Cyfle Teg'
- Comisiwn Cymunedau Cymraeg
- Llysgenhadon diwylliannol
- Enwau lleoedd Cymraeg

**Plymio dwfn bioamrywiaeth: argymhellion (Hydref 2022)**

2.12 I gefnogi Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth COP15 y Cenhedloedd Unedig, gwnaeth Llywodraeth Cymru cwblhau eu Harchwiliad Manwl i Fioamrywiaeth eu hunain a chytuno ar gyfres o gamau ar y cyd i'w cymryd yng Nghymru er mwyn diogelu rhai o'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr, a'u rheoli'n effeithiol, a chefnogi adfer byd natur. Mae'r gyfres o gamau cydweithredol y gellir ei gymryd ar unwaith i gyflawni nod '30 erbyn 30' y CBD, gan gydnabod y galluoedd sydd gennym yng Nghymru ac adlewyrchu ein dyletswyddau a'n ffordd o weithio a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), fel y ganlyn:

1. Trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i'r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu'n fwy effeithiol.
2. Creu fframwaith i gydnabod Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur a Mesurau Cadwraeth ffeithiol Eraill ar sail Ardal (OECMs) sy'n cyflawni canlyniadau o ran bioamrywiaeth.
3. Rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 erbyn 30
4. Parhau i ddiwygio gwaith rheoli a chynllunio tir a morol (gan gynnwys gofodol) i gyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thir / morweddau yn ehangach
5. Adeiladu sylfaen gref ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy ddatblygu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau
6. Rhyddhau cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy
7. Datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30 x 30 a llywio'r broses o flaenoriaethu camau gweithredu
8. Rhoi Adferiad Natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru

**Y CYD-DESTUN RHANBARTHOL**

**Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol**

2.13 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel dull o gydweithredu'n rhanbarthol drwy fframwaith mwy cyson a democrataidd o ran ei reoli.

2.14 Mae pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi'u sefydlu ar sail yr ardaloedd daearyddol y gofynnodd awdurdodau lleol amdanynt, sy'n adlewyrchu trefniadau cydweithredu rhanbarthol sy'n bodoli eisoes. Byddant yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau penodol a phwysig llywodraeth leol ar raddfa ranbarthol

2.15 Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'i gynllunio i sicrhau hyblygrwydd ac i alluogi disgresiwn yn lleol. I raddau helaeth, aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd yn pennu'r ffordd y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn gweithredu. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn galluogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i wahaniaethu rhwng ardaloedd daearyddol er mwyn diwallu anghenion penodol eu rhanbarth.

2.16 Mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfrifoldebau sylweddol sydd yn cael effeithiau gwirioneddol ar awdurdodau lleol a'r bobl sy'n byw yn eu hardaloedd. Ar 30 Mehefin 2022, gosodwyd dyletswydd arnynt i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

2.17 Bydd gwaith Cyd-bwyllgorau Corfforedig o lunio Cynlluniau Datblygu Strategol yn galluogi dull mwy cyson, cost effeithiol ac effeithlon o gynllunio. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn sicrhau canlyniadau cynllunio mwy effeithiol i gymunedau, drwy sicrhau bod materion allweddol, datblygiadau a seilwaith cysylltiedig yn cael eu cynllunio mewn ffordd integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

2.18 Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi polisïau i ddarparu ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth diogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn y rhanbarth. Rhaid i'r cynlluniau hyn ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yn y rhanbarth, sy'n gweithio ynddo, sy'n ymweld ag ef, neu sy'n teithio drwyddo. Bydd angen hefyd i'r cynlluniau fod yn gyson â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol Gogledd Cymru**

2.19 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi sefydlu Cronfa Ffyniant Cyffredin y DU a bydd cyllid cyfalaf a refeniw ar gael ar draws tair blaenoriaeth fuddsoddi, sef:

- Cymuned a Lle
- Cynorthwyo Busnesau Lleol, a
- Phobl a Sgiliau.

2.20 Mae pob ardal leol yn derbyn dyraniad ar sail fformiwla cyllido a dyrannwyd £24.4 miliwn i Wynedd a £13.3 miliwn i Ynys Môn ar gyfer y cyfnod hyd at Mawrth 2025. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i ardaloedd lleol cydweithio gydag ardaloedd eraill o fewn eu rhanbarth a'r cam gyntaf yn sicrhau'r cyllid yw cyflwyno Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol yn amlinellu sut fydd yr arian yn cael ei rannu rhwng y blaenoriaethau buddsoddi a'i ddosbarthu.

**Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru – Canllaw Cynllunio Atodol**

2.21 Fe ddynodwyd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd mis Gorffennaf 2021. Mabwysiadwyd Canllaw Cynllunio Atodol ar y Cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mehefin 2022.

Diben y canllaw ydy:

- cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantiaid i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,

- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd ac ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a
- helpu Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau a
- rhoi cyngor penodol ar faterion cynllunio

**Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy 2035: Gwynedd ac Eryri**

2.22 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Cynllun Strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy 2035: Gwynedd ac Eryri, i'w fabwysiadu yng ngwanwyn 2023. Mae'r cynllun strategol hwn yn gosod allan y weledigaeth ar gyfer dyfodol 'Economi ymwelwyr er budd ac er lles y bobl, yr amgylchedd, yr iaith a'r boblogaeth a diwylliant Gwynedd ac Eryri.'

2.23 Mae'r cynllun strategol hefyd yn nodi tair egwyddor graidd ar gyfer economi ymwelwyr cynaliadwy,

- Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
- Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
- Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn drech nag unrhyw Anfanteision

2.24 Nod y cynllun strategol hwn yw i'r cydweithio hwn rhwng Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, y sector cyhoeddus, busnesau a phartneriaid cymunedol arwain at greu economi ymwelwyr cynaliadwy yn yr ardal sydd yn blaenoriaethu lles a ffyniant cymunedau, iaith a diwylliant.

2.25 Mae'r Cynllun yn cydnabod gorddibyniaeth ar adrodd a mesur yr elfen economaidd a chyflogaeth yn gysylltiedig a thwristiaeth a'r angen i ystyried effaith y sector economi ymweld yn ehangach. Mae'r Cynllun felly yn adnabod dangosyddion newydd ar gyfer mesur effaith yr economi ymweld ar yr ardal fel y bydd darlun llawer mwy cytbwys sy'n cynrychioli'r tri phennawd egwyddor craidd y cyfeirir atynt uchod.

**Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

2.26 Comisiynodd y ddau Gyngor ARC 4 i helpu i gynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2022 (GTAA), cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023.

Nododd y GTAA yr angen preswyl canlynol o fewn ardal y cynllun:

| **Awdurdod Lleol** | **Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) i 2025** | **Angen heb ei ddiwallu (cyfnod y cynllun) i 2036 sy'n cynnwys targed 2025** |
|---|---|---|
| Gwynedd | 7 | 11 |
| Ynys Môn | 9 | 11 |

2.27 Yn ogystal, nodwyd yr anghenion tramwy canlynol:

- Safle o hyd at 10 llain ar gyfer carafanau yn ganol Ynys Môn;
- Safle ar gyfer nifer fach, o hyd at 3 carafán yn agos at derfynfa fferi Caergybi;

- Dim safle pellach yng Ngwynedd gan fod yna le stopio ar gael yng Nghaernarfon yn barod.

**Y CYD-DESTUN LLEOL**

**1) <u>Gwynedd</u>**

**Peilot Tai Gwag Dwyfor**

2.28 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd adroddiad Ail-gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru. Roedd yr adroddiad astudio effaith ail gartrefi mewn cymunedau ledled Cymru. Gwnaeth awdur yr adroddiad, Dr Simon Brooks, 12 o argymhellion, oedd yn cynnwys sefydlu ardal beilot, i dreialu dulliau newydd.

2.29 Dewiswyd ardal Dwyfor fel yr ardal beilot yn seiliedig ar:

- ei faint daearyddol
- crynodiad ail gartrefi mewn cymunedau yn yr ardal
- materion yn gysylltiedig â'r Gymraeg.

2.30 Yn dilyn penodi dau swyddog penodol yn gysylltiedig a'r Cynllun Peilot yn ystod haf 2022, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Grŵp Cynefin a'r Parc Cenedlaethol yn ardal Beilot Dwyfor. Bydd y cynllun peilot yn rhedeg am o leiaf ddwy flynedd ac yn ffordd o ddysgu a rhannu ymarfer da hefo rhannau eraill o Gymru.

2.31 Mae'r gweithredoedd sydd wedi neu ar waith yn gysylltiedig a'r Cynllun Peilot yn cynnwys:-

- cefnogaeth o ran y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn yr ardal drwy gydweithio agos gydag amryw o bartneriaid gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Cynefin, cynghorau tref a chymunedau Dwyfor;
- Ymestyn y Cynllun Prynu Cartref (Homebuy), gyda swm o £8.5 miliwn wedi ei glustnodi gan y Llywodraeth ar gyfer y Cynllun yma yn yr Ardal Beilot;
- Dod a chartrefi gwag yn nol i ddefnydd. Mae £1 miliwn wedi ei gyfrannu gan y Llywodraeth i'r Cyngor er mwyn dod ac unedau preswyl gwag yn nol i ddefnydd;
- Edrych ar y ddarpariaeth a chost tai rhent preifat;
- Cefnogi mentrau cymunedol/tai fforddiadwy.

**Prosiect Arosfan**

2.32 Yn ôl ym mis Mai 2022 bu i Gyngor Gwynedd sicrhau cyllid drwy raglen Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru i dreialu pum safle steil 'aire' dros nos ar gyfer cartrefi modur, fel rhan o brosiect i atal y problemau amgylcheddol a chymdeithasol a achosir gan wersylla anghyfreithlon.

2.33 Mae caniatâd cynllunio wedi ei sicrhau i dreialu pedwar safle 'Arosfan' mewn lleoliadau yng Ngwynedd a fydd yn cynnig safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros-nos.

2.34 Yn dilyn derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd ym maes parcio Doc Fictoria (cyn safle Shell) yng Nghaernarfon; Y Glyn yn Llanberis; maes parcio'r Maes yng Nghricieth a Chei'r

Gogledd ym Mhwllheli mae gwaith ar y ddaear yn bwrw ymlaen i ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae gwaith yn parhau i geisio adnabod safle addas ar gyfer darparu lleoliad 'Arosfan' yn ardal Meirionnydd.

2.35 Bydd pob un o'r safleoedd 'Arosfan' yn cynnig lle i hyd at naw o gartrefi modur a fydd yn talu ffi i barcio am uchafswm o 48-awr. Byddant yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer dŵr ffres, dŵr gwastraff cemegol, ailgylchu a sbwriel cyffredinol.

2.36 I gyd-fynd gyda'r safleoedd 'Arosfan', mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cyflwyno gorchmynion penodol a fydd yn atal hawl cartrefi modur i barcio dros nos mewn cilfannau mewn ardaloedd sydd wedi gweld enghreifftiau o barcio a gwersylla anghyfrifol dros y blynyddoedd diwethaf. Bwriad y Cyngor wrth gyflwyno'r gorchmynion yma ar gyfer yr A496 ar y ffordd i mewn i Abermaw, ar yr A497 ger Cricieth ac ardal Y Foryd ger Caernarfon fydd cryfhau grymoedd y Cyngor i reoleiddio y maes er mwyn ymateb i'r heriau sydd yn codi mewn rhai lleoliadau yn y sir gyda'r cerbydau yma'n parcio dros nos heb hawl.

**Cynyddu'r Treth Cyngor Premium**

2.37 Yn ei gyfarfod ar 1af Rhagfyr 2022 penderfynodd y Cyngor i gynyddu y premiwm i 150% ar ail gartrefi, hynny yn effeithiol o 1af Ebrill 2023. Mae'r penderfyniad yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus mis Medi a Hydref 2022 ar y fater. Swm ar ben y dreth gyngor yw premiwm, felly bydd y rhai yr effeithir arnynt yn talu 250% o dreth gyngor.

2.38 Bydd yr arian ychwanegol ddaw i goffrau'r Cyngor yn sgil y newid yn cael ei glustnodi ar gyfer taclo'r argyfwng digartrefedd, gan y gwelwyd cynnydd o 47% yn y nifer sy'n ddigartref yng Ngwynedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**2) Ynys Môn**

**Porthladd Rhydd Ynys Môn**

2.39 Mae Llywodraethau'r DU a Chymru wedi cadarnhau mis Mawrth 2022 y bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn un o ddau borthladd rhydd i'w sefydlu yng Nghymru.

2.40 Mae porthladdoedd rhydd yn diddymu rhwystrau masnach ac yn darparu hawddfreintiau sy'n symleiddio sut y gall busnesau weithredu. Yn ôl amcangyfrifon modelu, byddai'r porthladd rhydd yn denu gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad sydd wir ei angen, yn cynnwys tua 3,500 i 13,000 o swyddi cyflog uchel ar draws y rhanbarth. Mae sicrhau statws porthladd rhydd bellach â'r potensial i ddarparu gwir newid i gymunedau ledled Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru.

2.41 Bydd statws porthladd rhydd hefyd yn darparu hwb sylweddol i Raglen Ynys Ynni'r cyngor sir - sy'n anelu i fod yn ganolfan ar gyfer ymchwil a datblygiad ynni carbon isel, cynhyrchiant arloesedd a gwasanaethu - ac mae'n cefnogi ei darged uchelgeisiol o gyflawni sero net erbyn 2030.

**Cronfa Adfywio Gogledd Ynys Môn**

2.42 Lanswyd Cronfa Adfywio Gogledd Ynys Môn ym mis Ionawr er mwyn helpu busnesau, cefnogi digwyddiadau lleol a sicrhau gwelliannau amgylcheddol.

2.43 Gan ddefnyddio cyllid gan yr NDA (Awdurdod Datgomisiynu Niwclear) dyma'r drydedd flwyddyn y mae Cyngor Môn wedi gwahodd ceisiadau am gyllid o'r gronfa hon a hynny fel rhan o ymdrechion i adfywio'r ardal. Dyma'r swm uchaf o gyllid sydd wedi'i gynnig hyd yma wrth i £50,000 fod ar gael ar gyfer cynlluniau y gellir eu gwireddu erbyn 31 Mawrth 2023.

2.44 Mae grantiau bach o hyd at £7,500 ar gael i helpu busnesau a grwpiau cymunedol yn wardiau Talybolion a Twrcelyn a chymuned Moelfre - er mwyn darparu prosiectau a fydd yn cefnogi Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn y Cyngor Sir. Hyd yma, mae £117,000 wedi ei roi i fusnesau lleol, grwpiau cymunedol ac achosion lleol eraill er mwyn cefnogi'r broses o greu swyddi a chyfrannu at ba mor llewyrchus yw'r ardal. Mae'r gronfa wedi cefnogi 20 o fusnesau neu grwpiau cymunedol; wedi diogelu 35 o swyddi, wedi creu 42 swydd (a phosibilrwydd o 47 swydd ychwanegol o fewn 2 flynedd) ac wedi darparu cyfleoedd gwirfoddoli i 130 o unigolion.

**CASGLIAD**




2.45 Fel y nodir uchod, gwelwyd deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro hwn.

2.46 Bydd AMBau dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar y materion cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

## PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION

3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno asesiad o berfformiad y polisïau strategol a pholisïau eraill o fewn y CDLl ar y Cyd gan nodi os ydynt yn cael eu gweithredu ategol fel y bwriadwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y CDLl ar y Cyd yn cael eu cyflawni. Mae’r tablau unigol yn y bennod hon yn rhoi casgliadau a chamau priodol (lle bo angen) i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro.

3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| Symbol | Disgrifiad |
|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu’n well na’r disgwyliadau. |
|  | Nid yw’r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny’n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
|  | Nid oes casgliad – mae’r data sydd ar gael yn brin. |

3.3 Mae’r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth o ran y dangosyddion o fewn y Fframwaith Fonitro ble mae targed y dangosydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Gan hynny, nid oes angen adrodd ar y dangosyddion hyn yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol olynol:-

| Rhif Dangosydd | Disgrifiad | Dyddiad cyflawni targed (Cyfnod AMB) |
|---|---|---|
| D4 | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | AMB 2 |

| | | |
|---|---|---|
| D16 | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | AMB 2 |
| D51 | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy. | AMB 2 |
| D55 | Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol (LHMA) i Wynedd | AMB 2 |

**Nodyn: Yn dilyn derbyn** llythyr **gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mae Dangosydd D43 wedi cael ei ddisodli gan D43A a D43B.**

## 6.1 Cymunedau Diogel, Nodedig, Iach a Bywiog

### Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad 2021 ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan, Awdurdodau Lleol Cymru a fesul pob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Yng Nghymru roedd y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 17.8% sydd yn ostyngiad o 1.2% ers 2011 yn wir fe gafwyd gostyngiad mewn 18 allan o'r 22 Awdurdod Lleol Cymru efo'r gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin (-4.0%) ar gynnydd mwyaf i'w weld yng Nghaerdydd (+1.1%).

Yng Ngwynedd ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg sy'n cyfateb i 64.4%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 65.4% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 yn 77,000. Felly mae'r gyfran wedi gostwng 1% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 3,440.

Yn Ynys Môn ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 37,413 o bobl (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 57.2% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 yn 38,568. Felly mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 1,155.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r newid sydd wedi ei weld yng Ngwynedd, Môn a Chymru gyfan ar sail % siaradwyr Cymraeg fesul grwpiau oedran:

| Grŵp Oedran | Gwynedd | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|---|
| 3-15 oed | -2.9% | -3.5% | -5.7% |
| 16-24 oed | +1.6% | +1.7% | +0.8% |
| 25-34 oed | +0.2% | +0.7% | +0.9% |
| 35-49 oed | +0.2% | +3.0% | +1.1% |
| 50-64 oed | +0.6% | -1.5% | -0.7% |
| 65-79 oed | -3.3% | -4.7% | -2.1% |
| 80+ oed | -3.3% | -0.6% | -2.6% |

Ceir patrwm eithaf cyson o ran pa oedrannau sydd wedi gweld cynnydd neu ostyngiad efo'r unig wahaniaeth yn yr oedran 50 i 64 ble mae yna gynnydd bach wedi bod yng Ngwynedd tra geir gostyngiad yn Ynys Môn a Chymru. Nid yw'n glir os yw'r pan demig covid-19 wedi cael effaith ar y gostyngiad sydd wedi bod yn yr oedran 3-15 oed efo nifer o blant yn cael ei dysgu ar lein adref yn hytrach na yn yr ysgol. Dylid cadw golwg ar hyn drwy drafodaethau efo Gwasanaeth Addysg y ddau awdurdod i ganfod unrhyw ystadegau mwy diweddar sydd ganddynt ar gyfer sgiliau ieithyddol plant yn yr ysgolion lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r 5 cymdogaeth (LSOA) sydd wedi gweld y **cynnydd mwyaf yn y <u>canran</u> o siaradwyr Cymraeg** rhwng 2011 a 2021:

| Gwynedd | | Môn | |
|---|---|---|---|
| **Cymdogaeth (LSOA)** | **%** | **Cymdogaeth (LSOA)** | **%** |
| Llanbedrog ac Abersoch | +5.4% | Porthyfelin 2 (Caergybi) | +4.9% |
| Llangelynin (Fairbourne) | +4.3% | Kingsland (Caergybi) | +2.9% |
| Pentir 1 (Bangor) | +4.2% | Llanfair-yn-neubwll 2 (Caergeiliog / Llanfihangel yn Nhowyn) | +2.6% |
| Y Felinheli | +4.0% | Rhosyr (Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo) | +1.9% |

| Gwynedd | | Môn | |
|---|---|---|---|
| **Cymdogaeth (LSOA)** | **%** | **Cymdogaeth (LSOA)** | **%** |
| Menai (Bangor) | +3.8% | Trearddur 2 | +1.2% |

Mae rhai o'r cymdogaethau yma wedi gweld datblygiadau tai sylweddol ers 2011 sydd yn adlewyrchu twf yn eu poblogaeth. Mae Pentir 1 (Bangor) wedi gweld twf o 715 yn ei boblogaeth a chredir fod y mwyafrif o hyn ar sail datblygu safle tai o 266 uned ar ddynodiad T1 Goetra Uchaf. Mae'r Felinheli wedi gweld cynnydd o 110 o dai ond eto dim ond cynnydd o 49 yn ei boblogaeth. Gall y cynnydd isel ym mhoblogaeth Felinheli fod oherwydd cynnydd o fewn y nifer o ail gartrefi / llety gwyliau yn yr anheddle ers 2011. Mae Kingsland (Caergybi) wedi gweld twf o 176 yn ei boblogaeth 3+ rhwng 2011 a 2021 efo stad Cae Rhos yn ychwanegu oddeutu 50 o dai i'r gymdogaeth.

Dylid nodi fodd bynnag tra geir cynnydd o 5.4% yn % siaradwyr Cymraeg yn Llanbedrog ac Abersoch mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yno wedi gostwng o 862 yn 2011 i 779 yn 2021 (-83). Y rheswm dros y cynnydd yn y canran o siaradwyr Cymraeg yw bod y nifer o siaradwyr di-gymraeg wedi gostwng o 885 yn 2011 i 645 yn 2021 (-240). Unwaith eto credir fod hyn ar sail cynnydd yn y nifer o ail gartrefi / llety gwyliau yn yr ardal. Mae'r nifer o ail gartrefi / llety gwyliau wedi cynnydd yn bellach rhwng 2019 a 2023 i roi dros 1,000 ohonynt rhwng Cynghorau Cymuned Llanengan (840 uned) a Llanbedrog (190 uned). Yn Ynys Môn mae patrwm tebyg wedi digwydd yn Nhrearddur 2 efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 391 i 364 (-27) ond fod y nifer di-gymraeg wedi gostwng o 767 i 677 (-90). Yn y cyfnod 2019 i 2023 mae'r nifer o ail gartrefi / llety gwyliau yn Gyngor Cymuned Trearddur wedi cynnydd o 387 uned i 455 (+68).

Yng Nghaergeiliog sydd yn disgyn yn rhannol o fewn Llanfair-yn-neubwll 2 mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig o 485 yn 2011 i 481 yn 2021 (-4) tra bod y nifer di-gymraeg wedi gostwng o 915 yn 2011 i 812 yn 2021 (-103). Yn y cyfnod 2019 i 2023 dim ond cynnydd o 1 uned sydd wedi bod yn y nifer o ail gartrefi / llety gwyliau o 37 i 38 uned. Mae'n annhebygol felly fod y lleihad yn y nifer o siaradwyr di-gymraeg yn y gymuned yma wedi bod ar sail cynnydd mewn ail gartrefi / llety gwyliau ers 2011. O ran tai newydd yn y cyfnod 2011 i 2021 cafodd 6 uned ei gwblhau yng Nghaergeiliog.

Yn Porthyfelin 2 (Caergybi) mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cynnydd o 449 yn 2011 i 501 yn 2021 (+52) tra bod y nifer di-gymraeg wedi gostwng o 684 yn 2011 i 625 yn 2021 (-59). O ran datblygiadau tai nid oes yna safle sylweddol wedi cael ei ddatblygu yn y gymdogaeth sydd efallai yn rheswm fod y boblogaeth 3+ wedi gostwng ychydig o 1,133 yn 2011 i 1,126 yn 2021 (-7).

Mae'r cynnydd o fewn Menai (Bangor) ar sail fod poblogaeth 2021 dros fil yn llai na yn 2011 (-1,081) efo gostyngiad o 992 yn y nifer o siaradwyr di-gymraeg. Gall hyn fod oherwydd bod nifer o fyfyrwyr adref adeg y Cyfrifiad oherwydd effaith y pan demig covid-19. Cafwyd gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o 762 yn 2011 i 681 yn 2021 (-81) yn yr ardal yma hefyd.

O ran y 5 cymdogaeth sydd wedi gweld y **cynnydd mwyaf yn y <u>nifer</u> o siaradwyr Cymraeg** rhwng 2011 a 2021 ceir y manylion yn y tabl canlynol:

| Gwynedd | | Môn | |
|---|---|---|---|
| **Cymdogaeth (LSOA)** | **Nifer** | **Cymdogaeth (LSOA)** | **Nifer** |
| Pentir 1 (Bangor) | +457 | Kingsland (Caergybi) | +122 |
| Peblig (Caernarfon) | +150 | Parc a'r Mynydd (Caergybi) | +115 |
| Y Felinheli | +135 | Llanfihangel Esceifiog (Gaerwen) | +98 |
| Dewi (Bangor) | +79 | Cyngar (Llangefni) | +97 |
| Llanwnda (Dinas / Rhostryfan / Rhosgadfan); <u>a hefyd</u> | +73 | Llanfair yn Neubwll 1 (Bodedern / Caergeiliog) | +86 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llandderfel a Llanuwchllyn 2 (Llanuwchllyn) | | | |

O fewn y mwyafrif o'r cymdogaethau yma mae yna ddatblygiadau eithaf sylweddol o stadau tai newydd e.e. Goetre Uchaf (266 uned) yn Pentir 1 (Bangor), Gwêl y Llan (132 uned) yn Peblig (Caernarfon) Ger y Nant (56 uned) yn Y Felinheli, Llys Adda (42 uned) yn Dewi (Bangor), Cae Rhos (55 uned) yn Kingsland (Caergybi) a Tyddyn Bach (123 uned) Parc a'r Mynydd (Caergybi). Yn unol efo polisïau tai fforddiadwy y Cynllun cafwyd elfen o dai fforddiadwy efo'r mwyafrif o'r datblygiadau yma. Gall hyn fod wedi cyfrannu yn rhannol tuag at y cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn y cymdogaethau yma.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r 5 cymdogaeth (LSOA) sydd wedi gweld y **gostyngiad mwyaf <u>canran</u> o siaradwyr Cymraeg** rhwng 2011 a 2021:

| Gwynedd | | Môn | |
|---|---|---|---|
| **Cymdogaeth (LSOA)** | **%** | **Cymdogaeth (LSOA)** | **%** |
| Hendre (Bangor) | -7.9% | Cefni (Llangefni) | -7.9% |
| Corris/ Mawddwy | -6.8% | Llaneilian (Penysarn / Rhosybol) | -6.3% |
| Diffwys a Maenofferen (Blaenau Ffestiniog) | -6.2% | Tudur (Llangefni) | -5.9% |
| Bala | -6.0% | Llanbadrig (Cemaes) | -5.3% |
| De Dolgellau | -5.8% | Porth Amlwch | -5.0% |

Yn Hendre (Bangor) nid oes yna unrhyw ddatblygiad preswyl o bwys wedi cael ei weithredu arno rhwng 2011 a 2021. Mae'r nifer o Dai Amlfeddiannaeth wedi cynnydd yn y gymdogaeth i fod bron iawn yn 60 erbyn 2022. Mae'r ardal wedi gweld colled o 82 yn ei boblogaeth 3+ rhwng 2011 a 2021 efo lleihad o 132 yn y nifer sydd yn siarad Cymraeg ond cynnydd o 50 yn y nifer di-gymraeg. Felly heblaw am effaith unrhyw fyfyrwyr nad oedd yn bresennol ar ddydd y cyfrifiad ystyrir fod y mwyafrif o'r newid yn y gymdogaeth yma yn seiliedig ar newid o fewn y stoc dai presennol.

Rhan fach o Gorris /Mawddwy sydd yn disgyn o fewn Ardal Cynllunio Gwynedd ar unig dwf a welwyd trwy'r cynllun Datblygu ar y Cyd oedd 3 uned breswyl yng Nghorris Uchaf.

Yn Ddiffwys a Maenofferen (Blaenau Ffestiniog) mae cyfanswm poblogaeth 3+ wedi gostwng o 86 person efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 130 person efo'r nifer di-gymraeg wedi cynnydd o 44 person. Dim ond 20 uned breswyl o'r newydd sydd wedi cael ei ddarparu yn y cyfnod 2011 i 2021. Ers 2018 mae'r nifer o ail gartrefi / llety gwyliau yn y Cyngor Cymuned wedi cynyddu o 232 i 244 (+12). Credir felly fod y mwyafrif o'r newid yn y gymdogaeth yma wedi dod o'r stoc dai presennol.

Mae cymdogaeth Bala a De Dolgellau yn y Parc Cenedlaethol ac felly heb gael ei effeithio yn uniongyrchol gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Cafwyd cynnydd o 215 ym mhoblogaeth Cefni (Llangefni) efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn cynyddu o 42 person ond y nifer o siaradwyr di-gymraeg yn cynyddu o 173 person. O ran datblygiadau yn y gymdogaeth y ddau fwyaf yw Hafan Cefni sef datblygiad Gofal Ychwanegol efo 63 llety preswyl a stad Tan Y Fron ar gyfer 18 uned, rhain yn ddatblygiadau gan Gymdeithasau Tai. Nid yw'n glir os yw'r datblygiad Gofal ychwanegol yma, wrth baratoi unedau i bobl efo cysylltiad lleol, wedi arwain pobl o du allan i Langefni adleoli yno efallai o ardaloedd sydd efo canran is o siaradwyr Cymraeg.

Yn Llaneilian (Penysarn / Rhosybol) mae'r boblogaeth 3+ wedi cynyddu o 69 person, fodd bynnag mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 104 person efo'r nifer di-gymraeg wedi cynyddu o

173 person.  Oddeutu 25 o dai newydd sydd wedi cael ei gwblhau o fewn aneddleoedd yn y gymdogaeth yma.  Mae'r nifer o ail gartrefi / llety gwyliau wedi gweld gostyngiad o 60 uned yn 2018 i 54 yn 2023 (-6 uned). Credir felly fod y mwyafrif o'r newid yn y gymdogaeth yma wedi dod o'r stoc dai presennol.

Mae Tudur (Llangefni) wedi gweld cynnydd o 34 person yn ei boblogaeth 3+ ond gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg o 62 person efo'r nifer di-gymraeg wedi cynyddu o 96 person. Nid oes unrhyw ddatblygiad preswyl o sylwedd wedi cymryd lle yn y gymdogaeth yma rhwng 2011 a 2021. Credir felly fod y mwyafrif o'r newid yn y gymdogaeth yma wedi dod o'r stoc dai presennol.

Yn Llanbadrig (Cemaes) mae'r boblogaeth 3+ wedi gweld gostyngiad o 168 person efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 149 person ar nifer di-gymraeg o 19 person.  Yn y cyfnod 2011 i 2021 cafodd 26 o dai ei adeiladu yn y gymdogaeth yma efo 14 o rain yn unedau fforddiadwy. Mae'r nifer o ail gartrefi / llety gwyliau wedi cynyddu o 132 yn 2019 i 147 yn 2023 (+15). Credir felly ers 2011 fod y nifer o ail gartrefi / llety gwyliau wedi cynyddu yn sylweddol i'r 132 oedd yno erbyn 2019 gan fod y boblogaeth wedi lleihau yn y gymdogaeth.  Credir felly fod y mwyafrif o'r newid yn y gymdogaeth yma wedi dod o'r stoc dai presennol.

Mae Porth Amlwch, sydd yn cynnwys y mwyafrif helaeth o'r Dref, wedi gweld gostyngiad o 46 yn ei boblogaeth efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi lleihau o 148 person tra bod y nifer di-gymraeg wedi cynyddu o 102 person.  Yn y cyfnod 2011 i 2021 fe welwyd 43 uned breswyl yn cael ei adeiladu y rhan helaeth o rain ar safleoedd bach sydd yn adlewyrchu'r ffaith mae dim ond 3 uned fforddiadwy oedd yn y ddarpariaeth yma. Mae'r nifer o ail gartrefi / llety gwyliau wedi cynyddu o 101 yn 2019 i 134 yn 2023 (+33). Credir felly fod y mwyafrif o'r newid yn y gymdogaeth yma wedi dod o'r stoc dai presennol.

Mae natur ceisiadau tai eleni ar safleoedd o'r newydd sydd wedi cael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun yn dangos canran sylweddol o dai fforddiadwy sef 50.4% (cynyddu i 59.3% wrth ystyried ceisiadau oedd yn cyrraedd y trothwy am dai fforddiadwy). Yn wir ar gyfer y 6 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2022 i 2023 mae 4 o'r rhain yn darparu safleoedd 100% fforddiadwy efo un arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy. Yn dilyn asesiad hyfywedd fe gytunwyd oherwydd natur y bwriad nad oedd yn hyfyw darparu unedau fforddiadwy ar 1 o'r safleoedd yma.

Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, o ystyried bod angen cyflwyno tystiolaeth gyda cheisiadau cynllunio i ddangos yr angen am y cymysgedd a'r math o dai yn ogystal â chynnwys canran uchel o dai fforddiadwy yn helpu i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

| **Dangosydd: D1** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D1 - % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn | Datblygiadau newydd yn cyfrannu | AMB 1 | | Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn a Gwynedd | at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd<br><br>(*Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiad newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau unigol ac ardal y Cynllun yn faes anodd ei fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau er mwyn monitro effeithiolrwydd polisïau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir dan y thema hon.*) | AMB 2 | – | a gwblhawyd, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 – Polisi TAI 7, erbyn 2019 |
| | | AMB 3 | – | |
| | | AMB 4 | – | |
| | | **AMB 5** | – | |

**Dadansoddiad:**

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisïau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy a all gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg.

Ceir nifer o bolisïau yn y Cynllun sydd yn helpu i hwyluso datblygiadau cynaliadwy sef:

- Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' yn atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddleoedd arfordirol a restrir;
- Polisi TAI 15 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygiadau o 2 neu fwy o unedau tai yn y Canolfannau a'r Pentrefi;
- Polisi TAI 16 'Safle Eithrio' yn cefnogi datblygiadau 100% tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' dim ond yn cefnogi bwriadau ar gyfer tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 8 'Cymysgedd Briodol o Dai' yn sicrhau fod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu tuag at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan;
- Polisi CYF 1 'Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer defnydd Cyflogaeth' yn sicrhau fod yna ddigon o diroedd ar gyfer cyfleoedd gyflogaeth yn cael ei ddarparu o fewn y Cynllun.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Fodd bynnag o ganlyniad i ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 ar wahaniaeth rhwng hwn ar ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwaith i ddarganfod pam fod yna wahaniaeth rhwng y ffigyrau yma. Oherwydd hyn a'r ffaith fod ffigyrau sgiliau ieithyddol o Gyfrifiad 2021 ar gael eleni mae'r AMB yma yn ffocysu ar ffigyrau'r Cyfrifiad yn hytrach na ffigyrau o'r Arolwg blynyddol.

Fel y gwelir o'r cyflwyniad i'r rhan yma o'r Dangosyddion mae'r canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun wedi lleihau rhwng 2011 a 2021.

Fel y gwelir o'r tablau yn amlygu'r newidiadau o fewn gwahanol gymdogaethau Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) mae yna nifer o ffactorau yn effeithio ar y newidiadau rhwng 2011 a 2021 yn y canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg ynddynt.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran ar nifer o siaradwyr efo datblygiadau eithaf mawr breswyl, eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y canran.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran er bod gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, mae hyn ar sail gostyngiad uwch yn y nifer di-gymraeg. I rai cymdogaethau gall hyn fod ar sail colled o unedau o'r stoc dai i ddefnydd fel ail gartrefi / llety gwyliau.

Yn nifer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y lleihad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod trwy'r Cynllun Datblygu ar y Cyd.

Mae elfen fawr o'r newidiadau sydd yn effeithio ar ardaloedd y Cynllun yn dod allan o newidiadau i'r stoc dai presennol.

Un mater sydd wedi dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd diwethaf yw effaith ail gartrefi / llety gwyliau ar y stoc dai. Mae hyn yn creu problem i'r gymuned leol sydd yn cael ei brisio allan o'r farchnad dai agored.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r broblem yma drwy ddiwygio'r dosbarthiadau defnydd ar gyfer tai. Yn flaenorol roedd y defnydd o dŷ preswyl er diben ail gartref neu lety gwyliau tymor byr yn cael ei ddiffinio fel defnydd C3 (tŷ preswyl) a chan hynny nid oedd angen derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y defnyddiau hyn. Bellach, drwy ddiwygiad i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y diwygiwyd) mae yna ddosbarthiadau defnydd penodol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer:-

- C3: Prif gartref
- C5: Ail gartref
- C6 Llety tymor byr

Ymhellach mae yna ddiwygiad wedi ei gynnal i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Hawliad Datblygu a Ganiateir) 1995 (fel y diwygiwyd) sydd yn caniatáu'r newid digyfyngiad rhwng y dosbarthiadau defnydd hyn, hynny yw nid oes angen derbyn caniatâd cynllunio er mwyn gallu newid rhwng y dosbarthiadau defnydd dan sylw.

Er mwyn gallu rheoli'r newid defnydd digyfyngiad hyn, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Fe fyddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn diddymu'r hawliau datblygu a ganiateir penodol ac yn seiliedig ar allu profi fod yna amgylchiadau eithriadol yn

bodoli. Golygai hynny, drwy gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 y gellir gorfodi'r angen i dderbyn caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd o fod yn prif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) i ddefnydd ail gartref (dosbarth defnydd C5) neu lety gwyliau (dosbarth Defnydd C6). ( Gweler pennod 2 uchod ar gyfer manylder am y newidiadau Cenedlaethol yma).

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol ar gyfer Ardal Cynllunio Gwynedd yn ystod 2023/24 er mwyn rheoli'r newid defnydd digyfyngiad rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd.

Mae Ynys Môn yn y broses o ystyried ymhellach yr angen i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer yr Ynys gyfan neu rhan o'r Ynys.

Er mwyn sicrhau fod ceisiadau am unedau preswyl newydd defnydd C3 yn cyfarch anghenion o fewn cymunedau lleol ac yn cael ei gwarchod ar gyfer y defnydd prif fan preswyl yn unol â'r bwriad pan gyflwynwyd ac aseswyd y cais cynllunio, mae Cyngor Gwynedd bellach yn gosod amod yn atal yr hawl datblygu a ganiateir newid defnydd ar gyfer unedau preswyl C3, er sicrhau na ellir ei defnyddio er diben defnydd C5 neu C6 heb dderbyn caniatâd cynllunio.

Nid yw Ynys Môn yn bresennol yn cyflwyno amod yn atal yr hawl datblygu a ganiateir newid defnydd ar gyfer unedau preswyl C3, er sicrhau na ellir ei defnyddio er diben defnydd C5 neu C6 heb dderbyn caniatâd cynllunio.

Yn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023 mae yna 240 o unedau tai o'r newydd (h.y. safleoedd nad oedd efo caniatâd ar ddiwrnod mabwysiadu'r Cynllun) wedi cael caniatâd cynllunio. Mae hyn drwy ganiatâd am dŷ unigol ar 36 o safleoedd efo'r gweddill ar 25 safle yn mynd o safle efo 2 uned hyd at safle o 36 o unedau. Allan o'r ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy i gael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau neu o fewn Clwstwr neu drosi adeilad allanol sef 204 o unedau tai, fe gafwyd 121 o unedau fforddiadwy ganiatâd unai trwy amod neu gytundeb cyfreithiol, sydd y golygu canran fforddiadwy o 59.3%.

Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun mae yna ddwy Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sef astudiaeth 2018 a 2019 wedi cael ei gyhoeddi ynghyd ac arolwg 2020, 2021, 2022, a 2023 sydd yn bwydo fewn i'r Dangosyddion newydd ar gyfer asesu'r twf yn erbyn Taflwybr Tai'r Cynllun. Mae'r rhain yn nodi fod 2,464 o unedau tai wedi cael ei gwblhau efo 1,757 o'r rhain yn rhai oedd efo caniatâd cynllunio cyn i'r CDLl ar y cyd gael ei fabwysiadu.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun:

| **Cyfnod** | **Nifer o Unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yng nghyfnod y Cynllun** | **Nifer o rain sy'n Dai Fforddiadwy** | **Canran o Dai Fforddiadwy** |
|---|---|---|---|
| AMB 1 | 56 | 35 | 62.5% |
| AMB 2 | 90 | 45 | 50% |
| AMB 3 | 125 | 55 | 44% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| AMB 4 | 205 | 87 | 42.4% |
| AMB 5 | 231 | 117 | 50.6% |
| CYFANSWM | 707 | 339 | 47.9% |

Mae'r canran o dai fforddiadwy yn y tabl uchod wedi cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylid ystyried y lefelau yma yn erbyn y ffaith fod asesiad hyfywedd darparu tai fforddiadwy yn adnabod lefelau o 30%, 20% neu 10% yn y gwahanol ardaloedd prisiau tai. Felly o ystyried hyn mae'r lefel o dai fforddiadwy fel canran o'r holl unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yn oes y cynllun yn uwch na hyn. Efo'r canran o dai fforddiadwy allan o'r holl unedau tai o'r newydd a gafodd ganiatâd yn cynyddu i dros 50% eto eleni yna'r gobaith yw bydd y canran o dai fforddiadwy wedi ei chwblhau yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf hefyd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae bron iawn i 60% (59.3%) o ganiatadau tai o'r newydd ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi bod ar gyfer tai fforddiadwy. Yn ogystal o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy hefyd ychydig yn is na 50% (47.9%) (ond dal yn uwch na'r trothwyon 10%, 20% a 30% ar gyfer y gwahanol ardaloedd). Golyga hyn fod caniatâdau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy yn golygu bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

Mae'r ffactorau a gyfeirir tuag atynt uchod yn amlygu sut mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod datblygiadau o'r newydd yn cyfarch anghenion y gymuned leol. Fel y gwelir o dadansoddiad o ganlyniadau'r Cyfrifiad uchod mae llawer o'r newidiadau lleol yn deillio o symudiadau o fewn y stoc dai presennol sydd y tu allan i reolaeth y Cynllun. Efo'r newidiadau Cenedlaethol i ddosbarthiadau defnydd ar gyfer tai efo hawl i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 gall y Cynghorau yn y dyfodol gael fwy o reolaeth ar y nifer o ail gartrefi / llety gwyliau yn deillio allan o'r stoc dai presennol. Ble bydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi cael ei gyflwyno yna fe fydd angen adlewyrchu hyn wrth lunio polisïau tai i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ogystal ag diweddaru'r tystiolaeth sydd yn cefnogi'r Polisi Tai Marchnad Lleol i ymestyn yr ardal ble mae'n berthnasol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

**Dangosydd: D2**

| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS1 |

<table>
<tr><th></th><th></th><th colspan="2">Deilliant:</th><th>Lefel sbardun:</th></tr>
<tr><td rowspan="5">D2 - Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg</td><td rowspan="5">Lle bo angen, osgoi neu liniaru niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn unol â Pholisi PS 1</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="5">Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol yn groes i Bolisi PS 1</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Fel yr amlygir yn yr ymateb i Ddangosydd D1 yn y flwyddyn 2022/23 mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 240 o unedau tai newydd (h.y. ar safleoedd nad oedd efo caniatâd cynllunio ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun).

Mae'r unedau yma wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a amlygir yn y tabl isod:

| Maint Ceisiadau Tai | Nifer o Safleoedd | Cyfanswm Unedau |
|---|---|---|
| 1 uned | 36 | 36 |
| 2 i 5 uned | 13 | 46 |
| 6 i 10 uned | 6 | 46 |
| 11+ uned | 6 | 112 |

O'r 6 safle sydd o faint 11+ uned mae 4 o'r rhain a'r tir llwyd o fewn y ffin datblygu, 1 ar gae o fewn ffin datblygu ac 1 yn safle eithrio. Mae 4 safle yn darparu 100% o unedau fforddiadwy efo un arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o unedau fforddiadwy. Yn dilyn asesiad hyfywedd fe gytunwyd oherwydd natur y bwriad nad oedd yn hyfyw cael unedau fforddiadwy ar un safle.

Cafwyd 2 Asesiad Ieithyddol a 25 Datganiadau ieithyddol efo ceisiadau gafodd ei phenderfynu ble yr oeddynt yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi PS 1 (gweler Dangosydd D3 ar gyfer manylion y math o geisiadau gafodd y rhain ei chyflwyno efo). Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt.

Cafodd 8 cais ei gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol canlynol:

- 1 cais preswyl am 7 uned gan nad oedd gan nad oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi na fyddai'r datblygiad yn achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd yr iaith Gymraeg yn y gymuned;
- 5 cais gan na gyflwynwyd Datganiad ieithyddol i gefnogi'r cais (3 cais preswyl am gyfanswm o 8 uned a 2 gais llety gwyliau am gyfanswm o 8 pod glampio);
- 2 cais gan nad oedd gwybodaeth ddigonol wedi cael ei gyflwyno (1 cais llety gwyliau am 2 uned gwyliau a 1 cais i dros fodurdy yn dŷ).

Cafodd 13 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol sef:

- 4 cais efo amod enw Cymraeg ar y bwriad (3 cais preswyl am gyfanswm o 3 uned a 1 cais am Ysgol newydd);
- 4 cais efo amod bod rhaid i unrhyw arwyddion sy'n hysbysebu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg (1 cais safle carafanau am 32 llain, 1 cais codi 5 uned ddiwydiannol, 1 cais manwerthu newid 2 uned A1 i A3 ac 1 cais am ysgol gynradd newydd;
- 1 cais codi 12 uned breswyl efo amod enw Cymraeg i'r stad a bod rhaid i unrhyw arwyddion sy'n hysbysebu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg;
- 2 cais preswyl efo amod cyn cyflwyno arwyddion neu hysbyseb rhaid cytuno manylion enwau Cymraeg (1 cais am 12 tŷ ac un arall am 21 fflat);
- 1 cais am 3 uned fforddiadwy efo amod fod rhaid darparu enw Cymraeg ar gyfer yr anheddau/stad a ganiateir efo'r enw yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal lle'n bosib.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D3** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D3 Nifer o geisiadau cynllunio gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol i fod â Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned fel y nodir yn y Canllawiau Dylunio Atodol. | AMB 1 | – | Un Datganiad iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn unigol nad yw'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | AMB 3 | ✓ | | |
| | | AMB 4 | ✓ | | |
| | | <u>**AMB 5**</u> | ✓ | | |

| **Dadansoddiad:** | |
|---|---|
| Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd cyfanswm o 25 Datganiad Iaith Gymraeg ac 2 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na'r trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Derbyniwyd 18 Datganiad Ieithyddol gyda cheisiadau preswyl, a 4 datganiad gyda cheisiadau diwydiannol, 2 gyda cheisiadau manwerthu ac un efo cais darparu Uned gofal Plant. Derbyniwyd 1 Asesiad ieithyddol gyda chais newid defnydd swyddfeydd i sefydliad dibreswyl ac 1 asesiad efo cais preswyl.<br><br>Yn yr achosion ble cyflwynwyd Datganiadau/Asesiadau Iaith Gymraeg nad oedd yn dilyn prif strwythur y templed ymateb sydd wedi ei gynnwys yn y CCA "Creu a Chynnal Cymunedau Nodedig" a fabwysiadwyd yng Ngorffennaf 2019 gofynnwyd am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CCA mabwysiedig.<br><br>Gwelwyd gwelliant yn ansawdd y datganiadau a gyflwynwyd, oedd yn dilyn y fethodoleg newydd yn y CCA mabwysiedig, ond fe fydd yn bwysig i barhau i fonitro sut mae ymgeiswyr yn ymateb i sylwadau ar y datganiadau hynny fel rhan o'r broses o gasglu sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.<br><br>Ystyrir, felly, fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. | |
| **Gweithred:** | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D4** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro. |

**Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr**

| **Dangosydd: D5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D5 - Nifer o geisiadau cynllunio a | Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA1. | AMB 2 | – | mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth isadeiledd yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Pan nad yw hyn yw'r achos, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wneud yn siŵr fod capasiti isadeiledd digonol yn bodoli.

Cyflwynwyd 10 cais cynllunio lle roedd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 3 Cynyddu capasiti'r ysgol
- 1 ar gyfer lliniaru bywyd gwyllt
- 6 ar gyfer darparu mannau agored a/neu gyfraniadau ariannol.

Ni chafodd unrhyw gais ei gymeradwyo oedd yn gyferbyniol i Bolisi ISA1 dros y cyfnod monitro. Mae'r targed i rwystro datblygiadau gael eu caniatáu ble nad oes seilwaith digonol mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D6** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D6 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol | Cadw cyfleusterau cymunedol hyfyw yn unol â Pholisi ISA 2 | AMB 1 | ✓ | Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

| |
|---|
| **Dadansoddiad:** |
| Mae Polisi ISA2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Cyflwynwyd cyfanswm o 4 cais cynllunio ble byddai cyn cyfleuster cymunedol yn cael ei golli fel rhan o'r datblygiad (1 cyn capel, 1 cyn dafarn, 1 cyn deintydd ac 1 cyn ysgol). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r ceisiadau hyn yn mynd yn groes i Bolisi ISA 2 gan fod tystiolaeth nad oedd y cyfleusterau dan sylw yn hyfyw ac/neu wedi bod yn ddiddefnydd dros gyfnod o amser a/neu wedi symud i adeilad arall.<br><br>Mae'r targed i rwystro colled cyfleuster cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch. |

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

**Llecynnau Agored**

Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio diogelu'r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid datblygiadau tai newydd.

Ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu mae'r polisïau wedi gwarchod llecynnau agored mewn cymunedau a hefyd wedi sicrhau bod llecynnau agored newydd yn cael ei greu, cynnal a gwella.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd: D7** | | | |
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | ISA 4 |

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Trothwy:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D7 - Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen mewn llecynnau agored</td><td rowspan="5">Cyfanswm y llecynnau agored (ha) mewn aneddleoedd unigol a gedwir yn unol â Pholisi ISA 4.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="5">Llecynnau agored a gollir mewn unrhyw Ganolfan neu Bentref mewn unrhyw flwyddyn sy'n arwain ar ostyngiad net yn y cyflenwad yn y Ganolfan honno neu'r Pentref hwnnw yn groes i Bolisi ISA 4.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">10 cais wedi'u cymeradwyo ar lecynnau agored a nodir yn y cynllun (ar y map cynigion) fel llecynnau agored wedi'u hamddiffyn. Mae'r holl geisiadau'n cydymffurfio â meini prawf y polisi:<br>• 3 chais ar rannau o gaeau chwarae ysgol sydd ddim yn tanseilio defnydd y tir fel caeau chwarae. Roedd y ceisiadau ar gyfer codi canopi lloches, ffens a giatiau newydd o amgylch yr ysgol a chreu llain 3G.<br>• 1 cais i newid bwrdd dehongli presennol i fwrdd dehongli digidol newydd.<br>• 2 gais am gynigion seilwaith: cais i wella amddiffynfeydd llifogydd presennol a chais i atgyweirio system draenio tir sydd wedi'i difrodi.<br>• 1 cais am dŷ clwb newydd a chyfleusterau cysylltiedig ar ran o lecyn agored gwarchodedig nad yw’n tanseilio defnydd o’r man agored.<br>• 1 cais am ddatblygiad preswyl ar gyn safle ysgol lle nad yw'r man agored bellach ar gael i'r gymuned. Mae darpariaeth mannau agored newydd wedi'i chreu ar safle'r ysgol newydd yn lle'r ddarpariaeth a gollwyd.<br>• 1 cais am amrywio amod ar gais cynllunio hanesyddol.<br><br>Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau’n parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithredu:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D8</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO2</td><td colspan="3">Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>ISA 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Trothwy:</td></tr>
<tr><td rowspan="2">D8 - Llecynnau agored (ha) a gafwyd mewn perthynas â</td><td rowspan="2">Darparu llecyn agored newydd os yw safonau meincnod Fields in</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="2">Un cais cynllunio wedi'i gymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n cyfrannu at ddiwallu</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| datblygiad preswyl o 10 neu fwy o unedau | Trust (FiT) yn nodi fod yna ddiffyg llecyn agored yn unol â Pholisi ISA 5. | AMB 3 | ✓ | anghenion preswylwyr tai newydd am lecyn agored yn unol â diffiniad safon meincnod FiT yn groes i Bolisi ISA 5. |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae 8 cais am 10 neu fwy o dai wedi cael eu cymeradwyo yn y cyfnod AMB hwn.<br>• Nid oes angen darpariaeth/cyfraniad ariannol llecyn agored ar gyfer 2 o'r ceisiadau hyn oherwydd bod digon o lecynnau agored yn y cymunedau hynny.<br>• Roedd cyfanswm y ddarpariaeth o lecynnau agored wedi ei greu yn 4,164m$^2$.<br>• Cyfanswm y cyfraniad ariannol yn £10,848.15<br><br>Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | |
| **Gweithredu:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | | | | |

| **Dangosydd: D9** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro |

| **Dangosydd: D10** |
|---|
| Targed wedi ei gwrdd. Dim angen i barhau i'w fonitro. |

**Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**

| **Dangosydd: D11** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl. |
| | SO4 | Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol: |

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="4">Prif ganlyniadau:<br><ul><li>Bydd strategaeth a pholisïau’r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;</li><li>Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i’r gymuned;</li><li>Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu’n rhannol i’w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;</li><li>Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy’n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>TRA 1, TRA 2, TRA 3,<br><br>TRA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D11 – Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio</td><td rowspan="5">Paratoi a mabwysiadu’r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis o fabwysiadu’r Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="5">Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu’r Cynllun</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.<br><br>Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.<br><br>Mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallent hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Gan fod y polisi CDLl newydd ar Safonau Parcio yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad. |
| **Gweithred:** |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

| **Dangosydd: D12** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3<br><br><br><br><br>SO4 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:**<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | TRA 1, TRA 2, TRA 3,<br><br>TRA 4 |

| | | Deilliant: | | Lefel sbardun: |
|---|---|---|---|---|
| D12 – Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol sydd uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodwyd ym Mholisi TRA 1 i gynnwys Asesiad Teithio | AMB 1 | ✓ | Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn unigol heb Asesiad Teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1 |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Cafwyd cyfanswm o 6 cais wedi'i chefnogi gan Asesiad Trafnidiaeth sef 2 gais am ysgolion newydd, masnachwr adeiladwyr a gwelliannau i ystâd ddiwydiannol bresennol yng Ngwynedd, a chais am feithrinfa newydd a datblygiad tai am 29 uned ar Ynys Môn wedi ei chyflwyno gydag Asesiad Trafnidiaeth. Dim cais wedi eu derbyn heb Asesiad Trafnidiaeth pan ofynnwyd am un.

Mae'r polisi'n glir, ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a osodir yn 'Nhabl 6: Graddfa'r datblygiad sy'n gofyn am asesiad trafnidiaeth'. Mae swyddogion yn gofyn am asesiad wrth wneud ymholiad cyn gwneud cais neu ar y cam gwneud cais cynllunio.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D13** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl. |
| | SO4 | Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol: |

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="4">
Prif ganlyniadau:
<ul>
<li>Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;</li>
<li>Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;</li>
<li>Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;</li>
<li>Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>TRA 1, TRA 2, TRA 3,<br>TRA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D13 – Y nifer o geisiadau a ganiateir o fewn safleoedd/ ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth</td><td rowspan="5">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth a nodir ym Mholisi TRA 1</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="5">Caniatáu un cais yn groes i Bolisi TRA 1</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Yr A487 rhwng Caernarfon a Bontnewydd a ffordd-cysylltiol Llangefni wedi ei gwblhau ac wedi agor i'r cyhoedd.<br><br>Ni gymeradwywyd unrhyw gais oedd yn berthnasol i welliannau'r ffordd bresennol ar yr A5025 rhwng Y Fali a Wylfa.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Dim cais cynllunio wedi eu caniatáu oedd yn effeithio ar yr ardaloedd sydd wedi eu diogelu o fewn Polisi TRA 1. | |
| **Gweithred:** | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D14** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro |

| **Dangosydd: D15** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro |

## 6.2 Byw'n Gynaliadwy

**Datblygiadau Cynaliadwy a Newid Hinsawdd**

| **Dangosydd: D16** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro. |

<table>
<tr><td colspan="5">Indicator: D17</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5<br><br><br><br>S06</td><td colspan="3">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D17 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1</td><td rowspan="5">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 heb gwrdd â'r holl brofion a amlinellir yn NCT15</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="5">Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad yw'n cwrdd â holl brofion NCT15.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Caniatawyd 33 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1; roedd 16 o'r rhain yn geisiadau gan ddeiliaid tai. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15.<br><br>Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. |
| **Gweithred:** |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

| **Indicator: D18** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5<br><br>S06 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2. | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 | AMB 1 | X | Caniatáu un ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | AMB 3 | ✓ | | |
| | | AMB 4 | ✓ | | |

| | | AMB 5 | ✓ | |
|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Caniatawyd 79 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C2; roedd 32 o'r rhain yn geisiadau gan ddeiliaid tai. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'llai agored i niwed' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Llifogydd). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn y parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15.<br><br>Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | | | | |

| **Dangosydd: D19** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5<br><br>SO6 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D19 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn | Cynnal neu gynyddu'r gyfran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) o'i gymharu â'r % cyfartalog a gofnodwyd yn ystod 2015/ 2016 – 2016/ 2017. | AMB 1 | – | Gostyngiad yn y gyfran o ddatblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol. |
| | | AMB 2 | – | |
| | | AMB 3 | – | |
| | | AMB 4 | – | |
| | | **AMB 5** | – | |

**Dadansoddiad:**

Oherwydd natur wledig yr ardal, mae cyfleoedd i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi ei gyfyngu i nifer o safleoedd llai. Tra bo datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y safleoedd hyn yn y lle cyntaf, mae'r pwysau i adeiladu ar dir gwyrdd yn anochel, yn enwedig oherwydd natur cynigion e.e. cynlluniau ynni adnewyddol, tai lleol, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygiadau twristiaeth. Mae'r gyfran o ddatblygiadau ar dir llwyd yn Ynys Môn Gwynedd fel a ganlyn:

% o ddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd o'r blaen:

- Ynys Môn 2015-2016 = 20.72ha (61%);
  Ynys Môn 2016-2017 = 28.00ha (50%);
  Ynys Môn 2017-2018 = 13.81ha (49%);
  Ynys Môn 2018-2019 = 4.33ha (21%);
  Ynys Môn 2019-2020 = 52.9ha (82.8%) (Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys diwygiadau i drac rasio sydd eisoes yn bodoli ble fo maint y safle'n 41.4ha);
  Ynys Mon 2020-2021 = 15.20ha (72.8%)
  Ynys Môn 2021-2022 = 15.97ha (49.3%)
  Ynys Môn 2022-2023 = 41.25ha (79.6%)

- Gwynedd 2015-2016 = 14.54ha (44%);
  Gwynedd 2016-2017 = nid oes data ar gael oherwydd roedd cofnodi'r data hwn yn cael ei adolygu ar y pryd.
  Gwynedd 2017-2018 = 12.82ha (64%);
  Gwynedd 2018-2019 = nid yw'r data ar gael oherwydd adnoddau staff/materion technegol.
  Gwynedd 2019-2020 = nid yw'r data ar gael oherwydd materion technegol
  Gwynedd 2019-2020 = nid yw'r data ar gael oherwydd materion technegol
  Gwynedd 2021-2022 - = nid yw'r data ar gael oherwydd materion technegol

| |
|---|
| Gwynedd 2022-2023 = nid yw'r data ar gael oherwydd materion technegol<br><br>Mae nifer a chyfran y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol wedi cynyddu yn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uwch na rhwng 2017-2019. Oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, nid oes modd dod i gasgliad llawn os yw'r targed wedi ei gyrraedd. |
| **Gweithred:** |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

| **Dangosydd: D20** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5<br><br><br><br><br><br><br>S06 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D20 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir tu allan i ffiniau datblygu. | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Mae yna gyfanswm o 497 o geisiadau cynllunio sydd wedi cael caniatâd tu allan i'r ffiniau datblygu yn ystod y 4ydd cyfnod AMB sy'n cynrychioli 45% o bob cais ar gyfer datblygiad. Mae'r cyfra hwn yn is na'r 59% a gafodd eu cymeradwyo yn ystod yr AMB blaenorol.

Mae dadansoddiad o'r mathau o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffinia datblygu fel a ganlyn:

- Amaethyddiaeth a Choedwigaeth - 11%
- Cyflogaeth – 4%
- Cymunedol – 1%
- Deilydd Tŷ - 55%
- Hamdden – 2%
- Isadeiledd a Thrafnidiaeth – 6%
- Manwerthu – 1%
- Tai – 8%
- Twristiaeth – 10%
- Mwynau a Gwastraff – 0%
- Energy – 2%

Fel y gwelir, roedd y mwyafrif o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffiniau datblygu yn rai deilydd tŷ neu'n geisiadau ar gyfer gwiriad amodau ar gyfer ceisiadau cynllunio eisoes wedi eu cymeradwyo. O ran datblygiadau tai, 'roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau mewn clystyrau, tai menter wledig a thai a ail-adeiladwyd a oedd yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun. Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio ar gyfer tai marchnad agored y tu allan i ffin ddatblygu. Nodir hefyd fod nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau gwledig er enghraifft twristiaeth, cyflogaeth, priffyrdd a datblygiadau amaethyddol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais oedd yn gyferbyniol i Bolisi PCYFF 1.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

**Technoleg Adnewyddadwy**

| **Dangosydd: D21** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed** | **Polisi perthnasol:** | | PS 1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul Technoleg, ardal (Ardal awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) | 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,113.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (2,226.7 GWh) | AMB 1<br>AMB 2<br>AMB 3<br>AMB 4 | –<br>–<br>X<br>X | Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ac allbwn ynni a gofnodir (GWh) | wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am drydan<br><br>50% o’r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br><br>100% o’r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (47.3 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres | <br><br>**<u>AMB 5</u>** | <br><br>X | |

**Dadansoddiad:**

Mae’r polisïau a gynhwysir yn y CDLl yn cefnogi ceisiadau ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy priodol.

Yn y cyfnod monitro hwn ni chafodd unrhyw gais masnachol ynni adnewyddol o’r newydd ganiatâd cynllunio.

Mae tablau 7 ac 8 o fewn y CDLl ar y Cyd yn nodi capasiti gosodedig o 159.6 (MWe) a 12.4 (MWt) o fewn ardal y cynllun yn 2016. Y fersiwn diweddaraf 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' (ffigyrau 2021) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyfanswm capasiti gwres a thrydan sydd wedi'i osod ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd oedd 230MW a roddodd gynhyrchiad amcangyfrifedig o 421GWh. Mae hyn yn gynnydd o 58MW o’r hyn a nodwyd yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLl ar y Cyd.

Mae’r lefelau isel o geisiadau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn adlewyrchu dirywiad yn nifer y ceisiadau a gyflwynwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwrthod ceisiadau. Dylid nodi hefyd fod holl datblygiadau ynni mawr sydd ar gyfer 10MW neu fwy yn cael ei ystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy’n penderfynu arnynt.

Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2023 dim ond 70.6 GWh yn ychwanegol i’r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLl ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw’r targed o 50% o’r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a trydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni.

Nid oes unrhyw fwriad wedi dod ymlaen ar y safleoedd cyfle posib am ynni solar, fodd bynnag mae yna nifer o ymholiadau wedi cael ei cyflwyno i’r Arolygaeth Cynllunio fel bwriad all fod yn

Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol sef Fferm Solar Alaw Môn (Enso Energy) (160MW) (ymholiad cyn gais) a Fferm Solar Pentir (Lightsource BP) (50MW) (ymholiad cyn gais).

Yn ogystal mae Fferm Solar Môn (Lightsource BP) (350MW) yn y cyfnod cyn cyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio.

Os buasai'r ceisiadau solar yma y cael caniatâd yn ei ffurf presennol yna buasai rhain yn paratoi 490.6GWh.

Mae cais presennol ar gyfer Fferm Wynt Llyn Alaw (20.4MW) (Ventient Energy Ltd) ar gyfer ymestyn cyfnod gweithredol hyd at 22 Hydref 2032 yn y broses o gael ei ystyried.

Mae'r datblygiadau canlynol wedi derbyn caniatâd:

- Parc Solar Traffwll (35MW) (Low Carbon) – wedi derbyn caniatâd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y 17 Mawrth 2023. Maent nawr yn y cyfnod o gyflwyno ceisiadau rhyddhau amodau er mwyn gallu cychwyn ar y cyfnod adeiladu'r fferm solar.
- Fferm Gwynt Tryslgwyn (5.6MW) (Ventient Energy Ltd) wedi derbyn caniatâd i ymestyn cyfnod gweithredol hyd at 29 Mehefin 2031.
- Uned biomas 299MW yn Caergybi, mae tystysgrif o ddefnydd cyfreithiol wedi cael ei roi yn cadarnhau fod y datblygiad wedi cael ei ddechrau.
- Fferm Solar Porth Wen (49.99MW) (EDF) yn y cyfnod adeiladu ac yn mynd i ddod yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn.
- Morlais (240MW) (Menter Môn) araeau lluosog o ddyfeisiau ynni llanw yn parhau yn y cyfnod adeiladu.
- Glyn Rhonwy Hydro wedi ei bwmpio (100MW) dim manylion wedi ei derbyn ar gyfer dyddiad gweithredu'r caniatâd.

Mae gan y cynlluniau a ganiateir, fel yr amlygwyd uchod, botensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,281.4GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun ond mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser e.e. cynlluniau Biomas Caergybi a Hydro Glyn Rhonwy gyda chynllun llanw Morlais, oherwydd y dechnoleg a ddefnyddir, sy'n debygol o gymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisïau Ynni Adnewyddadwy y Cynllun.

Mae'r 2 Wasanaeth Cynllunio yn cyfrannu tuag at y gwaith o ddarparu Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP) ar gyfer y ddau Awdurdod Lleol. Mi fydd hyn yn unol efo paragraff 5.9.5 o Polisi Cynllunio Cymru yn helpu i nodi targedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y cynlluniau datblygu lleol newydd.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y polisïau Ynni Adnewyddol angen cael ei adolygu a'r cyfleon ar gyfer y fath dechnoleg a adnabyddir yn y LAEP fel rhan o baratoi'r Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D22** |
|---|
| |

<table>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO5</td><td colspan="4">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.</td></tr>
<tr><td>SO6</td><td colspan="4">Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<ul><li>sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;</li><li>lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;</li><li>hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;</li><li>defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;</li><li>rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D22 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol.</td><td rowspan="5" colspan="2">Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="5">Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r CCA yma oherwydd yr angen i roi blaenoriaeth i CCA eraill wnaeth gymryd yn hirach i'w paratoi a'u hadrodd trwy Bwyllgorau'r ddau Gyngor.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annibynnol o fewn ardal y Cynllun sydd o bosib yn adlewyrchu'r symudiad i baratoi datblygiadau yn y môr a lleihad yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer fath ddatblygiadau ar y tir. Dylid nodi hefyd fod holl datblygiadau ynni mawr sydd ar gyfer 10MW neu fwy yn cael ei ystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt.<br><br>Mae cyhoeddiad o Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ynghyd a thargedau diwygiedig yn Polisi Cynllunio Cymru yn golygu newidiadau cyd-destunol sylweddol ar gyfer technoleg ynni adnewyddol. Bydd adolygiad o bolisïau ynni adnewyddol sydd yn y Cynllun yng ngoleuni'r newidiadau cyd-destunol yma ynghyd a'r gwaith o ddarparu Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP) yn galluogi gwerthusiad or angen a chynnwys CCA yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol. |
| **Gweithred:** |
| Yn dilyn paratoi a mabwysiadu Cynlluniau newydd bydd angen ystyried yr angen am CCA Ynni Adnewyddadwy ar wahân. |

| **Dangosydd: D23** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 & SO6 | SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 |
|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D23 - Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir yn ardal y Cynllun | Isafswm dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai'r hectar a gyflawnir yn ardal y Cynllun | AMB 1 | – | Methiant i gyflawni isafswm dwysedd cyffredinol net cyfartalog o 30 o unedau tai'r hectar yn ardal y Cynllun ar gyfer dwy flynedd yn olynol, oni bai ei fod yn cael ei gyfiawnhau gan Bolisi PCYFF 2. |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | – | |
| | | **AMB 4** | – | |
| | | **AMB 5** | – | |

**Dadansoddiad:**

**Caniatadau o'r newydd yn unig – Holl ganiatadau**[3]

Ardal y Cynllun = 315 uned/11.04 ha = 28.5 uned yr hectar

**Caniatadau o'r newydd yn unig: 5 neu ragor o unedau o'r newydd**

Ardal y Cynllun = 236 uned/6.54 ha = 36.1 uned yr hectar

Ar sail yr holl ddatblygiadau cymwys sydd wedi eu caniatáu, noder fod y dwysedd cyfartalog ychydig yn is na'r targed o 30 uned yr hectar. Tra bod y lefel sbardun yn cyfeirio at fethiant i gyflawni dwysedd cyffredinol o 30 uned yr hectar ar gyfer dwy flynedd yn olynol (ac o gofio bod y ffigwr ar gyfer AMB 4, fel AMB 3, hefyd o dan y lefel targed), fe noder fod y ffigwr ar gyfer cyfnod AMB 5 yn weddol agos i'r lefel targed. Nid yw'r ffigwr dwysedd a'i nodir yn afresymol o'i gymharu â'r ffigwr targed a'i nodir. Nid yw hyn yn golygu pryder yn hyn o beth. Gellir edrych yn bellach ar yr agwedd hon adeg paratoi'r Cynlluniau newydd.

Wrth ystyried y caniatadau ar gyfer safleoedd preswyl mawr yn unig, sef rhai ar gyfer 5 neu ragor o unedau, gweler fod y dwysedd cyfartalog yn sylweddol dros y ffigwr o 30 uned yr hectar. Noder felly fod y dwysedd disgwyliedig yn cael ei sicrhau ar ddatblygiadau newydd sylweddol eu maint.

Mae dwysedd cyfartalog yr holl unedau sengl perthnasol sydd wedi eu caniatáu yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod yr AMB hwn (sef 41 uned ar 3.21 hectar) yn 12.8 uned yr hectar. Mae'r gallu i fynnu dwysedd uwch ar blotiau unigol yn fwy heriol ar sail agweddau megis dwysedd

[3] Mae'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a chaniatadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau. Noder yn ogystal nad yw'r wybodaeth hyn yn cynnwys caniatadau ôl-weithredol nac ychwaith ganiatadau sydd yn diwygio amodau caniatâd presennol (ac sydd o'r herwydd yn ymestyn caniatâd am 5 mlynedd pellach) ble nad yw'r caniatâd wedi ail-ystyried yn benodol gynnwys y CDLl ar y Cyd.

datblygiadau cyfagos a chymeriad anheddle yn ogystal â siâp y safle mewn rhai achosion. Os yn ystyried dwysedd cyfartalog yr holl safleoedd sydd wedi eu caniatáu yng nghyfnod AMB 5 gan eithrio'r plotiau unigol, ceir ffigwr o 35.0 uned yr hectar (274 uned ar 7.83 hectar). Mae hyn yn cadarnhau'r ffaith mai plotiau unigol yw'r rheswm dros beidio cwrdd â'r lefel targed o ran y dangosydd hwn.

Noder fod Polisi PCYFF 2 yn cyfeirio at ddwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar oni bai fod amgylchiadau lleol yn neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is. Mae'n amlwg felly bod amgylchiadau penodol yn bodoli, yn enwedig ar blotiau unigol, sydd yn golygu datblygu ar ddwysedd sydd yn is na'r ffigwr hwn.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D24** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO7 | Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PCYFF 2, PCYFF3 & PCYFF4 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D24 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis o fabwysiadu | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu | |
| | | AMB 2 | – | | |
| | | AMB 3 | – | | |
| | | AMB 4 | – | | |
| | | **AMB 5** | – | | |

| **Dadansoddiad:** | |
|---|---|
| Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.<br><br>Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallent hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd. | |
| **Gweithred:** | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D25** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO8 | SO8: Sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau yn unol â'u rôl yn y goeden aneddleoedd: | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4 & PS17 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D25 - Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn y Goeden Aneddleoedd a amlinellir ym Mholisi PS 17, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn | O ddyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir fesul categori anheddle, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn:<br><br>Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau | AMB 1 | ✓ | O ddyddiad mabwysiadu mae nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, mewn:<br><br>• Canolfan Isranbarthol a Chanolfan Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn disgyn dan y gofyniad %; | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | AMB 3 | – | | |
| | | AMB 4 | – | | |
| | | **AMB 5** | – | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth Trefol = 53%<br>Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22%<br>Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad = 25% | | | • Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na'r gofyniad % |

**Dadansoddiad:**

**Gwybodaeth ar gyfer 2022/23[4]**

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 136 | 43.2% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 94 | 29.8% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 85 | 27.0% | 25% |
| **Cyfanswm** | **315** | - | - |

*Noder fod safleoedd eithrio yn cael eu hystyried ar sail yr anheddle mae'n ffinio â hi, yn hytrach nag fel lleoliad yng nghefn gwlad.

Nodai'r lefel sbardun mewn perthynas â'r dangosydd y dylid edrych ar nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol. Wrth gyfuno gwybodaeth ar gyfer AMB 4 a AMB 5 ar y cyd (1af Ebrill 2021-31ain Mawrth 2023), fe nodir y wybodaeth ganlynol:

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 370 | 48.0% | 53% |

[4] Mae'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a chaniatadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau. Noder yn ogystal nad yw'r wybodaeth hyn yn cynnwys caniatadau ôl-weithredol nac ychwaith ganiatadau sydd yn diwygio amodau caniatâd presennol (ac sydd o'r herwydd yn ymestyn caniatâd 5 mlynedd pellach) ble nad yw'r caniatâd wedi ail-ystyried yn benodol gynnwys y CDLl ar y Cyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 219 | 28.4% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 182 | 23.6% | 25% |
| **Cyfanswm** | **771** | - | - |

Cyfnod AMB 5 yn unig - Tra gellir dadlau nad yw'r dosbarthiad yn afresymol o'i gymharu â'r lefelau targed, noder nad ydynt yn cyd-fynd mor effeithiol â'r hyn a welwyd yng nghyfnod AMB 4. Noder fod y canran o unedau sydd wedi eu caniatáu yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol yn dipyn is na'r lefel targed gyda'r ffigwr ar gyfer y Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn uwch na'r hyn a'i nodir yn y wybodaeth targed. Noder fodd bynnag fod y canran o unedau preswyl sydd wedi eu caniatáu yn yr haen Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn agos iawn i'r ffigwr targed.

Dwy flynedd yn olynol (cyfnod AMB 4 ac AMB 5 ar y cyd) - Wrth ystyried y lefel sbardun a'r sefyllfa ddwy flynedd ar y cyd, mae'r wybodaeth yn fwy ffafriol o'i gymharu â'r lefel targed nag ar gyfer cyfnod AMB 5 yn unigol. Mae'n bwysig peidio ystyried gwybodaeth ar gyfer un flwyddyn yn unigol a bod angen ystyried cyfnodau mwy eang er mwyn cael darlun llawn o'r sefyllfa o ran y dangosydd hwn.

Ni chredir fod pryder wrth ystyried geiriad y lefel sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Ar gyfer y cyfnod dwy flynedd ar y cyd, mae'r ffigwr canran o ran Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn uwch na'r ffigwr targed, gyda'r ffigwr o ran Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad oddi tano (ill dau yn dderbyniol o'u cymharu â'r ffigyrau targed). Tra bod y ganran o unedau sydd wedi eu caniatáu o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol yn is na'r targed dosbarthiad, ni chredir fod y gwahaniaeth hyn yn achosi pryder nac yn ddigon arwyddocaol i olygu gweithredu arno yn bresennol.

Fel sydd wedi ei nodi mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, ffactor posib dros y ganran o ganiatadau preswyl yn y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol yn disgyn o dan y lefel targed yw'r oedi sy'n amlwg o ran safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y lleoliadau hyn yn derbyn caniatâd cynllunio. O'r 30 safle sydd wedi eu dynodi o fewn aneddleoedd yn yr haen hon, yn Ebrill 2023 nid oedd caniatâd cynllunio byw yn bodoli ar gyfer 15 o'r safleoedd hyn.

Gweler atodiad 2 am fapiau sy'n dangos y dosbarthiad caniatadau cynllunio am unedau preswyl yn 2022/23 ynghyd a nifer y caniatadau cronnol ers mabwysiadu'r Cynllun.

Mae'r tabl isod yn cyfleu y wybodaeth o ran y nifer o unedau tai sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun h.y. AMB 1-AMB 5. Noder ar y cyfan fod y wybodaeth hyn yn cyd-fynd yn effeithiol gyda'r dosbarthiad targed. Mae hyn yn atgyfnerthu'r farn nad oes angen gweithredu mewn perthynas â'r dangosydd hwn ar hyn o bryd.

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 994 | 47.4% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 521 | 24.9% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 581 | 27.7% | 25% |
| **Cyfanswm** | **2,096** | - | - |

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

## 6.3 Economi ac Adfywio

**Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol**

**Wylfa Newydd**

Cyflwynwyd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).

Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.

Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 penderfynwyd yr Ysgrifennydd Gwladol ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.

Ar yr 22ain o Fedi, 28ain o Fedi a 18fed o Ragfyr 2020 fe anfonwyd Horizon ohebiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohiriad i benderfyniad Cais Gorchymyn Datblygu (DCO) Wylfa Newydd. Nodwyd mai y rheswm am ofyn i ohirio'r penderfyniad oedd yn sgil trafodaethau oedd yn mynd rhagddi hefo thrydydd partïon oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y Cais Gorchymyn Datblygu yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. O'r herwydd fe olygai fod Hitachi wedi penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. O ganlyniad i hyn, ystyriwyd yn briodol fod y Cais Gorchymyn Datblygu yn cael ei dynnu'n nôl.

| **Dangosydd: D26** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |

<table>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS8, PS9, PS10, PS11, PS12</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D26 - Cam yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd</td><td rowspan="5">Cais am GCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Cymeradwyo'r cais am GCD i Wylfa Newydd erbyn Rhagfyr 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="5">Horizon Nuclear Power yn methu a chyflwyno cais am GCD erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth i'r cais GCD erbyn Rhagfyr 2018.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>X</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>X</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>X</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Cyflwynwyd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig ar 23 Hydref, 2019 - fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth i'r Awdurdodau fynd ati i baratoi y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd unigol.</td></tr>
</table>

| **Dangosydd: D27** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, |

| | | |
|---|---|---|
| | | neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D27 – Statws y cais i DECC am gymeradwyaeth derfynol. | Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019 | AMB 1 | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth / "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019. |
| | | AMB 2 | – | |
| | | AMB 3 | X | |
| | | AMB 4 | X | |
| | | **AMB 5** | X | |

| **Dadansoddiad:** |
|---|
| Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol wedi cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'r penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig erbyn 23ain o Hydref, 2019. Fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth i'r Awdurdodau fynd ati i baratoi y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd unigol. | |

| **Dangosydd: D28** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D28 – Nifer o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd | Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn erbyn Rhagfyr 2017. | AMB 1 | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol erbyn Rhagfyr 2017. |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Ar y 7fed o Ragfyr 2017 fe gyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cynnal gwelliannau i'r A5025 rhwng Y Fali a safle Wylfa Newydd (27C106E/FR/ECON). Cymeradwywyd y cais hynny gydag amodau ar 13 Gorffennaf, 2018. Pwrpas y gwelliannau i'r ffordd yw er mwyn hwyluso llif traffig i safle Wylfa Newydd. Bydd traffig i'r safle yn cael ei gyfeirio ar hyd yr A55 gan droi ffwrdd oddi ar yr A55 yng nghyffordd Y Fali ac yna cysylltu hefo'r A5025.

Mae Adran 43 o Ddeddf Cymru 2017 yn caniatáu i ddatblygiadau perthynol gael ei gynnwys o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, penderfynwyd Horizon Nuclear Power i gynnwys yr holl ddatblygiadau perthynol o fewn y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn hwyluso'r broses caniatáu i'r cyhoedd ac eraill.

Cyflwynwyd y datblygiadau perthynol canlynol fel rhan o'r GCD:-

- Campws y safle o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Safle parcio a theithio dros dro Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi.
- Garej Offer Argyfwng Symudol (y Mobile Emergency Equipment Garage (MEEG))
- Canolfan Rheolaeth Argyfwng Amgen (Alternative Emergency Control Centre (AECC))

- Creu cynefin gwlypdir a gwella gwaith fel iawndal ar gyfer unrhyw effaith posib ar Safle o Ddiddordeb Arbennig Tre'r Gof (SoDdGA) yn y lleoliadau canlynol:
  - Tŷ Du;
  - Cors Gwawr, a
  - Cae Canol-dydd

Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, ni chyflwynwyd unrhyw gais cysylltiedig arall yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad arno.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth i'r Awdurdodau fynd ati i baratoi y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd unigol. | |

| **Dangosydd: D29** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D29 – Nifer a math o ddatblygiadau perthynol Prosiect Wylfa Newydd a gychwynnwyd | Datblygiadau perthynol unigol Prosiect Wylfa Newydd wedi eu cychwyn yn unol â chaniatâd cynllunio unigol | AMB 1 | ✓ | Datblygiad perthynol prosiect Wylfa Newydd heb gychwyn o fewn yr amserlen a osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a'r Gorchymyn caniatâd Datblygu (lle bo'n berthnasol). |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |

| | | AMB 5 | ✓ | |
|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Yn sgil y penderfyniad gan Horizon i dynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nol, nid oes yna unrhyw ddatblygiad perthynol wedi cychwyn. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r A5025 (27C106E/FR/ECON) yn 2018 ac yna caniatâd i ddiwygio amod ymestyn cyfnod cychwyn ar y gwaith (VAR/2020/24) i hyd at Orffennaf 2023. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth i'r Awdurdodau fynd ati i baratoi y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd unigol. | | | | |

| **Dangosydd: D30** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro |

**Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus**

**Ynys Ynni**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r ynys gyfan yn barth menter. Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth ryngwladol ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Y gobaith yw bod dynodi'r Ynys gyfan fel Parth Menter yn fodd o sicrhau fod gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni a sefydlwyd gan y Cyngor yn cael ei wireddu. Gweledigaeth Ynys Ynni yw gwireddu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer creu swyddi a sicrhau ffyniant a thwf economaidd drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn.

Serch y ffaith fod y Cais Gorchymyn Datblygu ar gyfer Wylfa Newydd ynghyd a phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol wedi cael ei dynnu'n nôl mae gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fel rhan o'r Rhaglen mae diddordeb a chynlluniau yn parhau i fodoli gan gwmnïau ynni carbon isel ar yr ynys gan gynnwys datblygiadau Ynni Llanwol Morlais a Minesto ynghyd a datblygiadau arfaethedig ar gyfer ffermydd solar.

Yn ystod Rhagfyr 2021 fe dderbyniodd Morlais ganiatâd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu prosiect ynni llif llanw oddi ar arfordir gogledd Orllewin Ynys Môn. Dyma'r rhan gyntaf yn y broses o ganiatáu'r cynllun fydd yn cynhyrchu trydan di-garbon a olygai fod y gwaith adeiladu ar y tir yn gallu cychwyn cyn mynd ati gyda'r gwaith o osod y dyfeisiadau yn y mor.

Ymhellach fe dderbyniwyd y Cynllun hwb ariannol yn ystod Mawrth 2022, gan dderbyn grant gwerth £31miliwn o Gronfa Ariannol Ewropeaidd er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o wireddu a chyflawni'r Cynllun. Yn dilyn ei ddatblygu fe fydd Cynllun Morlais yn cynhyrchu trydan gan ddefnyddio adnoddau gan gynhyrchu trydan glan ar gyfer 180,000 o gartrefi unwaith y bydd yn gweithredu i'w lawn gapasati.

Yn dilyn cyhoeddi Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 mae ymrwymiad y Llywodraeth i hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gynhyrchu ynni yn gwbl amlwg. Nodir fod angen manteisio ar y cyfleon yng Nghymru sydd yn bodoli i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a fod yna ymrwymiad i sicrhau bod y system gynllunio yn rhoi arweiniad cryf ar gyfer gweithgarwch datblygu ynni adnewyddadwy gan olygu fod ein bod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r sector adnewyddadwy, denu buddsoddiad newydd a lleihau allyriadau carbon.

**Gweledigaeth Economaidd**

Mae’r Cynghorau yn parhau i weithio’n agos a Llywodraeth Cymru ynghyd ac Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru drwy’r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae’r bwrdd yn grŵp ar y cyd o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws yr ardal. Mae’r amcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth, sy’n cynnwys chwe chyngor Gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, lansio Bargen Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Mae’r Fargen Twf yn nodi gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth gyda’r nod o greu 5,300 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat gwerth £1 biliwn yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Arwyddwyd y gytundeb derfynol ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru ar 17 Rhagfyr, 2020. Caiff y fargen ei gefnogi gyda £120 miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gobeithir y bydd y Fargen Twf yn trawsnewid economi y rhanbarth drwy gefnogi twf gwyrdd a chynaliadwy.

**Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Ar 23 Mawrth 2023, cadarnhawyd fod cais Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus, ac yn un o ddau borthladd rhydd i’w sefydlu yng Nghymru. Cafodd y cais ei ddatblygu drwy bartneriaeth gyfartal rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line (perchnogion Porthladd Caergybi).

Gobeithir y bydd sicrhau statws Porthladd Rhydd yn darparu cyfleodd i Ynys Môn a’r rhanbarth ehangach. Y cam nesaf yn y broses fydd myn ati i baratoi achos busnes llawn. Bydd y broses o greu'r achos busnes hynny yn cael ei wneud ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line.

Mae statws Porthladd Rhydd yn diddymu rhwystrau masnach ac yn darparu hawddfreintiau sy’n symleiddio sut gall y busnes weithredu. Yn ôl amcangyfrifon modelu, byddai porthladd rhydd yn denu gwerth £1 biliwn o fuddsoddiad sydd wir ei angen ac yn creu tua 3,500 i 13,000 o swyddi cyflog uchel ar draws y rhanbarth.

| **Dangosydd: D31** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a’i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy’n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy’n gallu cefnogi’r sectorau yn yr economi lleol sy’n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | CYF 1, CYF 3 A CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D31 – Swm o dir cyflogaeth neu arwynebedd llawr (dosbarth defnydd B1, B2 a B8) a gynhwysir ar safleoedd a amlinellir ym Mholisi CYF 1 sy'n cael eu colli i ddefnyddiau eraill. ✓ | Dim colled net o dir cyflogaeth/arwynebedd llawr i ddefnyddiau amgen (defnyddiau heblaw dosbarth defnydd B1, B2 a B8) yn groes i Bolisi CYF 3 neu Bolisi CYF 5. | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio nad yw'n unol a Pholisi CYF 3 neu CYF 5. |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Caniatawyd cyfanswm o 18 cais cynllunio ar safleoedd cyflogaeth a warchodir yn unol â Pholisi CYF1. Roedd 17 o'r ceisiadau hyn yn gysylltiedig â defnyddiau yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 neu defnyddiau eraill presennol sydd wedi eu lleoli ar y safleoedd a warchodir. Y cais nad oedd yn ymwneud â'r defnyddiau hyn oedd:

- C22/0874/16/LL - Codi adeilad i'w ddefnyddio fel masnachwr adeiladu (defnydd sui generis) a strwythurau iard cysylltiedig, mannau llwytho, maes parcio, cynigion tirlunio ynghyd a¢ gwaith cysylltiedig - Plot C5, Parc Bryn Cegin, Llandygai, Bangor, LL57 4LD. Roedd y swyddog o'r farn nad oedd y cynnig yn groes i unrhyw bolisi cynllunio materol perthnasol o fewn y CDLl ac mae'r datblygiad arfaethedig yn briodol ar gyfer y safle ac mae'n debygol o fod o bwysigrwydd strategol i'r sir fel man cychwyn ar gyfer datblygiadau busnes ar y safle.

Pwysleisir fod y defnydd hyn yn ddefnydd unigryw (sui generis). Mae Polisi Strategol 13 yn caniatáu ar gyfer rhai mathau o ddefnyddiau unigryw (sui generis) addas ar safleoedd cyflogaeth sydd wedi eu gwarchod yn y Cynllun.

Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth (wedi eu gwarchod neu ddynodi) ar gyfer defnyddiau amgen nad oeddent yn cydymffurfio â Pholisïau CYF 3 neu CYF 5. Ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. Bwriedir paratoi Asesiadau o Dir Cyflogaeth fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r gefnogi'r Cynlluniau newydd.

**Dangosydd: D32**

<table>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO10</td><td colspan="4">Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a’i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy’n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy’n gallu cefnogi’r sectorau yn yr economi lleol sy’n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>CYF 1, CYF 3 a CYF 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D32 – Swm o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodir a gynhwyswyd ym Mholisi CYF 1 a gymerwyd i fyny yn ôl dosbarth defnydd datblygu B1, B2 neu B8.</td><td rowspan="5" colspan="2">6.9 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yng Ngwynedd.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="5">Llai na 27.4 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yng Ngwynedd.<br><br>Llai na 57 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yn Ynys Môn.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>X</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Mae’r sbardun monitro yn ymwneud â sŵm y tir cyflogaeth sydd wedi ei gymryd fyny erbyn diwedd 2021.

Yng Ngwynedd, mae 7.06ha o dir wedi derbyn caniatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth, ac ym Môn, mae 2.64ha o safleoedd cyflogaeth gwarchodedig wedi derbyn caniatâd yn ystod cyfnod y pumed Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB5).

Gan gynnwys caniatadau cynllunio a roddwyd yn ystod AMB1, AMB2, AMB3, AMB4 & AMB5 mae cyfanswm cronnus y tir a dderbyniodd ganiatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth fel a ganlyn:

Gwynedd, 13.51ha (gan gynnwys adleoli uned 0.47ha ar Stad Cibyn yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu ffordd osgoi Caernarfon)

Ynys Môn 34.87ha.

Nodir fod y gyfradd caniatâd ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig yn ystod y cyfnod byr hwn yn is na’r hyn a ddisgwylir. Ystyrir fod y Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd

cyflogaeth a bod llai o geisiadau am ddatblygiad ar y safleoedd cyflogaeth yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd tu hwnt i reolaeth y Cynllun.

*NODER: Mae rhan o ffordd osgoi Caernarfon yn mynd trwy gornel de-orllewinol Stad Ddiwydiannol Cibyn. Bydd rhan fechan o'r stad ddiwydiannol bresennol yn cael ei cholli i'r ffordd osgoi. Nid yw'n bosib amcangyfrif arwynebedd y safle cyflogaeth a gollir, ond bydd yn rhan fechan o'i chymharu â chyfanswm arwynebedd y stad bresennol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. Bwriedir paratoi Asesiadau o Dir Cyflogaeth fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r gefnogi'r Cynlluniau newydd. | |

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D33</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO10</td><td colspan="4">Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>CYF 1, CYF 3 a CYF 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D33 – Swm o dir cyflogaeth (hectar) a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddynodiadau cyflogaeth.</td><td rowspan="5">Sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle cyflogaeth a ddynodwyd yng Ngwynedd erbyn 2019<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 64 ha o dir cyflogaeth ar safle a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2021<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 112ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2024<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 144ha o dir</td><td>AMB 1</td><td></td><td rowspan="5">Cyfanswm o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn disgyn o dan yr angen cronnol a nodwyd yn y targed polisi</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>X</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>X</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>X</td></tr>
<tr><td>AMB 5</td><td>X</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2026 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar y safleoedd a ddynodir yn Ynys Môn a Gwynedd yn ystod AMB 5.<br><br>Mae'r targed yn nodi'r angen i'r safleoedd dderbyn caniatâd cynlllunio erbyn 2019 yng Ngwynedd a Môn, ac o ganlyniad mae'r lefel sbardun wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd yn sylweddol wahanol i pan fabwysiadwyd y Cynllun ac ystyrir fod hyn wedi cael cryn effaith ar faint o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddatblygu. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun newydd. Bwriedir paratoi Asesiadau o Dir Cyflogaeth fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r gefnogi'r Cynlluniau newydd. | | | | |

| **Dangosydd: D34** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB3, dim angen parhau i'w fonitro. |

| **Dangosydd: D35** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** |
| D35 - Statws cyflogaeth 16+ | Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgarwch economaidd erbyn 2026 o gymharu â'r lefel yn 2017 | AMB 1 | ✓ | Cyfradd gweithgarwch economaidd yn gostwng am 2 flynedd yn olynol |
| | | AMB 2 | – | |
| | | AMB 3 | – | |
| | | AMB 4 | – | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64) | | | | |

| | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2019 | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2020 | Blwyddyn yn dod i ben mis March 2021 | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2022 | Blwyddyn yn dod i ben mis Rhagfyr 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 80.7 | 79.0 | 78.8% | 74.1% | 78.1% (+4.0%) |
| Gwynedd | 77.1 | 77.7 | 77.9% | 75.9% | 77.6% (+1.7%) |
| | 76.7 | 76.6 | 76.6% | 75.6% | 75.6% (-1.0%) |

Tarddiad: Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a'r Flwyddyn yng Nghymru

Mae cyfradd y gyfradd gweithgarwch economaidd yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi cynyddu. Gall hyn fod oherwydd adferiad covid. Cymeradwywyd nifer o ddatblygiadau cyflogaeth yn ystod yr AMB hwn. I gymharu mae cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru wedi gostwng yn yr un cyfnod.

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

**Gweithredu:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

**Dangosydd: D36**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |
| D36 – Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd | Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, lleihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017. | AMB 1 – <br>AMB 2 ✓<br>AMB 3 X<br>AMB 4 ✓<br>**AMB 5** ✓ | Methiant o'i leihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2019. |

**Dadansoddiad:**

Mae gan Gyngor Ynys Môn ddyhead i leihau cyfran cymudo o Ynys Môn i Wynedd ac ardaloedd ehangach. Byddai lleihad yng nghyfran cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd yn awgrymu bod cynnydd yn y cyfleoedd economaidd ar gael yn Ynys Môn fyddai yn ei dro yn arwain at lai o ail-gymudo yn digwydd. Yn 2021, roedd 70.3% o holl gymudwyr Ynys Môn yn cymudo i'w gwaith o fewn y Sir. Mae'r tabl isod yn amlygu patrymau cymudo o Ynys Môn i Wynedd dros y blynyddoedd diweddar.

| Blwyddyn | Cyfanswm cymudwyr Ynys Môn | Nifer cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd | % Cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd |
|---|---|---|---|
| **2016** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |
| **2017** | 31,500 | 7,000 | 22.2% |
| **2018** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |
| **2019** | 32,000 | 7,500 | 23.4% |
| **2020** | 30,900 | 7,400 | 24% |
| **2021** | 30,000 | 5,800 | 19.3% |
| **2022** | 31,600 | 6,900 | 21.8% |

*(Ffynhonnell: StatsWales, Llywodraeth Cymru)*

Fel y gwelir, mae'r gyfradd poblogaeth weithio a gymudodd o Ynys Môn i Wynedd wedi amrywio rhwng 2016 a 2023. Bu cynnydd yng nghyfanswm y cymudwyr ar yr Ynys a hefyd nifer y cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd rhwng 2021 a 2022. Gall hyn awgrymu bod cyfleoedd cyflogaeth wedi cynyddu ar yr Ynys gyda 1,600 o gymudwyr ychwanegol ers 2021 gyda'r cynnydd mewn cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd wedi cynyddu 1,100. Gallai rhan o'r cynnydd hwn fod o ganlyniad i newidiadau o frig y pandemig Covid yn 2021 gan effeithio ar y ffordd rydym yn gweithio gyda mwy o bobl bellach yn cymudo i'w gweithle arferol. Felly, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant o ran perfformiad y dangosydd hwn, fodd bynnag, hyd yn oed gyda chynnydd 2022 mae'r ffigurau yn dal i fod yn is na'r lefelau cymudwyr yn 2017.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D37** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO12 | Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | CYF 6 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D37 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer busnesau newydd mewn Pentrefi Gwasanaeth/ Lleol/ Gwledig/ Arfordirol neu yn y cefn gwlad | Caniatáu busnesau newydd ar raddfa fach ar safleoedd addas neu mewn adeiladau addas o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad yn unol â Pholisi CYF 6 | AMB 1 | ✓ | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau graddfa fach newydd ar safleoedd/ mewn adeiladau o fewn neu'n agos at bentref neu yn y cefn gwlad am ddwy flynedd yn olynol |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

| **Dadansoddiad:** |
|---|
| Cymeradwywyd chwech o geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau newydd mewn pentrefi gwasanaeth/lleol/gwledig/arfordirol a chefn gwlad agored sydd wedi cyfeirio at Bolisi CYF 6 wrth ystyried egwyddor y bwriad. Mae'r mathau o fentrau busnes sydd wedi'u cymeradwyo yn cynnwys sied er mwyn magu a bridio pysgod, parlwr trin cŵn, unedau storio a ffrâm bren ar gyfer clinig asgwrn cefn.<br><br>Ymddengys fod Polisi CYF 6 yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau am fusnesau newydd ar raddfa fechan ac y gall, felly, gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig. |
| **Gweithred:** |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

**Canol Trefi a Datblygiad Manwerthu**

Mae canolfannau manwerthu o fewn y ddau awdurdod yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddiau manwerthu. Nid oes yna unrhyw geisiadau mawr o fewn yr ardaloedd manwerthu (canol trefi a phrif ardal siopa) wedi ei dderbyn yn ystod cyfnod y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae effaith Brexit a pandemig Covid-19 ar ganol trefi wedi amlygu ei hun fwyfwy yn ystod cyfnod y trydydd AMB. Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae nifer o siopau gadwyn amlycaf y stryd fawr wedi cau. Golygai hynny fod yna wagle nodweddiadol wedi ei adael yn rhai o'n prif canol trefi.

Yn 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen 'Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydwerth a Mwy Disglair'. Mae'r ddogfen hyn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru yn dilyn pandemig Covid. Rhoddir cryn bwyslais o fewn y ddogfen i adferiad y stryd fawr yn dilyn Covid.

| **Dangosydd: D38** |
|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | MAN 1, MAN 2 & MAN 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D38 Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir (m.sg) o fewn a thu allan i ffiniau sefydledig canol trefi | Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir o fewn ffiniau canol trefi sefydledig o'i gymharu â'r swm blynyddol a ganiateir tu allan i ffiniau canol trefi sefydledig ar safleoedd ar ymylon y canol a safleoedd tu allan i'r canol | AMB 1 | ✓ | Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir ar safleoedd tu allan i ganol trefi sefydledig yn fwy na'r swm blynyddol a ganiateir o fewn canol trefi sefydledig |
| | | AMB 2 | – | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio manwerthu mawr yn ystod y cyfnod monitro tu allan i ganol tref diffiniedig. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | | | | |

**Dangosydd: D39**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | MAN 1, MAN 2, MAN 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D39 – Cynnal astudiaeth i | Archwiliad i archwilio safleoedd | AMB 1 | – | Methiant i gynnal astudiaeth i archwilio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli | manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli yn cael ei gwneud erbyn diwedd 2017/2018 o fabwysiadu'r Cynllun.<br><br>Dynodi safleoedd manwerthu ym Mangor, Llangefni a Phwllheli i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth adeg adolygu'r Cynllun. | AMB 2<br>AMB 3<br>AMB 4<br>**AMB 5** | –<br>–<br>–<br>– | safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli erbyn diwedd 2016/2017 o fabwysiadu'r Cynllun.<br><br>Methiant i ddarparu safleoedd manwerthu i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth. |

**Dadansoddiad:**

Ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, ymddengys fod y niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu (A1) o fewn Bangor Llangefni a Phwllheli yn gymharol isel ac mewn gwirionedd beth sydd yn cael ei gyflwyno ydi ceisiadau er mwyn newid defnydd unedau dosbarth defnydd A1 i ddefnyddiau amgen, er enghraifft defnydd A3 ac C3. Mae effaith Brexit a'r pandemig wedi effeithio canol trefi yn sylweddol gan arwain at ymadawiad siopau cadwyn o ganol trefi yn hytrach na galw am ychwaneg o ofod. Oherwydd y diffyg cynnydd a phwysau ar gyfer defnyddiau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn nid yw'n ymddangos fod y galw ar gyfer defnyddiau manwerthu yn cyd-fynd a chasgliadau'r Astudiaeth Manwerthu (2013) a gynhaliwyd gan Applied Planning. Yn sgil hynny, ni ystyrir yn briodol i gynnal Astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli. Rhagwelir y bydd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) yn cael ei ddiweddaru yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun. Bydd casgliadau'r Astudiaeth yn sail i'r polisïau manwerthu yn yr adolygiad ac yn ein galluogi i ragweld os yw'r pwysau a'r galw am ychwaneg o ofod llawr nwyddau cymhariaeth yn parhau i fodoli ym Mangor, Pwllheli a Llangefni.

Mae'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun yn hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu yn unol â'r galw a phriodoldeb y safle, gan hynny mae yna fecanwaith polisi yn ei le er mwyn cyfarch y galw pe byddai'n codi. Ymhellach, ystyrir yn briodol i gynnal adolygiad o'r Astudiaeth Manwerthu yn ystod y broses o baratoi Cynllun newydd er mwyn canfod os yw'r casgliadau yn parhau i fod yn gyfredol ac asesu'r angen ar gyfer darpariaeth o lawr gofod manwerthu.

Oherwydd y diffyg galw ar gyfer gofod manwerthu ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, ystyrir yn briodol fod yr angen a'r galw am ofod manwerthu ar gyfer y dyfodol yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun newydd.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth i'r Awdurdodau unigol fynd ati i baratoi eu Cynllun Datblygu Lleol newydd. | |

| **Dangosydd: D40** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi hanfodol a bywiog yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd un ai wedi cynnal neu wedi ailddarganfod eu pwrpas fel canolfannau gwaith a gwasanaethau, ac sy'n lleoedd bywiog a deniadol i drigolion. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 15, MAN 1, MAN 2, MAN 3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** | |
| D40 - Nifer y ceisiadau cynllunio am ddefnyddiau nad ydynt yn A1 a gymeradwywyd mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol. | Defnyddiau A1 yn parhau i fod y prif ddefnydd o fewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol o gymharu â'r astudiaeth arwynebedd llawr manwerthu yn 2017. | AMB 1 | ✓ | Defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 sydd wedi'u caniatáu mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol yn groes i Bolisi MAN 2. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | AMB 3 | ✓ | | |
| | | AMB 4 | ✓ | | |
| | | **AMB 5** | ✓ | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

14 cais wedi'u cymeradwyo yn yr Ardal Siopa Gynradd. Mae pob cais yn cydymffurfio â meini prawf y polisi:

- 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i A1/A3 cymysg,
- 1 caniatâd i newid defnydd o A2 i A1,
- 1 caniatâd i newid defnydd o D2 i A3,
- 1 caniatâd i newid defnydd o B1 i A3,
- 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i A2
- 4 caniatâd am defnydd preswyl i'r lloriau uchod,
- 3 caniatâd amnewid blwch ffonau BT,
- 2 caniatâd am hysbysebion.

| |
|---|
| Ystyrir bod Polisi manwerthu'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon oherwydd nid oes caniatâd wedi ei roi i unrhyw ddefnydd nad yw'n cyfrif fel defnydd canol tref (yn unol â diffiniad PCC). Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.<br><br>O ganlyniad, ystyrir bod polisïau canol tref y cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. |
| **Gweithredu:** |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

**Yr Economi Ymwelwyr**

Mae twristiaeth yn sector deinamig sy'n newid yn barhaus. Mae ganddo gyfraniad sylweddol i'w wneud i economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion ardal y cynllun.

Mae pwysigrwydd twristiaeth i'w weld yn y tabl isod sy'n dangos, er bod yr economi twristiaeth yn gwella yn dilyn pandemig covid 19, ei fod yn dal i fod yn is na lefelau cyn covid 19.

**Gwynedd*:**

| | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £575.43 miliwn (-58.5% o'i gymharu â 2019 cyn covid) | £1.15 biliwn (-18.5% o'i gymharu â 2019 cyn covid |
| Cyfanswm yr ymwelwyr (miliynau) | 3.63 miliwn (-53.6%) | 5.94 miliwn (-24%) |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 1.55 miliwn (-60.9%) | 2.89 miliwn (-22.8%) |
| Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau | 2.07 miliwn (-46.0%) | 3.05 miliwn (-20.5%) |
| Nifer o swyddi FTE[5] sy'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth | 9,571 (-47.5%) | 14,651 (-19.7%) |

* yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

**Ynys Môn:**

| | 2020 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £163.99 miliwn (-54.7% o'i gymharu â 2019 cyn covid) | £342.87 miliwn (-5.3% o'i gymharu â 2019 cyn covid) |
| Cyfanswm yr ymwelwyr (miliynau) | 0.75 miliwn (-58.0%) | 1.48 miliwn (-17.5%) |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 0.45 miliwn (-58.7%) | 0.79 miliwn (-27.1%) |
| Nifer o swyddi FTE[6] sy'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth | 0.30 miliwn (-57.0%) | 0.69% miliwn (-2.8%) |

<u>Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau</u>
Mae Rheoli Cyrchfannau'n broses o gydlynu pob agwedd o gyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad yr ymwelydd ac sy'n ystyried anghenion ymwelwyr.

[5] FTE = Cyfwerth â Llawn Amser
[6] FTE = Cyfwerth â Llawn Amser

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ddatganiad o fwriad y mae gwahanol rai yn cytuno gydag ef, i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser. Mae'n dweud beth yw rolau'r gwahanol rai sydd â diddordeb, ac yn dweud yn eglur beth maen nhw am ei wneud.

Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035) ym mis Chwefror 2023 a chyhoeddwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn yn 2016. Mae'r ddau awdurdod yn gweithio ar ddiweddariad ar hyn o bryd.

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D41</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO14</td><td colspan="4">Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 14, TWR 1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Trothwy:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D41 - Nifer yr atyniadau a chyfleusterau i ymwelwyr neu welliannau wedi'u cymeradwyo i atyniadau a chyfleusterau</td><td rowspan="5">Atyniadau a chyfleusterau newydd neu well wedi'u caniatáu ar safleoedd addas yn unol â pholisi TWR 1</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="5">Dim ceisiadau cynllunio am atyniadau neu gyfleusterau newydd, neu i wella atyniadau neu gyfleusterau wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">3 caniatâd cynllunio:<br>• 2 caniatâd ar gyfer mentrau twristiaeth antur.<br>• 1 caniatâd i greu coedlan cymunedol i bawb.<br><br>O'r herwydd ystyrir fod polisïau twristiaeth yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithredu:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D42</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO14</td><td colspan="4">Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 14, TWR 3, TWR 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Trothwy:</td></tr>
<tr><td>D42 - Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir am unedau</td><td>Unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro a ganiateir</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2">Dim ceisiadau cynllunio am unedau gwersylla amgen parhaol neu dros</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td rowspan="4">gwersylla amgen parhaol a dros dro</td><td rowspan="4">yn unol â Pholisi TWR 3 neu Bolisi TWR 5</td><td>AMB 2</td><td>✓</td><td rowspan="4">dro wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">6 caniatâd cynllunio am unedau gwersylla amgen newydd: rhoddwyd 2 caniatâd am ddatblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5) a 4 am ddatblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3).<br><br>Ystyrir bod Polisïau TWR 3 a TWR 5 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau’n parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithredu:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.</td></tr>
</table>

## 6.4 Cyflenwad ac ansawdd tai

### Lleoliad Tai (Rhan 1)

Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), Mawrth 2020, yn nodi'r angen i gyflwyno dau ddangosydd newydd yn seiliedig ar y Taflwybr Tai o fewn y Cynllun. Mae hyn yn disodli'r angen i ymgymryd â Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac i fonitro ar sail y cyflenwad tir a'i hamlygir ar sail yr astudiaeth honno (Dangosydd D43 yn flaenorol fel nodir yn y CDLl ar y Cyd). Gweler y ddau ddangosydd newydd hyn isod, sef dangosyddion D43(A) a D43(B).

Nodir bod yn rhaid nodi'r lefelau cwblhau mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B) yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar ffurf rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), megis felly'r CDLl ar y Cyd, caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, rhan 8.16), fe asesir y ddarpariaeth tai yn erbyn y taflwybr tai a'i nodir yn y Cynllun gan ddiwygio'r taflwybr er mwyn ei gymharu gyda'r taflwybr sydd yn rhan o'r Cynllun.


Mae'n rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys adran sy'n cynnwys graff gwreiddiol y taflwybr a thabl Cyfrifo'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig (neu Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn achos y CDLl ar y Cyd) ac mae'n rhaid i'r AMB gynnwys diweddariad o'r ddwy elfen. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i waith monitro, cymharu â dadansoddi mwy manwl gael ei wneud yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Nodir mai'r pwynt allweddol yw y dylai fod yn glir i'r darllenwyr beth sydd wedi newid rhwng y cynllun a fabwysiadwyd a'r Adroddiad Monitro Blynyddol presennol.

Noder fod yn rhaid cynnwys sylwadau ar y canlyniadau a'r goblygiadau a nodi'n glir pa gamau (lle y bo'n berthnasol) sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg/tangyflawni yn erbyn strategaeth y cynllun. Noder fod sylwadau o'r fath yn cael eu cynnig o fewn y dadansoddiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B) isod.


Fel rhan o'r broses hon cysylltwyd â pherchnogion dynodiadau tai'r Cynllun ynghyd a'r safleoedd banc tir mawr (5 neu fwy o unedau) er mwyn sefydlu eu bwriad o ran datblygu'r safleoedd hyn. Yn dilyn hyn fe ymgynghorwyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai er mwyn ystyried y taflwybr arfaethedig ar gyfer y safleoedd hyn. Cytunwyd ar daflwybr pob safle gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid ac nid oedd angen cynnal cyfarfod i drafod unrhyw safle ble roedd anghydweld.

Gweler Atodiad 3 ar gyfer asesiad o'r dynodiadau tai a'r safleoedd banc tir mawr fel y cytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid ynghyd a'r wybodaeth berthnasol o ran y broses hon.

<u>Graff y Taflwybr fel y'i nodir yn y CDLl a fabwysiadwyd</u>




Graff y Taflwybr – fel y'i diwygiwyd drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol




Mae'r graff hwn yn seiliedig ar y wybodaeth yn y tabl canlynol sydd wedi diwygio'r wybodaeth yn y Cynllun a'i mabwysiadwyd. Mae hyn ar sail unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd, trafodaethau gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid a thybiaethau a wneir ar sail hynny. Mae'r sail y ffigyrau o 2023-24 ymlaen i'w gweld yn Atodiad 3 o'r Adroddiad hwn.

Mae'r tabl hwn a'r graffiau uchod yn darparu'r sail ar gyfer yr asesiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B).

| Blwyddyn y CDLl ar y Cyd | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2011 - 12** | **2012 - 13** | **2013 - 14** | **2014 - 15** | **2015 - 16** | **2016 - 17** | **2017 - 18** | **2018 - 19** | **2019 - 20** | **2020 - 21** | **2021 - 22** | **2022 - 23** | **2023 - 24** | **2024 - 25** | **2025 - 26** |

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr | 92 | 227 | 191 | 207 | 186 | 264 | 309 | 419 | 343 | 269 | 248 | 201 | | | |
| Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd bach | 148 | 167 | 146 | 170 | 165 | 138 | 153 | 129 | 110 | 91 | 99 | 97 | | | |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 120 | 182 | 404 |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 262 | 380 | 213 |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | | | 0 |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | | | 0 |
| Nifer y Tai Wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | 240 | 394 | 337 | 377 | 351 | 402 | 462 | 548 | 453 | 360 | 347 | 298 | | | |
| Nifer y Tai a'u rhagwelir fydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 382 | 562 | 617 |
| Gofyniad Blynyddol Cyfartalog | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd D43** | Y dangosydd yma wedi cael ei ddisodli ar sail llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig 26 Mawrth 2020: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/newidiadau-i-bolisiau-a-chanllawiau-ym-maes-cynllunio-ynghylch-cyflenwi-tai_0.pdf |

**Dangosydd: D43(A)**

<table>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15<br>&<br>SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td colspan="2" rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog</td><td colspan="2" rowspan="5">Caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td></td><td rowspan="5">Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu’n sylweddol is na’r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.<br><br>Fe nodir y dylid monitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dynodiadau, a safleoedd hap bach a mawr ar wahân.<br><br>Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).<br><br>Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ynghyd â’r wybodaeth gwblhau flynyddol a noder yn y taflwybr</td></tr>
</table>

tai yn y CDLl ar y Cyd. Ochr yn ochr â hyn noder ei fod yn bwysig ystyried gwybodaeth mewn perthynas â'r taflwybr diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd sydd yn weddill yn oes y Cynllun.

**2022/23**

**Cymhariaeth â'r taflwybr tai**

| | **Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd** | **Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau** | **Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr** |
|---|---|---|---|
| Safleoedd ar hap bychan (Llai na 5 uned) | 97 | 164 | -67 (-40.9%) |
| Safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai) | 124 | 118 | +6 (+5.1%) |
| Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai | 77 | 283 | -206 (-72.8%) |
| **Cyfanswm cwblhau** | **298** | **565** | -267 (-47.3%) |

**Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog**

| **Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd** | **Gofyniad blynyddol cyfartalog y Cynllun** | **Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd â'r gofyniad blynyddol cyfartalog** |
|---|---|---|
| **298** | **479** | -181 (-37.8%) |

- Yng nghyfnod yr AMB hwn, noder fod 298 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yw 479 o unedau (felly 181 uned yn llai neu -37.8%) ac roedd y taflwybr yn rhagweld datblygu 565 o dai, heb lwfans llithro, yn ystod 2022/23 (felly 267 uned yn llai neu -47.3%).
- O'i gymharu â'r wybodaeth o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro), noder ar gyfer 2022/23 fod 67 uned yn llai (-40.9%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan; 6 uned yn fwy (+5.1%) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 206 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-72.8%).
- Er mwyn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, noder y wybodaeth ganlynol:

- 2016/17: 402 o unedau wedi eu cwblhau: 6.9% yn fwy na'r ffigwr yn y taflwybr, 16% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- 2017/18: 462 o unedau wedi eu cwblhau: 8.5% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 3.5% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- 2018/19: 548 o unedau wedi eu cwblhau: 11.2% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 14.4% yn uwch na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- 2019/20: 453 o unedau wedi eu cwblhau: 28.2% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 5.4% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- 2020/21: 360 o unedau wedi eu cwblhau: 44.4% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 24.8% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- 2021/22: 347 o unedau wedi eu cwblhau: 44.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 27.6% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44, D45 a D46.
- Noder bod y wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 5 yn parhau â'r tueddiadau a welwyd ym mhob blwyddyn ers 2017/18, sef gostyngiad amlwg yn nifer o unedau tai a gwblhawyd o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Noder, fel yn y ddwy flynedd flaenorol, bod y lefel cwblhau yn sylweddol is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol ynghyd â'r ffigwr a nodir yn y taflwybr yn y CDLl ar y Cyd ar gyfer y flwyddyn berthnasol. Fe nodir mai yng nghyfnod AMB 5 y gwelwyd y nifer isaf o unedau sydd wedi eu cwblhau mewn blwyddyn ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu.
- Gellir nodi, yn unol â'r lefel sbardun, bod yr hyn sydd wedi ei ddatblygu yn sylweddol is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog, gyda'r diffyg hyn wedi cynyddu ers y llynedd. Mae hyn eto yn parhau gyda'r tueddiad a welwyd yn sicr ers cyfnod AMR 3. Tra na chredir fod angen gweithredu ar hyn o bryd, credir fod yna angen yn sicr i ystyried yr hyn a amlygir yn y dangosydd hwn wrth baratoi Cynlluniau newydd. Noder yn ogystal fod y taflwybr diwygiedig yn awgrymu cynnydd yn y cyflenwad tai yn nwy flynedd olaf oes y Cynllun i lefel sydd yn uwch na'r ffigwr Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Dylid nodi mai gwybodaeth ragdybiaethol yw hyn ac mae'r hyn fydd yn digwydd mewn gwirionedd yn ddibynnol a'r nifer o ffactorau.
- Yn hyn o beth mae'n bwysig ystyried y gwahanol gydrannau o ddarparu tai h.y. rôl safleoedd ar hap bach a mawr ynghyd a'r dynodiadau, wrth asesu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'n amlwg fod y nifer o dai sydd wedi eu datblygu ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn sylweddol is na'r hyn a ragwelir yn y taflwybr (gweler hefyd ymateb i ddangosyddion D45 a D46). Tra bod y diweddariad o'r taflwybr yn awgrymu cynnydd yn y nifer o unedau i'w darparu ar ddynodiadau tai tuag at ddiwedd cyfnod y Cynllun, credir bod angen cadw llygaid ar y sefyllfa yn ei gyfanrwydd wrth ddechrau paratoi Cynlluniau newydd. Bydd yn bwysig ystyried y wybodaeth hyn ynghyd a materion eraill cyd-destunol, megis y sefyllfa economaidd, sgil-effaith pandemig Covid-19 a chynnwys dogfen Cymru'r Dyfodol ar y cyd a'r wybodaeth o ran dangosydd D43(B) wrth ystyried effaith datblygiadau blynyddol ar y ffigwr tai yn ei gyfanrwydd.

<table>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D43(B)</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol</td><td rowspan="5">Caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td></td><td colspan="2" rowspan="5">Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu’n sylweddol is na’r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun.</td></tr>
</table>

Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig a noder yn nhaflwybr tai'r Cynllun.

**Gwybodaeth o ran y gyfradd cwblhau gronnol hyd at 2022/23 – gwybodaeth fesul cydrannau darpariaeth tai**


| | **Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd** | **Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau** | **Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr** |
|---|---|---|---|
| Safleoedd bychan (Llai na 5 uned) | 1612 | 1939 | -327 (--16.9%) |
| Safleoedd mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai) | 1942 | 1632 | +310 (+19.0%) |
| Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai | 1015 | 2092 | -1077 (-51.5%) |
| Cyfanswm unedau cronnol wedi eu cwblhau | 4569 | 5663 | -1094 (-19.3%) |

**Cyfradd darparu tai blynyddol o'i gymharu â'r wybodaeth yn y taflwybr tai**


| **Blwyddyn** | **Ffigwr cwblhau cronnol a nodir yn y taflwybr** | **Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol)** | **Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau blynyddol yn y taflwybr** | **Cyfanswm cwblhau cronnol** | **Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau cronnol yn y taflwybr** | **% cwblhau yn erbyn y ffigwr cwblhau cronnol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 240 | 240 | 0 | 240 | 0 | 0% |
| **2012-13** | 634 (+394) | 394 | 0 | 634 | 0 | 0% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2013-14** | 971<br>(+337) | 337 | 0 | 971 | 0 | 0% |
| **2014-15** | 1348<br>(+377) | 377 | 0 | 1348 | 0 | 0% |
| **2015-16** | 1699<br>(+351) | 351 | 0 | 1699 | 0 | 0% |
| **2016-17** | 2075<br>(+376) | 402 | +26 | 2101 | +26 | +1.3% |
| **2017-18** | 2580<br>(+505) | 462 | -43 | 2563 | -17 | -0.7% |
| **2018-19** | 3197<br>(+617) | 548 | -69 | 3111 | -86 | -2.7% |
| **2019-20** | 3828<br>(+631) | 453 | -178 | 3564 | -264 | -6.9% |
| **2020-21** | 4475<br>(+647) | 360 | -287 | 3924 | -551 | -12.3% |
| **2021-22** | 5098<br>(+623) | 347 | -276 | 4271 | -827 | -16.2% |
| **2022-23** | 5663<br>(+565) | 298 | -267 | 4569 | -1094 | -19.3% |
| **2023-24** | 6190<br>(+527) | | | | | |
| **2024-25** | 6718<br>(+528) | | | | | |
| **2025-26** | 7184<br>(+466) | | | | | |


Mae'r graffiau isod yn cymharu'r tai sydd wedi eu darparu fesul y gwahanol gydrannau yn erbyn y wybodaeth yn nhaflwybr tai'r Cynllun.



Unedau wedi eu cwbhau (gwir nifer a'r ffigyrau taflwybr) Safleoedd ar hap bychan
200
150
100
50
0
2011 /12
2012 /13
2013 /2014
2014 /15
2015 /16
2016 /17
2017 /18
2018 /19
2019 /20
2020 /21
2021 /22
2022 /23
Safleoedd bach (gwir nifer)
Safleoedd bach (taflwybr)

Unedau wedi eu cwblhau (gwir nifer a'r ffigyrau taflwybr) - Safleoedd ar hap mawr
250
200
150
100
50
0
2011 /12
2012 /13
2013 /2014
2014 /15
2015 /16
2016 /17
2017 /18
2018 /19
2019 /20
2020 /21
2021 /22
2022 /23
Safleoedd mawr (gwir nifer)
Safleoedd bach (taflwybr)




Nodir isod wybodaeth sydd yn asesu'r gwir ddarpariaeth tai yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol, sef yr hyn a nodir y wybodaeth targed fel yr amlygir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3.

**Cyfradd darparu tai o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol**

| Blwyddyn | Gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol (479 uned y flwyddyn) | Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol) | Cymhariaeth yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog | Cyfanswm cwblhau cronnol | Cymhariaeth yn erbyn gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol | % cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 479 | 240 | -239 | 240 | -239 | -49.9% |
| **2012-13** | 958 | 394 | -85 | 634 | -324 | -33.8% |
| **2013-14** | 1437 | 337 | -142 | 971 | -466 | -32.4% |
| **2014-15** | 1916 | 377 | -102 | 1348 | -568 | -29.6% |
| **2015-16** | 2395 | 351 | -128 | 1699 | -696 | -29.0% |
| **2016-17** | 2874 | 402 | -77 | 2101 | -773 | -26.9% |
| **2017-18** | 3353 | 462 | -17 | 2563 | -790 | -23.6% |
| **2018-19** | 3832 | 548 | +69 | 3111 | -721 | -18.8% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | 4311 | 453 | -26 | 3564 | -747 | -17.3% |
| **2020-21** | 4790 | 360 | -119 | 3924 | -866 | -18.1% |
| **2021-22** | 5269 | 347 | -132 | 4271 | -998 | -18.9% |
| **2022-23** | 5748 | 298 | -181 | 4569 | -1,179 | -20.5% |
| **2023-24** | 6227 | | | | | |
| **2024-25** | 6706 | | | | | |
| **2025-26** | 7184 | | | | | |

- Gan gynnwys gwybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, noder bod 1094 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r ffigwr a noder yn y taflwybr ac wrth gymharu gyda'r gofyniad blynyddol cyfartalog, noder fod y gwir ffigwr 1179 uned yn is na'r ffigwr disgwyliedig erbyn 2022/23. Noder nad yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y lwfans llithro yn y Cynllun ond yn hytrach y gwir ffigwr ar gyfer cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun.
- Noder fod 4569 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun ers y dyddiad sail yn 2011 hyd at 2022/23. Mae hyn 19.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr ac 20.5% yn is na'r ffigwr o ran y gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol.
- Mae'r diffyg o ran y canran o unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd o'i gymharu â'r ffigwr cwblhau cronnol yn y taflwybr wedi cynyddu yn arwyddocaol ers cyfnod AMB 4 (o -16.2% i -19.3%). Mae'r tueddiad hyn hefyd yn wir o safbwynt y canran cwblhau gwirioneddol o'i gymharu â'r gofyniad tai blynyddol cronnol (o -18.9% i -20.5%). Mae'r tueddiadau hyn ill dau yn gyson â'r hyn oedd yn cael ei adrodd y llynedd wrth gymharu cyfnodau AMB 3 ac AMB 4.
- Noder fod y gyfradd cwblhau cronnol wedi bod yn eithaf cyson â'r wybodaeth a nodir yn y taflwybr hyd nes cyfnod AMB 2 ond nodir fod y bwlch wedi ymestyn ers hynny (o ran diffyg). Fe noder fod y diffyg rhwng y gwir nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol (ar ffurf canran) a'r wybodaeth yn y taflwybr wedi cynyddu yn flynyddol ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd.
- Tra bod diffyg arwyddocaol yn y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau o'i gymharu â'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol, noder fod y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol yn fwy cyson â'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun o'i gymharu â blynyddoedd cynnar oes y Cynllun (ar ffurf canran). Noder fodd bynnag fod y bwlch ar ffurf canran rhwng y gwir nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau a'r ffigwr gofyniad tai blynyddol cronnol wedi cynyddu ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.
- Wrth ddadansoddi'r wybodaeth yn fanylach o safbwynt cymharu gyda'r wybodaeth gronnol o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro) noder fod 327 uned yn llai (-16.9%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan (llai na 5 uned) o'i gymharu â'r hyn a nodir yn y taflwybr; 310 uned yn fwy (+19.0%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 1077 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-51.5%).
- Mae'r graffiau uchod yn amlygu fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan yn y blynyddoedd diweddar wedi bod yn is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld tra ar y llaw arall fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor) wedi bod yn arwyddocaol uwch na'r wybodaeth yn y taflwybr. Mae'n amlwg fod

unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun wedi bod yn sylweddol is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld (gweler sylwadau pellach ynglŷn â'r agwedd hon).

Noder y pwyntiau canlynol yn gysylltiedig â'r wybodaeth hyn:

- Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 yn nodi lle y ceir diffyg o ran lefelau cwblhau tai cronnol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog am ddwy flynedd yn olynol, mae'n rhaid i'r ACLl ystyried maint unrhyw ddiffyg a nodi ei gasgliad/camau monitro o ran y goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r lefel ofynnol o dai neu gyflawni'r strategaeth. Mae'r lefel sbardun o ran y dangosydd hwn yn nodi bod yn rhaid ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol.
- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44, D45 a D46.
- Wrth edrych ar y diweddariad i'r taflwybr, sydd â gwybodaeth wedi ei gytuno gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, rhagwelir y bydd y nifer o dai a'u cwblheir yn flynyddol yn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun. Ar gyfer dwy flynedd olaf cyfnod y Cynllun, rhagwelir y bydd y ffigyrau cwblhau blynyddol yn fwy cyson â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Tra na fydd y ddarpariaeth hon yn golygu cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun erbyn diwedd oes y Cynllun, rhagwelir y bydd y diffyg yn lleihau wrth agoshau at ddiwedd oes y Cynllun. Dylid nodi mai rhagdybiaeth yw hyn ac fel y gwelir gyda'r gwir ffigyrau dros y blynyddoedd blaenorol gall y sefyllfa newid ac mae'r nifer o unedau a gaiff eu cwblhau mewn gwirionedd yn ddibynnol ar amgylchiadau o ran safleoedd unigol ac o ran agweddau a gofynion fwy eang e.e. sefyllfa economaidd. Tra bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r holl agweddau perthnasol wrth ragweld lefelau twf tai yn y dyfodol, y gwir yw fod hyn yn ddibynnol ar ddymuniad a dyheuadau'r tirfeddianwyr a datblygwyr i ddatblygu'r safleoedd perthnasol. Hwylusydd yw'r Cynllun i ddarparu tai – ni all orfodi hyn.
- O edrych ar y wybodaeth hanesyddol, mae'r hyn a noder yn y taflwybr diwygiedig o ran unedau i'w cwblhau ar ddynodiadau, yn enwedig yn y flwyddyn 2025/26, yn uwch na'r hyn sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r wybodaeth yn y taflwybr yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ar sail gwybodaeth o'r arolwg tai blynyddol, gwybodaeth gefndirol a barn tirfeddianwyr (pan yn berthnasol). Mae posibilrwydd hefyd fod pobl eisiau datblygu'r safleoedd sydd wedi eu dynodi cyn bod strategaeth amgen posib yn cael eu cyflwyno yn y Cynlluniau newydd.
- Mae'n amlwg fodd bynnag o'r wybodaeth hyd at gyfnod yr AMB hwn fod diffyg wedi bod yn y ddarpariaeth tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y CDLl ar y Cyd o'i gymharu â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. Fel amlygir mewn perthynas â dangosyddion D45 a D46, wrth baratoi Cynlluniau newydd bydd rhaid ystyried addasrwydd dynodiadau tai y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y ffigwr tai. Bydd yn rhaid ystyried hyn yng ngoleuni'r ffaith fod y ffigwr darpariaeth tai wedi gorddibynnu ar safleoedd ar hap mawr yn ystod oes y Cynllun.
- Noder y gall rhai o ddynodiadau'r Cynllun hwyluso darpariaeth tai mewn perthynas â datblygiadau newydd a ragwelwyd yn Ynys Môn. Mae paragraff 5.16 o'r CDLl ar y Cyd yn datgan mai "...newid economaidd trawsnewidiol a ragwelir a fydd yn deillio o raddfa unigryw prosiectau isadeiledd ar Ynys Môn a statws yr Ynys fel Parth Menter fydd gyrrwr mwyaf y newid gofodol a chymdeithasol dros gyfnod y Cynllun...". Tra bod peth cynnydd wedi bod yn hyn o beth, nid yw'r prosiectau hyn wedi eu darparu i'r fath raddfa a'r hyn a ragwelwyd wrth baratoi'r Cynllun. Sgil-effaith hyn yw diffyg gweithgaredd ar rai dynodiadau tai perthnasol.
- Nodir mai rôl y CDLl ar y Cyd ydyw i ddarparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. O gofio fod Cynlluniau o'r newydd ar y gweill, ni chredir fod angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Mae'r

taflwybr diwygiedig sydd wedi ei baratoi gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn awgrymu cynnydd blynyddol mewn unedau a fydd yn cael eu cwblhau hyd nes diwedd oes y Cynllun.

- Bydd yr ystyriaethau mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn greiddiol wrth baratoi Cynlluniau o'r newydd. Tra bod y Cynllun yn ceisio sicrhau fod y safleoedd a'u nodir yn gallu cyflawni'r datblygiadau perthnasol, ni all y Cynllun orfodi bod y datblygiadau hyn yn digwydd yn unol â'r wybodaeth yn y taflwybr. Wrth baratoi Cynlluniau o'r newydd mi fydd yn hollbwysig ystyried y lefel twf tai yn ei gyfanrwydd ynghyd ac adnabod y safleoedd gorau a mwyaf addas i gwrdd â'r twf hwn mewn modd effeithiol sydd yn cwrdd â strategaeth y Cynlluniau.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D44** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D44 Nifer yr unedau tai newydd a adeiledir yn ardal y Cynllun | Darparu 7,184 unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B Taflwybr Tai | AMB 1 | – | Y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol | |
| | | AMB 2 | – | | |
| | | AMB 3 | – | | |
| | | AMB 4 | – | | |
| | | **AMB 5** | – | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Targedau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><br>2016/ 17 = 376<br>2017/ 18 = 505<br>2018/ 19 = 617<br>2019/ 20 = 631<br>2020/ 21 = 647<br>2021/ 22 = 623<br>2022/ 23 = 565<br>2023/ 24 = 527<br>2024/ 25 = 528<br>2025/ 26 = 466 | | | |

**Dadansoddiad:**

Gweler isod gymhariaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r targed:

| Blwyddyn | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/17 | 376 | 402 |
| 2017/18 | 505 | 462 |
| 2018/19 | 617 | 548 |
| 2019/20 | 631 | 453 |
| 2020/21 | 647 | 360 |
| 2021/22 | 623 | 347 |
| 2022/23 | 565 | 298 |

O safbwynt y targed a'r lefel sbardun, mae'n amlwg fod y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun wedi disgyn islaw'r gofyniad am ddwy flynedd yn olynol.

Wrth ychwanegu'r wybodaeth o gyfnod AMB 5 i'r wybodaeth yn chwe blynedd cyntaf y tabl uchod (h.y. y cyfnod 2016-23), fe nodir bod 2870 o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 3964 o unedau. Mae hyn gyfystyr â 72.4% o'r lefel targed (diffyg o 1,094 uned dros gyfnod o 7 mlynedd sef 156 uned y flwyddyn).

Mae'n amlwg fod y nifer yr unedau sydd wedi eu cwblhau o fewn ardal y Cynllun wedi lleihau pob blwyddyn ers 2018/19 (4 mlynedd yn olynol). Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd (-49 uned). Tra noder bod y wybodaeth targed yn disgwyl gostyngiad rhwng cyfnod AMB 4 ac AMB 5, mae'r bwlch rhwng y ffigwr targed a'r nifer o unedau sydd wirioneddol wedi eu hadeiladu yn gymharol debyg i sefyllfa'r llynedd (-267 yn AMB 5 o'i gymharu â -276 yn AMB 4).

O'i gymharu â'r ffigwr cwblhau blynyddol uchaf ers mabwysiadu'r Cynllun, sef 2018/19, mae 250 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMB 5. Dyma'r lefel cwblhau blynyddol isaf yn ardal y Cynllun ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Gallai cynnydd mewn costau adeiladu a phrinder nwyddau adeiladu fod wedi cael effaith yn hyn o beth. Ffactor arall posib yw rhaglenni datblygu cymdeithasau tai, gyda nifer o ddatblygiadau tai gan ddarparwyr o'r fath ar ganol eu datblygu ond heb eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn. O bosib fod sgil-effeithiau pandemig Covid-19 yn parhau i fod yn ffactor wrth gymharu lefelau cwblhau tai presennol gyda'r niferoedd oedd yn amlwg cyn y pandemig.

Dylid nodi fodd bynnag bod cyfran arwyddocaol o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMB 5 yn unedau fforddiadwy (41%).

Tra bod y gwaith maes o ran y dangosydd hwn yn dangos fod gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar rhai o ddynodiadau tai'r Cynllun a hefyd bod caniatâd cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar ddynodiadau T33 ym Modedern (er bod caniatâd blaenorol ar y safle) a T56 yn Llannerchymedd yng nghyfnod yr AMB hwn, nodir bod y ffigwr cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn arwyddocaol is na'r lefel targed. Mae hyn felly yn ystyriaeth o ran y lefel sbardun. Noder nad oes caniatâd cynllunio (Ebrill 2023) yn bodoli ar gyfer nifer arwyddocaol o'r safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai h.y. 30 o'r 69 dynodiad, sef 43.5%.

O gofio'r bwlch rhwng y lefel targed (yn flynyddol ac yn gronnol) a'r hyn sydd wedi ei gwblhau mewn gwirionedd, credir fod hyn yn agwedd bydd yn rhaid ei ystyried wrth baratoi Cynlluniau newydd.

Bydd y gwaith o fonitro'r Cynllun gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Noder fodd bynnag mai rôl y Cynllun Datblygu Lleol yw darparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. Ni all y Cynllun orfodi bod y safleoedd hyn yn cael eu datblygu. Wrth baratoi Cynlluniau o'r newydd credir y dylid ail-edrych ar y gyfradd twf tai ynghyd a'r dynodiadau i'w cynnwys.

| | |
|---|---|
| Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun a safleoedd mawr eraill (5+) ble mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar eu cyfer. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur, ble nad oes dim amlwg wedi digwydd gyda hwy. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu er mwyn cynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Mae'r diweddariad i'r taflwybr tai [Gweler dangosyddion 43(A) a D43(B)] yn awgrymu cynnydd posib yn y gyfradd datblygu blynyddol yn nwy flynedd olaf o oes y Cynllun. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd, yn benodol fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth mewn perthynas â'r maes tai. | |

| **Dangosydd: D45** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15- TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** | |
| D45 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yng Ngwynedd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol | Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - 5 am 1,467 o unedau tai newydd yng Ngwynedd (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 19% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol. | AMB 1 | – | Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Gwynedd yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol |

Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:

| | Safleoedd a ddynodwyd |
|---|---|
| 2016/ 17 | 99 |
| 2017/ 18 | 144 |
| 2018/ 19 | 187 |
| 2019/ 20 | 180 |
| 2020/ 21 | 166 |
| 2021/ 22 | 166 |
| 2022/ 23 | 135 |
| 2023/ 24 | 117 |

AMB 2

AMB 3

AMB 4

<table>
<tr>
<td></td>
<td><table><tr><td>2024/ 25</td><td>102</td></tr><tr><td>2025/ 26</td><td>74</td></tr></table></td>
<td><u>AMB 5</u></td>
<td>–</td>
<td></td>
</tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yng Ngwynedd wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

| | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 99 | 70 |
| 2017/ 18 | 144 | 77 |
| 2018/ 19 | 187 | 123 |
| 2019/ 20 | 180 | 106 |
| 2020/ 21 | 166 | 49 |
| 2021/22 | 166 | 38 |
| 2022/23 | 135 | 55 |

Fe nodir fod rhai o'r dynodiadau tai wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun, yn aml ar sail eu bod yn ddynodiadau yn y cynllun datblygu blaenorol, a bod hyn yn gyfrifol ar gyfer canran arwyddocaol o'r unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau fel nodir yn y tabl uchod, yn enwedig felly yn y blynyddoedd cynnar wedi mabwysiadu.

Mae enghreifftiau o'r fath (o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMBau blaenorol) yn cynnwys safleoedd megis safle T1 Goetra Uchaf ym Mangor a safle T27 Lôn Cae Phillips yng Nghaernarfon, sef rhai o'r dynodiadau mwyaf y CDLl ar y Cyd yng Ngwynedd.

Yng nghyfnod AMB 5 noder bod unedau wedi eu cwblhau ar safle T51 ym Mhenygroes, sef safle a oedd wedi ei ddynodi yn flaenorol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd (24 uned). Tra bod gweddill yr unedau sydd wedi eu cwblhau wedi eu lleoli ar ddynodiadau o'r newydd, noder fod y gyfran o unedau sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai yn sylweddol is na'r targed.

Nid yw'r hyn sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau o'r newydd (sydd wedi eu cyflwyno yn y CDLl ar y Cyd) yn ddigonol i gwrdd â'r lefel targed a nodir yn y dangosydd. Byddai disgwyl erbyn hyn i'r dynodiadau tai ddarparu cyfran arwyddocaol o unedau tai yn flynyddol. Noder na chafodd yr un caniatâd cynllunio perthnasol ei roddi yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd yn 2022/23 ar safle sydd wedi ei ddynodi ar gyfer tai yn y CDLl ar y Cyd.

Er y cynnydd yn y nifer dai sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMB 5 ar ddynodiadau tai o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, noder fod hyn yn parhau yn sylweddol is na'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun.

O'r 27 dynodiad yng Ngwynedd nad oedd wedi eu cwblhau erbyn diwedd cyfnod yr AMB hwn, mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 9 o'r safleoedd hyn (h.y. caniatâd byw ar 31 Mawrth, 2023). Golygai hyn felly bod 18 safle wedi eu dynodi yng Ngwynedd nad sydd â chaniatâd cynllunio hyd at 31ain Mawrth 2023. Mae cyswllt yma gyda'r taflwybr tai o ran pryd yr ystyrir y bydd y dynodiadau nad sydd â chaniatâd cynllunio yn cael eu datblygu.

Mae 51.4% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yn 2022/23 wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Nodir fod hyn yn sylweddol uwch na'r gyfradd yn AMB 4 (22.5%), AMB 3 (36%) ac AMB 2 (43%). Mae'r taflwybr tai yn y Cynllun yn nodi y disgwylir i 50.1% o unedau a'u cwblheir yn 2022/23 yn ardal y Cynllun i fod ar ddynodiadau tai. Tra bod hyn yn wybodaeth bositif, noder ei fod yn amlygu cymhariaeth gyda lefel is o unedau sydd wedi eu cwblhau yn eu cyfanrwydd. Yn hyn o beth noder fod llai o dai wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yn 2022/23 nag mewn unrhyw flwyddyn ers dyddiad sail y CDLl ar y Cyd (2011). Fel noder mewn perthynas a dangosydd D44, gallai cynnydd mewn costau adeiladu, prinder nwyddau adeiladu, rhaglenni datblygu cymdeithasau tai a sgil-effeithiau pandemig Covid-19 fod wedi cael effaith yn hyn o beth.

Gan nad yw'r nifer o unedau a ddatblygir ar y dynodiadau tai yn gyson heb gwrdd â'r targedau o ran y dangosydd hwn a bod y bwlch rhwng y gwir ffigwr a'r ffigyrau targed yn rhai arwyddocaol yn y blynyddoedd diweddar, credir bod lle i ail-ystyried y safleoedd sydd yn berthnasol i'w dynodi wrth baratoi Cynlluniau newydd. Mae'n rhaid ystyried addasrwydd yr holl ddynodiadau tai yn y Cynllun o ran eu gallu i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Yn hyn o beth bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ynghyd a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Mae'r diweddariad i'r Taflwybr Tai [Dangosyddion 43(A) a 43(B)], sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp

| | |
|---|---|
| Rhanddeiliaid Tai, yn awgrymu cynnydd posib yn y ddarpariaeth ar ddynodiadau tai yn y blynyddoedd hyd at ddiwedd oes y Cynllun. | |
| **Gweithred:** | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D46** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D46 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol | Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - TAI 5 am 1,655 o unedau tai newydd yn Ynys Môn (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 21% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun<br><br>: | AMB 1 | | Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Ynys Môn yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol |
| | | AMB 2 | | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| | | **AMB 5** | | |

| | Safleoedd a ddynodwyd |
|---|---|
| 2016/17 | 8 |
| 2017/18 | 109 |
| 2018/19 | 193 |
| 2019/20 | 215 |
| 2020/21 | 248 |
| 2021/22 | 221 |
| 2022/23 | 185 |
| 2023/24 | 160 |
| 2024/25 | 176 |
| 2025/26 | 134 |

**Dadansoddiad:**

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn Ynys Môn wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

| | **Targed** | **Nifer gwirioneddol** |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 8 | 4 |
| 2017/ 18 | 109 | 49 |
| 2018/ 19 | 193 | 99 |
| 2019/ 20 | 215 | 60 |
| 2020/ 21 | 248 | 63 |
| 2021/22 | 221 | 88 |
| 2022/23 | 185 | 22 |

Nodir fod rhai o'r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun ac mae hyn wedi bod yn gyfrifol am gyfran o'r unedau a'u cwblhawyd fel nodir yn y tabl uchod. Yn wahanol i Wynedd fodd bynnag, fe nodir fod cyfnod y cynllun datblygu blaenorol ar gyfer Ynys Môn wedi dirwyn i ben ymhell cyn cyfnod y CDLl ar y Cyd. Nid oedd felly'r un dilyniant yn Ynys Môn o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu dynodi yn flaenorol yn cael eu dynodi yn y CDLl ar y Cyd.

Tra ei fod yn anorfod fod yna beth oedi rhwng mabwysiadu'r Cynllun a darparu'r unedau tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi o'r newydd, nodir fod y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn gyson yn arwyddocaol is na'r ffigyrau targed. Mae hyn yn fwy amlwg nag erioed yng nghyfnod yr AMB hwn gyda'r lefel blynyddol isaf o ran unedau wedi eu cwblhau ar y dynodiadau tai ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae lleihad sylweddol o'i gymharu â ffigwr y flwyddyn flaenorol. Tra bod y ffigwr targed yn awgrymu gostyngiad blynyddol yn dilyn 2020/21, nid yw'r nifer gwirioneddol o unedau sydd wedi eu datblygu yn agos o gwbl i'r ffigwr targed. Erbyn y cyfnod yr AMB hwn y gobaith fyddai y byddai nifer sylweddol uwch o unedau wedi eu cwblhau ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai er mwyn cwrdd ag anghenion poblogaeth yr ardal na'r hyn sydd wedi ei gyflawni mewn gwirionedd.

Mae gwaith maes mewn perthynas â'r dangosydd hwn wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o ddynodiadau, gyda caniatadau cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar rai eraill. O'r 26 dynodiad yn Ynys Môn nad oedd wedi eu cwblhau erbyn diwedd cyfnod yr AMB hwn, mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 14 o'r safleoedd hyn (h.y. caniatâd byw ar 31ain Mawrth, 2023). Golygai hyn felly bod 12 safle wedi ei ddynodi yn Ynys Môn nad sydd â chaniatâd cynllunio hyd at 31ain Mawrth 2023. Mae cyswllt yma gyda'r taflwybr tai o ran pryd yr ystyrir y bydd y dynodiadau nad sydd â chaniatâd cynllunio yn cael eu datblygu. Tra bod caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfran eithaf uchel o'r dynodiadau sy'n weddill gan

ddarparu cyfleoedd felly i ddarparu rhagor o dai ar y safleoedd hyn, noder nad yw'r hyn sydd wedi ei ddarparu hyd belled ar y safleoedd hyn yn agos o gwbl i'r ffigyrau targed.

Dim ond 11.5% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yn Ynys Môn yn 2022/23 sydd wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Mae hyn yn sylweddol is na ffigwr y llynedd sef 49.4%. Mae'r taflwybr tai yn y Cynllun yn nodi y disgwylir i 50.1% o unedau a'u cwblheir yn 2022/23 i fod ar ddynodiadau tai.

Noder fod y diffyg cynnydd o safbwynt rhai o'r prosiectau isadeiledd sylweddol arfaethedig yn Ynys Môn hefyd wedi cael effaith o ran diffyg gweithgaredd ar rhai dynodiadau tai penodol.

Nid yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am ddwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun. Mae'r nifer o unedau a'u darperir ar safleoedd o'r fath yn gyson heb gwrdd â'r targed o ran y dangosydd hwn ac mae'r ffigwr ar gyfer cyfnod yr AMB hwn yn ostyngiad sylweddol o'r flwyddyn flaenorol. Mae'n rhaid ystyried addasrwydd yr holl ddynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Credir bod lle i ail-ystyried y safleoedd sydd yn berthnasol i'w dynodi wrth symud ymlaen i baratoi Cynllun newydd. Yn hyn o beth bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Mae'r diweddariad i'r Taflwybr Tai [Dangosyddion 43(A) a 43(B)], sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, yn awgrymu cynnydd posib yn y ddarpariaeth ar ddynodiadau tai yn y blynyddoedd hyd at ddiwedd oes y Cynllun.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

**Tai Fforddiadwy**

| **Dangosydd: D47** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |

| | | SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun | Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026<br><br>Targedau adeiladu yn ystod gweddill oes y Cynllun (2015 – 2026): | AMB 1 | − | Y nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na'r targed cronnol yn y Targed Polisi |
| | | AMB 2 | − | |
| | Adeiladu 345 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018 | AMB 3 | − | |
| | | AMB 4 | − | |
| | Adeiladu 575 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020<br><br>Adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022 | **AMB 5** | − | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024<br><br>Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026 | | | |

**Dadansoddiad:**

Yn y cyfnod 2015-23 nodir fod 863 o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun.

Noder nad oes targed wedi ei nodi ar gyfer 2023 ond yn hytrach noder targed o adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024. Nid yw'n bosib felly asesu os yw'r nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na'r targed cronnol yn y Targed Polisi. Noder fodd bynnag fod y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu ers 2015 yn uwch na'r targed a roddwyd erbyn diwedd 2022, sef 805 o dai fforddiadwy ychwanegol.

Mae'r rhaniad hyn fel y ganlyn:

2015-16: 82 uned

2016-17: 68 uned

2017-18: 61 uned

2018-19: 187 uned

2019-20: 124 uned

2020-21: 104 uned

2021-22: 115 uned

2022-23: 122 uned

Tra noder nad oes targed penodol wedi ei nodi ar gyfer cyfnod yr AMB hwn, ni chredir fod angen gweithredu mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Er mwyn cyrraedd y targed a noder ar gyfer 2024 bydd angen adeiladu 172 o unedau fforddiadwy yng nghyfnod AMB 6. Er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn uwch na'r lefel sbardun (10% neu

| |
|---|
| fwy yn is na'r targed cronnol yn y Targed Polisi), bydd angen adeiladu 69 o unedau yn y cyfnod nesaf.<br><br>Noder nad yw'r nifer angenrheidiol o unedau fforddiadwy o'r newydd i gwrdd â tharged 2024 heb ei gyflawni ers 2018-19. Fodd bynnag mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ym mhob un o'r 4 blynedd diwethaf yn ddigonol i beidio gorfod ystyried y lefel sbardun.<br><br>Oherwydd yr angen i gyfiawnhau unedau fforddiadwy ar sail hyfywedd, mae polisïau'r CDLl ar y Cyd yn nodi trothwyon sydd yn aml yn is na'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol ar gyfer gofyn am ddarpariaeth fforddiadwy. Gall gymryd amser i'r polisi hwn arwain at gynnydd arwyddocaol yn nifer o unedau fforddiadwy a gaiff eu datblygu yn ardal y Cynllun. Yn hyn o beth noder fod nifer yr unedau fforddiadwy sydd wedi eu hadeiladu yn flynyddol ers 2018-19 yn arwyddocaol uwch na'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd blaenorol.<br><br>Mae'r gwaith maes ynghlwm â'r dangosydd hwn (Ebrill 2023) yn nodi bod caniatâd byw yn bodoli ar gyfer 689 o unedau fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn (377 o unedau heb eu dechrau a 312 o unedau wrthi yn cael eu datblygu). Yn unol â'r wybodaeth ai nodir yn y CDLl ar y Cyd, nodir bod 665 o'r unedau hyn yn rhai lle mae modd eu datblygu. Mae yna gyflenwad niferus o unedau fforddiadwy felly eisoes o fewn y banc tir presennol a all gyfrannu i gwrdd â'r targedau a'u nodir yn y dangosydd hwn.<br><br>Nodir hefyd fod y ffigwr o ran nifer y tai fforddiadwy sydd wedi eu darparu yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr ardal na'r hyn a nodir, gan nad yw'n cynnwys unedau tai sydd yn fforddiadwy oherwydd eu maint a'u lleoliad (ond heb eu clymu yn ffurfiol fel unedau fforddiadwy). Yn ogystal mae cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn mewn rhai datblygiadau yn hytrach na darpariaeth ar y safle. |

| **Action:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D48** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |

| | | Deilliant: | | Lefel sbardun: |
|---|---|---|---|---|
| D48 % unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai | % darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai | AMB 1 | – | % gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai y'i cyfiawnheir o dan Bolisi TAI 15 |
| | | AMB 2 | – | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Nodir fod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd lle mae'n berthnasol i ofyn am ganran o unedau fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o 2 neu ragor o unedau ac nid yw'n ystyried safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw ychwaith yn ystyried caniatâd ar safleoedd eithrio ble mae'n rhaid i'r bwriad fod ar gyfer 100% tai fforddiadwy.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble y byddai angen ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl.

Nodir fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Mae angen ystyried y wybodaeth ar gyfer 2022/23 ar y cyd a'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 4.

Tabl yn crynhoi'r wybodaeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Prisiau Tai

| Ardaloedd Pris Tai | Cyfnod | Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Gwir ddarpariaeth tai fforddiadwy (canran) | Cwrdd â'r lefel targed? |
|---|---|---|---|---|
| Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Rhosneigr | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Biwmares | 2021/22 | 30% | 0% | X |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Gogledd Orllewin Wledig | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Ardal y Pontydd | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Trearddur & Rhoscolyn | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| De Orllewin | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | 30% | 100% | ✓ |
| Gogledd-ddwyrain Wledig | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Aneddleoedd Arfordirol Mwy | 2021/22 | 30% | 62%** | ✓ |
| | 2022/23 | 30% | 70%(*) (***) | ✓ |
| Canolfannau Gwledig | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Y Canol Gwledig | 2021/22 | 20% | 17% | X |
| | 2022/23 | 20% | 20% | ✓ |
| Arfordir Gogleddol a De Arfon | 2021/22 | 20% | 86% | ✓ |
| | 2022/23 | 20% | 16%** | X |
| Gorllewin Gwledig | 2021/22 | 20% | 21% | ✓ |
| | 2022/23 | 20% | 100% | ✓ |
| Llangefni | 2021/22 | 10% | 23% | ✓ |
| | 2022/23 | 10% | 0%** | X |
| Llŷn | 2021/22 | 10% | 33% | ✓ |
| | 2022/23 | 10% | 100% | ✓ |
| Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig | 2021/22 | 10% | 19% | ✓ |
| | 2022/23 | 10% | 17% | ✓ |
| Caergybi | 2021/22 | 10% | 22% | ✓ |
| | 2022/23 | 10% | 30% | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amlwch a'r Cefnwlad | 2021/22 | 10% | 0% | X |
| | 2022/23 | 10% | 0%* | X |
| Y Mynyddoedd | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol | 2021/22 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2022/23 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Blaenau Ffestiniog | 2021/22 | 10% | 75%* | ✓ |
| | 2022/23 | 10% | 25% | ✓ |

*Cyfraniad ariannol (fforddiadwy) yn ogystal
** Unedau ychwanegol nad sydd yn fforddiadwy o safbwynt TAN 2 ond credir i fod y fforddiadwy 'drwy ddyluniad' wedi eu caniatáu yn ogystal (heb eu cyfrif i bwrpas y dangosydd hwn)
*** Nid yw'r ffigwr yn cynnwys 1 uned fforddiadwy sydd ar safle ble mae rhan o'r safle y tu fewn i'r ffin (oll yn dai marchnad agored) gyda'r uned fforddiadwy ar leoliad eithrio y tu allan i'r ffin.

Mae'n amlwg nad oes caniatâd cynllunio perthnasol wedi bod o fewn amryw o ardaloedd pris tai yng nghyfnod AMB 5 (10 allan o 21 ardal pris tai). O'r 11 ardal ble mae caniatâd perthnasol wedi ei roddi, noder nad yw 3 ardal yn cwrdd â'r targed dangosol (fel amlygir ym Mholisi TAI 15) o ran y canran cyffredinol o dai fforddiadwy a'u darperir fel rhan o ganiatadau cynllunio preswyl perthnasol yng nghyfnod AMB 5. Noder yn nau o'r ardaloedd hyn (Llangefni ac Arfordir Gogleddol a De Arfon) bod cyfran dderbyniol o'r unedau yn cael eu hystyried yn 'fforddiadwy drwy ddyluniad' ac yn yr ardal arall (Amlwch a'r Cefnwlad) fod cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn ar draul darpariaeth fforddiadwy ar yr un safle sy'n berthnasol i'w ystyried yno o ran y dangosydd hwn. Credir felly fod y wybodaeth o ran y ddarpariaeth fforddiadwy yn ystod cyfnod AMB 5 yn dderbyniol.

Os yn ystyried y lefel sbardun, sef bod canran gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, noder fod hyn yn amlwg mewn un ardal pris tai sef Amlwch a'r Cefnwlad. Fel noder uchod, mae hyn yn seiliedig ar un caniatâd perthnasol yn y cyfnod 2022/23 ac mae cyfraniad ariannol wedi ei sicrhau ar draul darpariaeth fforddiadwy ar y safle. Tra bod angen parhau i fonitro'r sefyllfa wrth baratoi Cynlluniau newydd, ni chredir felly fod angen gweithredu ar hyn o bryd. Noder fodd bynnag nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael i bob ardal ar gyfer y ddwy flynedd berthnasol.

<u>Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 30%</u>

| Cyfnod | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 4 | 36 | 21 | 58% |
| 2022/23 | 9 | 69 | 56 | 81% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 20%

| Cyfnod | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 8 | 192 | 125 | 65% |
| 2022/23 | 7 | 97 | 41 | 42% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 10%

| Cyfnod | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 12 | 135 | 35 | 26% |
| 2022/23 | 10 | 64 | 20 | 31% |

Wrth ystyried ardaloedd prisiau tai ar y cyd (ble mae'r canran o dai fforddiadwy ai geisir yn gyson), noder fod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cyd-fynd yn effeithiol â'r holl dargedau polisi h.y. gofyniad 30%, 20% a 10%. Dylid cofio hefyd bod enghreifftiau o gyfraniad ariannol wedi eu sicrhau ar draul darpariaeth fforddiadwy a hefyd bod rhai unedau yn cael eu hystyried yn 'fforddiadwy drwy ddyluniad'.

Mae'r nifer o ganiatadau cynllunio sydd yn berthnasol i'w hystyried o ran y dangosydd hwn yng nghyfnod AMB 5 (26 cais) yn debyg i'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 4 (24 cais). Fodd bynnag mae'n sylweddol is na rhai blynyddoedd blaenorol e.e. cyfnod AMB 2 (38 cais). Golygai hyn bod amryw o ardaloedd prisiau tai ble nad oes yna ganiatâd perthnasol wedi bod yn 2022/23 o safbwynt ystyried gofynion Polisi TAI 15.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

**Dangosydd: D49**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig | Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17 | AMB 1 | ✓ | Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | – | |
| | | **AMB 4** | – | |
| | | **AMB 5** | – | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

Caniatâd cynllunio ar safleoedd eithrio gwledig yn ystod cyfnod yr AMB hwn[7]:

**Ardal y Cynllun: 5 safle (33 uned)**

Pen Derwydd, Llangefni: 11 uned

Sarn, Benllech: 1 uned

Craig y Don Estate & Cherry Tree Close, Benllech: 17 uned

Tir yn Ysgubor Wen, Pwllheli: 1 uned [Yr uned hon ar leoliad eithrio (ac wedi ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16) gyda gweddill yr unedau sydd wedi eu caniatáu ar y safle wedi eu lleoli y tu fewn i'r ffin ddatblygu]

Tir Ger Tegfan, Pentreuchaf: 3 uned

[7] Caniatadau o'r newydd yn unig (nid yw'n cynnwys enghraifft o ganiatâd i ymestyn cyfnod caniatâd cynllunio a roddwyd mewn cyfnod AMB blaenorol)

Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 1 (i gyd yn 2018/19):

Ardal y Cynllun: 6 safle (24 uned)

Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 2:

Ardal y Cynllun: 4 safle (45 uned)[8]

Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 3:

Ardal y Cynllun: 3 safle (10 uned)

Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 4:

Ardal y Cynllun: 2 safle (24 uned)

Nodir fod mwy o safleoedd eithrio wedi eu caniatáu yng nghyfnod yr AMB hwn nag ers cyfnod AMB 1. Hefyd mae mwy o unedau wedi eu caniatáu ar safleoedd o'r fath nag ers cyfnod AMB 2. Mae'n debyg fod y rheswm am hyn yn gyfuniad o lai o safleoedd addas ar gael o fewn ffiniau datblygu ar sail dod i ddiwedd cyfnod y Cynllun, rhaglenni a graddfa datblygu Cymdeithasau Tai, ynghyd a chyfleoedd unigol sydd wedi cyflwyno eu hunain.

Mae'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 5 yn cyd-fynd yn effeithiol felly gyda'r hyn a nodir o ran y lefel sbardun.

Tra ei fod yn bwysig ystyried y modd mae'r Cynllun yn hwyluso darpariaeth o unedau fforddiadwy ar safleoedd eithrio, fe nodir bod ceisiadau ar gyfer safleoedd o'r fath yn rhywbeth sy'n ddibynnol ar gynlluniau penodol i ddod yn eu blaen mewn lleoliadau ble na all y galw am dai fforddiadwy gael ei gwrdd o fewn y ffin ddatblygu. Tra ei fod yn bwysig ystyried y ddarpariaeth ychwanegol o unedau fforddiadwy, credir ei fod yn bwysig ystyried hyn yng nghyswllt y ddarpariaeth fforddiadwy yn ei gyfanrwydd.

Noder fod y targed o ran y dangosydd hwn yn nodi "Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 - 2016/ 17". Nodir mai'r ffigwr o ran nifer y safleoedd eithrio a'r unedau a'u caniateir yn y blynyddoedd hyn oedd: 2015/16 (3 safle: 3 uned); 2016/17 (2 safle: 3 uned). Noder fod y wybodaeth o ran caniatadau safleoedd eithrio a roddwyd yn 2022/23, o ran y nifer o safleoedd ynghyd a'r nifer o unedau ar y safleoedd hyn, yn cymharu'n bositif a'r targed hwn. Mae'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 5 yn dderbyniol felly o'i gymharu â'r wybodaeth targed

[8] Rhai safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yna caiff y safleoedd/unedau hyn eu hystyried yn y ffigwr hwn.

| |
|---|
| Ar sail y wybodaeth uchod, ni chredir fod angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn ond credir bod angen ystyried hwyluso darpariaeth ddigonol o unedau fforddiadwy yn ardal y Cynllun wrth baratoi Cynlluniau newydd. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D50** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosib o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15 | AMB 1 | ✓ | Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol |
| | | AMB 2 | | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi TAI 15 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn adnabod 21 Ardal Pris Tai. Ers mabwysiadu'r Cynllun mae 2,464 o unedau tai wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Mae'r astudiaeth hyfywedd gwreiddiol i gefnogi'r canrannau ym Mholisi TAI 15 yn adnabod prisiau gwahanol ar gyfer tai sengl 3, 4 a 5 llofft, tai pâr 3 llofft, tai teras 2 a 3 llofft, fflatiau 1 a 2 llofft a byngalos 2 a 3 llofft.

Oherwydd y nifer isel cyffredinol o anheddau newydd sydd wedi eu gwerthu mewn rhai o'r ardaloedd prisiau tai yn ogystal â diffyg mathau penodol o dai nid yw'n bosibl cymharu prisiau tai diweddar gyda thybiaethau 2016 ar gyfer pob ardal prisiau tai.

Yn sgil hyn, fe gomisiynwyd y Cyngor gwaith er mwyn deall y newidiadau yn y costau adeiladu yn erbyn y prisiau tai cyffredinol rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 i adeiladu ar gyfer gwaith 2019, 2021 a 2022 a ymgymerwyd ag ar gyfer yr AMB 1, AMB 3 ac AMB 4.

Rhwng 2022 a 2023 bu gostyngiad bychan o 1.5% ym mhrisiau tai cyffredinol yng Ngwynedd a chynnydd bychan o 1.1% ym Môn. Ar gyfartaledd ar gyfer ardal y Cynllun mae prisiau tai wedi cynyddu o 39.6% ers 2016.

Y twf mewn prisiau yn ardal y Cynllun rhwng 2016 a 2020 oedd oddeutu 10% sydd yn dwf cymedrol o 2% y flwyddyn. Y cynnydd rhwng 2020 a 2022 oedd 30.3% tra yn y cyfnod 2022 i 2023 roedd gostyngiad o 0.2%. Yng Nghymru roedd y twf mewn cyfartaledd prisiau tai rhwng 2016 a 2020 oddeutu 4.8% y flwyddyn gyda chynnydd o 27.6% rhwng 2020 a 2022 gyda chynnydd bychan o 0.1% yn y cyfnod 2022 i 2023. Mae'r cynnydd dramatig a welir rhwng 2020 a 2022, a allai fod yn rhannol oherwydd Covid, i'w weld fel gwyriad o'r drefn tymor hir ac ar sail hyn mae angen rhoi ystyriaeth gofalus i hyn wrth fynd ymlaen i 2024 a thu hwnt.

Mewn perthynas â chostau adeiladu (ar sail newid mewn prisiau tender) mae'r rhain yn dangos cynnydd o 6.3% rhwng 2022 a 2023. Yn gyffredinol mae yna gynnydd o 26.4% yn y costau adeiladu wedi bod ers 2016.

Yn adroddiad y llynedd dywedwyd bod "... Mae'r darlun economaidd yn edrych yn eithaf llwm. Mae pryderon am chwyddiant, cyfraddau llog a lefelau dyled cyhoeddus. Mae llawer o'r dangosyddion yn pwyntio'n sylweddol tuag at facroeconomi llawer gwannach yn 2023-4 ..." Roedd hwn yn brognosis cywir oherwydd rhwng adroddiadau 2022 a 2023, mae hyfywedd wedi tynhau wrth i brisiau tai syrthio wrth i gyfraddau gynyddu costau adeiladu.

Yr hyn sy'n allweddol i hyfywedd yw'r berthynas rhwng gwerth gweddilliol a meincnod gwerth tir. Yn seiliedig ar y meincnod gwerth tir a gynhwysir yn y seiliau tystiolaeth ar gyfer amrywiaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n debyg mai tua £400,000 yw ffigwr teg ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd erbyn hyn. Mae hyn yn golygu, yn y 3 ardal ac anheddiad is farchnad uchaf, bod 40% o Dai Fforddiadwy yn hyfyw; gyda 30% yn Ganolfannau Gwledig, Y Canol Gwledig, Arfordir Gogleddol a De Arfon a Gorllewin Gwledig, a 20% i 30% yn Llangefni a Llŷn ac Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig, ac is farchnadoedd Caergybi ac Amlwch. Mae 30% o bosibl yn hyfyw yn y ddwy is farchnad hon a bydd LVBs yn debygol o fod yn is (na £400,000 yr hectar) sy'n adlewyrchu prisiau tai is. Yn yr is farchnad isaf, dylid chwilio am rhwng 10% ac 20%, gan adlewyrchu economeg datblygu wannach.

Y goblygiadau yw y gall yr awdurdodau lleol barhau i amddiffyn eu sefyllfa polisi yn gadarn (yn seiliedig ar welliannau sylweddol mewn hyfywedd ers 2016). Fodd bynnag, gall fod yn wir y bydd safleoedd a brynwyd yn 2021 a 2022 yn anodd gan y bydd y pris caffael tir hanesyddol yn uchel o'i gymharu â heddiw. Gallai hyn beri i dirfeddianwyr ddal safleoedd yn ôl rhag dod ymlaen.

Wedi deud hyn mae'r cyflenwad tai (ar draws Cymru a Lloegr) yn parhau i fod yn dynn, a fydd yn hybu prisiau tai i ryw raddau.

Mae'r rhan fwyaf o sylwebwyr yn rhagweld cwymp ym mhrisiau tai eleni, ac yna cywiriad ar gyfer 2024 a thu hwnt.

Felly, fel o'r blaen, y safbwynt ar bapur felly yw y gall y Cyngor gynnal ei bolisïau cyfredol mewn trafodaethau safle-benodol, yn amodol ar amgylchiadau unigol y safle wrth gwrs.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd astudiaethau hyfywedd manwl yn cael eu cynnal gan yr awdurdodau unigol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd. | |

| |
|---|
| **Dangosydd: D51** |
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro. |

**Lleoliad Tai (Rhan 2)**

| **Dangosydd: D52** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D52 Nifer o unedau tai marchnad leol a gaiff eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosibl o dai marchnad leol mewn aneddleoedd a restrir ym Mholisi TAI 5. | AMB 1 | | Llai na 10 o unedau tai marchnad leol yn cael eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 mewn unrhyw flwyddyn unigol |
| | | AMB 2 | | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| | | **AMB 5** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

**2022/23: 3 uned marchnad lleol wedi eu cwblhau**

Er nad yw'n cwrdd â'r lefel targed, noder mai dyma'r nifer uchaf o unedau marchnad lleol sydd wedi eu cwblhau mewn cyfnod AMB ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd.

Noder hefyd bod caniatâd wedi ei roddi ar gyfer 4 o unedau marchnad lleol yng nghyfnod yr AMB hwn (4 caniatâd cynllunio gwahanol).

Nodir bod caniatâd byw yn bodoli am 6 uned marchnad lleol (ar 31/3/23). Gan gynnwys yr unedau sydd wedi eu caniatáu yng nghyfnod yr AMB hwn, noder bod 4 uned o'r fath wedi eu cwblhau fel cyfanswm.

Mae amod cynllunio ynghlwm a tri chaniatâd arall (ar gyfer cyfanswm o 8 uned) ble ceir amod gyda'r caniatâd cynllunio sydd yn nodi fod yn rhaid i'r unedau fod yn unai rhai marchnad lleol neu fforddiadwy.

Tra na fyddai'r gyfradd hon o ganiatadau yn arwain at gwrdd â'r lefel targed, noder bod y nifer o unedau marchnad lleol sydd wedi eu cwblhau a'u caniatáu (o ran y nifer o unedau a chaniatadau) yng nghyfnod yr AMB hwn yn uwch nag yn unrhyw gyfnod blaenorol.

O gofio bod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol, mae awgrym fod y gofyniad polisi yn dechrau cael gwir effaith. Credir fod oediad amser wedi bod rhwng mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, derbyn egwyddor polisi sydd yn hollol o'r newydd yn yr aneddleoedd perthnasol ac yna adeiladu tai o'r fath. O bosib bod yna awgrym yng ngwybodaeth AMB 5 bod gofyniad y polisi yn dechrau cael ei dderbyn yn fwy eang gan y cyhoedd a'r sawl sydd yn datblygu tai. Byddai asesiad o'r sefyllfa mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol yn gallu cadarnhau hyn ai peidio.

Gobeithir y bydd cynnydd pellach yn nifer yr unedau o'r fath sydd yn cael eu hadeiladu a'u caniatáu wrth i'r egwyddor polisi cael ei sefydlu a'i dderbyn ymhellach. Tra'i bod yn bwysig fod darparu tai newydd o'r fath yn cael ei wneud er mwyn cwrdd ag anghenion y cymunedau lleol, mae'r polisi yn amlwg wedi cyfyngu ar ddatblygiadau hapfasnachol yn y lleoliadau sydd a'r problemau mwyaf dwys o ran y farchnad dai.

Bydd yn bwysig fodd bynnag ystyried agweddau mewn perthynas â hybu mwy o ddatblygiadau tai marchnad lleol fel rhan o Gynllun newydd er mwyn sicrhau fod y polisi mor effeithiol â phosib o ran diwallu anghenion tai lleol.

Ar sail yr uchod ni chredir fod angen unrhyw weithrediad ar hyn o bryd o safbwynt y dangosydd hwn. Byddai asesiad pellach o'r polisi hwn yn bwysig fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynlluniau newydd. Yn hyn o beth byddai'n bwysig, er enghraifft, diweddaru'r sail dystiolaeth gan o bosib ystyried ffynonellau eraill o dystiolaeth yn ogystal. Mae angen cynnal ymchwil hefyd i ddeall y rhesymau dros y nifer isel o unedau marchnad leol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u datblygu gan gynnwys unrhyw agweddau newydd a rhwystrau sydd wedi eu hamlygu ers cyflwyno'r polisi. Rhaid sicrhau drwy hyn bod tystiolaeth gadarn i gefnogi'r Polisi.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D53** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D53 Ceisiadau cynllunio ac apeliadau i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amod ar gyfer tai marchnad lleol | Cadw cytundebau 106 ac amodau i hyrwyddo adeiladu tai marchnad lleol yn unol â Pholisi TAI 5 | AMB 1 | ✓ | Cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol yn cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (fel bo’n berthnasol) mewn unrhyw flwyddyn | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | AMB 3 | ✓ | | |
| | | AMB 4 | ✓ | | |
| | | AMB 5 | ✓ | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

Nid oes yr un cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau adran 106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol wedi cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (yng nghyfnod yr AMB hwn nag ychwaith ers mabwysiadu'r Cynllun).

Yn unol â Deddf Cynllunio 1990 gellir apelio ymrwymiad cynllunio i'r Arolygaeth Cynllunio ar ôl 5 mlynedd ar sail nad oes rheswm cynllunio perthnasol ar ei gyfer. Cyn hynny fe ellir ail-negodi ymrwymiadau cynllunio os yw'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr yn cytuno i hynny. Fodd bynnag o gofio bod unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tŷ marchnad lleol yn seiliedig ar bolisi yn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd yn 2017, mae'n annhebygol iawn y byddai Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i ddiwygio neu gael gwared ag amod/chytundeb 106 sy'n ymwneud a chyfyngu eiddo i fod yn dŷ marchnad leol.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

**Dangosydd: D54**

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro.

**Asesiad Marchnad Tai Lleol**

**Dangosydd: D55**

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro.

**Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Comisiynodd y ddau Gyngor ARC 4 i helpu i gynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2022 (GTAA), cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023.

Nododd y GTAA yr angen preswyl canlynol o fewn ardal y cynllun:

| **Awdurdod Lleol** | **Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) i 2025** | **Angen heb ei ddiwallu (cyfnod y cynllun) i 2036 sy'n cynnwys targed 2025** |
|---|---|---|
| Gwynedd | 7 | 11 |
| Ynys Môn | 9 | 11 |

Yn ogystal, nodwyd yr anghenion tramwy canlynol:

- Safle o hyd at 10 llain ar gyfer carafanau yn ganol Ynys Môn;
- Safle ar gyfer nifer fach, o hyd at 3 carafán yn agos at derfynfa fferi Caergybi;

- Dim safle pellach yng Ngwynedd gan fod yna le stopio ar gael yng Nghaernarfon yn barod.

Gan na fydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025 ar gyfer y naill awdurdod neu'r llall bydd yn rhaid cyflawni unrhyw angen a nodwyd erbyn 2025 drwy Bolisi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd TAI 19 'Safleoedd ar gyfer Lleiniau Parhaol neu Deithiol neu Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr'.

Ynys Môn

Cytunwyd ar y GTAA gan Arweinydd Cyngor Ynys Môn dan bŵer dirprwyedig ym mis Mawrth 2023. Cyflwynodd Ynys Môn yr adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru fel y'i derbyniwyd gan Ynys Môn ar 31 Mawrth 2023 ac mae bellach yn gweithio i gynllun gwaith sy'n adlewyrchu'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad terfynol.

Mae'r Cyngor nawr yn gweithio i gyflawni argymhellion Asesiad 2022.

Ers Asesiad 2022 bu newid yn yr angen ar y safle a oddefir heb awdurdod yn Lôn Pentraeth gyda'r aelwyd a nodwyd yn yr astudiaeth wedi symud o'r safle. Fodd bynnag, mae dwy aelwyd newydd wedi symud i mewn ac wedi meddiannu'r safle wedi'i oddef.

Er bod Asesiad 2022 wedi nodi angen preswyl am 7 llain erbyn 2025 a dau arall erbyn 2036 mae'r GTAA yn nodi bod hyn yn angen posibl gan aelwydydd mwn brics a morter a mewnfudwyr. Yng ngoleuni hyn, mae'r GTAA yn nodi ymhellach y dylid ystyried unrhyw geisiadau am safleoedd drwy'r broses cynllun datblygu ac na chynigir bod angen dyraniad tir penodol ar gyfer caeau preswyl ar hyn o bryd gan fod y rhai mewn angen yn cael eu cartrefu ar hyn o bryd.

Yn flaenorol, yn dilyn proses ymgynghori, dewiswyd y safle ger Star fel safle addas ar gyfer angen dros dro ar gyfer canol Ynys Môn a chafodd ganiatâd cynllunio yn 2018. Canfuwyd bod costau'r cynllun yn sylweddol, felly mae atebion a ffynonellau cyllid yn dal i gael eu harchwilio. Mae'r Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2022 yn awgrymu bod yna angen safle tramwy hyd at 10 llain yng nghanol yr ynys i ddal hyd at 20 o garafanau yn seiliedig ar batrymau hanesyddol o deithio i'r gwaith a gweithgaredd gwersylla anawdurdodedig.

Nododd yr Asesiad hefyd fod angen ardal stopio dros nos yng Nghaergybi i deithwyr Gwyddelig sy'n defnyddio fferïau, mae'r potensial i ddefnyddio maes parcio'r cyngor yn cael ei archwilio.

Gwynedd

Mae'r GTAA yn dal angen cael ei gytuno gan Gyngor Gwynedd.

Mae angen preswyl o 7 llain erbyn 2025 wedi'i nodi yn y GTAA. Gan na fydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025, bydd angen cyflwyno'r angen hwn trwy Bolisi TAI 19 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Ni nododd yr GTAA angen am safleoedd tramwy ychwanegol o fewn Gwynedd.

**Dangosydd: D56**

<table>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="3">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="3">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br><br>Prif ganlyniadau:<br><br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D56 Nifer o leiniau Teithwyr ar gyfer llety preswyl a ddarperir ym Mhenhesgyn, Ynys Môn.</td><td rowspan="5">Darparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="5">Methiant i ddarparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Nododd GTAA 2022 1 aelwyd ar safle oddefedig Lôn Pentraeth Ynys Môn gyda'r aelwyd hon yn ceisio adleoli i frics a morter. Erbyn mis Mawrth 2023 roedd yr unigolyn hwn wedi symud o'r safle, fodd bynnag, roedd 2 aelwyd newydd wedi symud i mewn ac wedi meddiannu'r safle a oddefwyd.

Er nad oes bwriad cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle Penhesgyn mae Cyngor Ynys Môn yn parhau i ddarparu cymorth i unigolion sy'n byw ar safle Lôn Pentraeth, boed hynny'n rhai tymor byr neu hir.

**Gweithred:**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i geisio datrys anghenion llety'r safle anawdurdodedig ar Lôn Pentraeth.

| **Dangosydd: D57** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. | | |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br><br>**Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D57 Nifer o leiniau Sipsiwn ychwanegol a ddarperir ar estyniad i'r safle Sipsiwn presennol, | Darparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw | AMB 1 | – | Methiant i ddarparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol |
| | | AMB 2 | – | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor | Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Darparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 | AMB 3<br>AMB 4<br>**AMB 5** | –<br>–<br>– | Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Methiant i ddarparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 |

**Dadansoddiad:**

Mae 5 llain ychwanegol wedi'u darparu gyda chyfanswm o 12 llain barhaol bellach ar gael i Sipsiwn oedd i gyd wedi'u meddiannu ym mis Mawrth 2023.

Mae adroddiad GTAA 2022 yn nodi angen preswyl o 7 llain erbyn 2025 gyda 4 arall erbyn 2036. Mae darparu 5 llain ychwanegol yn ogystal ag uwchraddio'r lleiniau presennol ar safle Sipsiwn yn ystâd ddiwydiannol Llandygai yn golygu nad oes tir ychwanegol ar gael i ehangu'r safle hwn ymhellach. Gan na fydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025, bydd yn rhaid darparu'r 7 llain sydd eu hangen erbyn 2025 trwy Bolisi TAI 19 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D58** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |

<table>
<tr><td></td><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br><br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D58 Yr angen am lain ychwanegol wedi’i nodi mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)</td><td rowspan="5">Darparu nifer a math o leiniau i ymdrin â’r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="5">Methiant i ddarparu nifer a math o lain ychwanegol i ymdrin â’r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Mae Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022 yn nodi'r angen am safleoedd tramwy, un yn ardal Caernarfon yng Ngwynedd a dau safle ar Ynys Môn - un yng nghanol Ynys Môn a'r llall yng Nghaergybi. Ar gyfer safleoedd Ynys Môn, dylai'r safleoedd yng nghanol Ynys Môn allu cyfarch hyd at 10 llain, a hyd at 3 carafán yng Nghaergybi.

Gwynedd

Ar gyfer cyfarch yr angen am safle dros dro o fewn ardal Caernarfon mae'r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r Sipsiwn / Teithwyr.

Ynys Môn – Canol yr Ynys

Mae nodi llwybrau cyllido ar gyfer datblygu safle STAR yn parhau. Yn y cyfamser gellir defnyddio Parcio a Theithio Gaerwen pan fydd yr angen yn codi fel mesur dros dro a threfnir cyfleusterau priodol pan fydd galw am ddefnyddio'r safle.

Ynys Môn – Caergybi

Mae canlyniadau GTAA 2022 yn datgan fod angen safle stopio dros dro yng Nghaergybi. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r gwasanaeth Hamdden i bennu hyfywedd defnyddio Meysydd Parcio Tir y Cyngor. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y cynllun gwaith o ganlyniad i'r GTAA a bydd yn cael ei adolygu'n barhaus i bennu cynnydd.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | |

| **Dangosydd: D59** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br><br>**Prif ganlyniadau**:<br><br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai; |

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="3">
<ul>
<li>bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;</li>
<li>bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;</li>
<li>bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D59 Nifer o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod yr adroddir arnynt yn flynyddol a hyd yr arhosiad</td><td rowspan="5">Monitro newidiadau yn yr angen am leiniau a chymharu â chyflenwad o leiniau yn y cyfnod rhwng yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="5">Nifer o wersylloedd a hyd yr arhosiad yn awgrymu angen am leiniau ychwanegol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Ar Ynys Môn, mae un safle a oddefir heb awdurdod yn Lôn Pentraeth o hyd.

Mae safleoedd gwersylla anawdurdodedig eraill yn ystod y flwyddyn hon ar Ynys Môn yn cynnwys:

| **Safle** | **Carafanau** | **Dyddiad Cyrraedd** | **Dyddiad Gadael** | **Nifer o Ddyddiau** |
|---|---|---|---|---|
| Parc Busnes Bryn Cefni, Llangefni | 2 | 15.07.22 | 24.7.22 | 10 diwrnod |

Mae'r gwersyll anawdurdodedig canlynol yn ystod y flwyddyn yng Ngwynedd yn cynnwys:

| **Safle** | **Carafanau** | **Dyddiad Cyrraedd** | **Dyddiad Gadael** | **Nifer o Ddyddiau** |
|---|---|---|---|---|
| Encilfa Ffordd Caernarfon, Bangor | 1 | 13.10.22 | 13.01.23 | 93 diwrnod |
| Safle parcio, Criccieth | 1 | 13.09.22 | 14.09.22 | 2 diwrnod |
| Maes Chwarae Bodawen, Porthmadog | 2 | 12.08.22 | 14.08.22 | 3 diwrnod |

| |
|---|
| O adolygu'r sefyllfa, nid oes dim yn peri pryder ar hyn o bryd. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol i weld os oes patrymau tebyg yn digwydd i'r dyfodol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn yn y Cynlluniau newydd. | |

## 6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

### Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D60</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO17</td><td colspan="4">Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol</td><td rowspan="5">Cynnal neu wella gwerth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth safleoedd sy'n bwysig yn lleol yn unol â Pholisi AMG 5 a Pholisi AMG 6</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="5">Caniatáu un cais yn groes i Bolisi AMG 5 neu Bolisi AMG 6.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Ar ôl archwilio'r ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt, nid yw'n ymddangos fod unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo yn groes i bolisïau AMG 5 ac AMG 6 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Ymddengys fod y polisïau yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D61</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO17</td><td colspan="4">Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td>D61 Nifer o geisiadau cynllunio</td><td>Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2">Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd | sy'n niweidiol i werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Cymeradwywyd cyfanswm o 5 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol). Dyma fanylion y 5 cais:

1. HHP/2022/133 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Melin Cadnant.
2. C22/0676/15/LL - Ail-wynebu ac ail-drefnu meysydd parcio y Glyn gan gynnwys creu llwybr cerdded hygyrch gydag arwyneb tarmac a gosod wyneb system celloedd graean o fewn yr ardaloedd parcio - Maes Parcio, Y Glyn, Llanberis.
3. C22/0832/18/LL - Codi bwrdd dehonghli - Quarry Hospital, Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Caernarfon.
4. C22/0870/37 – Cais llawn i uwchraddio safle radio presennol trwy ymestyn twr 5m, gosod 2 antena ar y twr, gosod 2 disgl 0.3mm, gosod cabinet gyda cabinet mesurydd cysylltiol ynghyd a datblygiadau cysylltiol - Trefor Eifl Road, Llithfaen.
5. C23/0077 - Cais cynllunio llawn (diwygiad i ganiatad cynllunio C22/0676/15/LL) i alluogi defnyddio 9 bae Cartref Modur ar gyfer defnydd arhosiad byr dros nos ar safle Maes Parcio 2 Llanberis.

Ni ystyriwyd fod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn amharu ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir fod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| Dangosydd: D62 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr sy'n niweidiol i harddwch naturiol AHNE. | AMB 1 | ✓ | Caniatawyd un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 a Pholisi AMG 1 |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio am ddatblygiad mawr o fewn yr ardaloedd AHNE yn ystod y cyfnod monitro. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | | | | |

**Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth**

Yn ystod cyfnod AMB5 mabwysiadwyd Canllaw Cynllunio Atodol - Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru (Mabwysiadu Medi 2022) ac mae ystyriaeth cynllunio materol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

| Dangosydd: D63 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D63 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir mewn Ardaloedd | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 20 neu Bolisi AT 1 |
| | | AMB 2 | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy’n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol | sy’n niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Ni chymeradwywyd cais cynllunio o fewn STB ‘Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward’. Cymeradwywyd 54 cais o fewn STyB 'Dirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru', a chyfanswm o 85 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardal Gadwraeth y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys newid defnyddiau, anhedd newydd, trosi adeiladau, addasiadau ac estyniadau. Ystyrir fod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â Pholisïau PS 20 ac AT 1 a bod y polisïau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

| **Dangosydd: D64** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D64 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun | AMB 1 | – | Peidio mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | AMB 2 | – | |
| | | AMB 3 | – | |
| | | AMB 3 | – | |
| | | **AMB 5** | – | |

**Dadansoddiad:**

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cychwynnol yn ymwneud â pharatoi'r CCA wedi digwydd. Fodd bynnag, gyda chyhoeddiad NCT 24 (Yr Amgylchedd Hanesyddol) a nifer o gyhoeddiadau canllaw gan CADW, ystyrir nad oes bellach angen CCA penodol ar y mater hwn. Hefyd, bod y Canllaw Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru mabwysiedig yn amlinellu sut fyddai Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn rheoli'r Safle yn y dyfodol, drwy warchod ein treftadaeth a thrwy sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a phriodol. | |
| **Gweithred:** | |
| Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i baratoi Canllaw wrth baratoi'r Cynlluniau newydd. | |

**Rheoli Gwastraff**

| **Dangosydd: D65** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** |
| D65 - Faint o dir a chyfleusterau sydd eu hangen i ymdrin â gwastraff yn ardal y Cynllun | Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ymdrin â gwastraff ardal y Cynllun (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff TAN 21) | AMB 1 | ✓ | Y trothwyon i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN21 |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Gwastraff Gogledd Cymru, 2020, nid oes angen darparu cyfleuster tirlenwi newydd ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus neu sy'n anadweithiol yn rhanbarth Gogledd Cymru, a rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gael gormod o ddarpariaeth wrth ymdrin â chynigion pellach i ddatblygu cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth.<br><br>Yn unol â gofynion TAN 21, rhaid cwblhau Adroddiadau Monitro Gwastraff er mwyn adnabod a oes capasiti digonol ar gyfer trin gwastraff a thirlenwi yn y rhanbarth; p'un a yw'r ddarpariaeth ofodol yn ddigon i ddiwallu'r angen; a ph'un a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol weithredu camau angenrheidiol i ddiwallu unrhyw faterion nas ragwelwyd, ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu trosolwg strategol o dueddiadau yn y sector gwastraff i gyfrannu at y CDLl a darparu arweiniad wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio gwastraff. | | | | |
| **Gweithredu:** | | | | |
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. | | | | |

| Dangosydd: D66 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** |
| D66 - Nifer y ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1. | Cynnydd yn nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff a ddarperir ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017. | AMB 1 | ✓ | Dim ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1. |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | AMB 3 | ✓ | |
| | | AMB 4 | ✓ | |
| | | **AMB 5** | ✓ | |

**Dadansoddiad:**

Un caniatâd cynllunio i godi adeilad ar gyfer cynnal a chadw cerbydau a storio offer cysylltiedig â 3 cais diwygio amod er mwyn:

1. Cynyddu'r uchafswm blynyddol o wastraff a gynhyrchir
2. Caniatáu estyniad pedair blynedd ar gyfer cwblhau gweithrediadau mwynau a blwyddyn arall ar gyfer cwblhau'r gwaith adfer.
3. Caniatáu estyniad pedair blynedd i ddefnyddio lagwnau mewn cysylltiad â'r gwaith mwynau a blwyddyn arall ar gyfer cwblhau'r gwaith adfer.

Mae hynny'n cymharu â dau ganiatâd cynllunio sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth yn ystod cyfnod AMR3 ac un caniatâd yn ystod AMR1.

Ystyrir bod Polisïau CYF 1 a GWA 1 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

**Gweithredu:**

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

**Mwynau**

| Dangosydd: D67 | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS 22, MWYN 6 |

| | | Deilliant: | Lefel sbardun: |
|---|---|---|---|
| D67 – Swm yr agregau cynradd a enillwyd o’r tir a ganiateir yn unol â’r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau, wedi’i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MNCT) | Cynnal cyflenwad o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22. | AMB 1 ✓<br>AMB 2 ✓<br>AMB 3 ✓<br>AMB 4 ✓<br>**AMB 5** ✓ | Y cronfeydd agregau cerrig mâl yn disgyn islaw 12 mlynedd yn ardal y Cynllun |

**Dadansoddiad:**

Ar ddiwedd 2016 roedd 42.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gyfer creigiau mâl yn weddill, sydd ymhell dros y lefel trothwy (Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016)). Mae’r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o’r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd.

Mae pob adolygiad o’r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer carreg fâl (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Mae’r ardaloedd a ffafrir ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 o’r CDLl ar y Cyd yn fwy na’r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â’r ddarpariaeth angenrheidiol sydd wedi ei adnabod yn y Ail Datganiad Technegol Rhanbarthol.

**Gweithred:**

Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D68</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO19</td><td colspan="4">Diwallu anghenion mwynau’n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 22, MWYN 6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D68 – Cyflenwad tir tywod a graean yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="5">Cynnal cyflenwad o leiaf 7 mlynedd o dywod a graean drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="5">Y Cronfeydd tywod a graean yn disgyn islaw 9 mlynedd.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Roedd gan Ogledd Cymru oddeutu 15.70 miliwn o dunelli metrig o dywod a graean yn weddill ar ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn yn 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant dros 10 mlynedd, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn eu llythyr egluro polisi CL-04-14 mae hyn yn gyfwerth â banc tir o 21.8 mlynedd.<br><br>Mae’r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o’r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o’r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 22 mlynedd, ar gyfer tywod a graean (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Tra bod y banc tir tywod a graean ar gyfer ardal y Cynllun yn is na’r trothwy 7 mlynedd, mae’r ardaloedd a ffafrir sydd wedi eu hadnabod ym Mholisi MWYN 2 o’r CDLl ar y Cyd yn fwy na’r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â’r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
</table>

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D69</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO19</td><td colspan="4">Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS 22, MWYN 6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="5">D69 – Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa mwynau</td><td rowspan="5" colspan="2">Dim caniatáu datblygiad o fewn clustogfa mwynau a fyddai'n arwain at sterileiddio'r adnodd mwynau, oni mai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 5.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="5">Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 5.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 5</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Rhoddwyd 14 o ganiatadau cynllunio ar safleoedd sydd o fewn glustogfa mwynau. Mae'r mathau o ganiatadau yn amrywio o fod yn ddatblygiadau deiliaid tŷ, datblygiad amaethyddol, datblygiadau ynni ac ceisiadau yn gysylltieidig hefo'r defnydd mwynau.<br><br>Ni roddwyd caniatâd Cynllunio o fewn clustogfa mwynau sydd yn groes i Bolisi MWYN 5. Gan hynny ystyrir fod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd.</td></tr>
</table>

## PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION

4.1 Fel gyda AMB blaenorol, bydd AMB5 yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer y dangosyddion er mwyn galluogi'r Cynghorau i gymharu gwybodaeth yn y dyfodol ac i adnabod unrhyw dueddiadau. Mi fydd AMB5 ynghyd a'r AMB blaenorol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd.

4.2 Ar y cyfan fe ystyrir bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y fframwaith monitro. Ble nad yw targedau wedi eu cwrdd, mae hyn ar sail ffactorau sydd i raddau helaeth y tu allan i reolaeth y CDLl ar y Cyd. Fel sydd wedi ei nodi uchod, bydd yn rhaid ystyried y ffactorau hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. Er fod yna faterion lle mae angen gwaith pellach a fod angen edrych eto ar y polisïau mae rhaid dilyn y broses statudol o baratoi Cynllun newydd a chasglu sail tystiolaeth cadarn i gefnogi unrhyw newidiadau i bolisi.

4.3 Mae'r nifer o dai sydd wedi cael ei gwblhau yn ardal y Cynllun ers dyddiad cychwyn y Cynllun (2011) yn is na'r ffigwr disgwyliedig. Ma nifer o rhesymau am hyn gan gynnwys, twf economaidd ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyliedig, dydi prosiectau isadeiledd ar raddfa mawr ddim wedi dod yn ei flaen, ac o ganlyniad i'r pandemig a olygir fod y galw am dai mewn rhai ardaloedd o'r Cynllun ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyliedig.

4.4 Rhoddwyd caniatâd i 931 o dai fforddiadwy ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2017 efo 163 o rhain yn cael caniatâd yn 2022-23. Cwblhawyd 713 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod 2017-23. Cwblhawyd 122 o unedau tai fforddiadwy yn ysod y cyfnod yr AMB yma sydd yn gynnydd bychan o'i gymharu o'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun ac felly mae'r ddarpariaeth o dai sy'n fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr hwn. O'r unedau a gafodd ganiatâd am y tro cyntaf a'u cwblhau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae canran y tai fforddiadwy tua 48%. Mae hyn yn golygu bod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma wedi darparu canran uchel o dai fforddiadwy, gan sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cwrdd ac mae hyn yn helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

4.5 Ar y cyfan mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau o dan yr amgylchiadau. Ble nad yw targedau polisi yn cael eu cwrdd, mae hyn, ar y cyfan, yn seiliedig ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth y CDLl ar y Cyd, er enghraifft, dangosyddion sydd yn ymwneud â Wylfa Newydd. Bydd goblygiadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o baratoi Cynlluniau newydd. Ble na fo targedau polisi eraill yn cael eu cyflawni, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu'r polisi. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried wrth i'r Cynghorau baratoi'r sail tystiolaeth ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd. Er y newidiadau cyd-destunol, fe ystyrir fod polisïau'r CDLl ar y Cyd yn parhau'n berthnasol ac yn darparu fframwaith gynllunio gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ar draws ardal y Cynllun. Mae'r pwyntiau isod yn amlygu sut mae'r Cynllun yn parhau i gyflawni er budd yr ardal:

- Nodir nad oes unrhyw un o'r polisïau yn methu a chyflawni amcanion y Cynllun. Fodd bynnag, nodir fod 13 dangosydd yn adnabod fod y polisi ddim yn cael ei weithredu mor effeithiol a ddisgwyliwyd. Mae'r rhan helaeth o'r dangosyddion hyn yn ymwneud a methu a chyrraedd y twf disgwyliedig, e.e. tir cyflogaeth, ynni adnewyddol a lefel twf tai. Fel y nodir yn yr AMB, mae'r methiant hyn yn gysylltiedig â datblygiadau isadeiledd mawr/prosiectau isadeiledd cenedlaethol a ragwelwyd wrth baratoi'r Cynllun ddim yn dod yn eu blaen a chan hynny nid yw'r targed twf disgwyliedig wedi ei gyfarch.

- Cafodd 8 cais ei wrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a cafodd 13 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.
- Mae rhai datblygiadau yr adroddwyd arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd wedi cefnogi polisïau a strategaeth y cynllun efo penderfyniadau apêl sydd wedi'u caniatáu'n ddim yn tanseilio polisïau CDLl ar y Cyd.
- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 315 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2022-23. Roedd 163 uned (52%) ar gyfer tai fforddiadwy.
- Mae 122 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn 2022-23.
- Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2023 yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan eithrio unedau mae'r CDLl wedi nodi sydd yn annhebygol o gael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun yn 2096 o unedau (1,452 heb ddechrau a 644 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 665 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (353 o unedau heb ddechrau a 312 uned wrthi yn cael eu hadeiladu).
- Nodir bod 4569 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2022/23, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigwr o 5663 o unedau hyd at y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 19.3% (1094 uned) yn is na'r ffigur yn y taflwybr. Mae rhan o'r diffyg hwn yn deillio o'r oedi wrth weithredu prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun. Mae taflwybr diwygiedig wedi ei baratoi ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun ar sail gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 5 ynghyd a mewnbwn gan Grŵp Rhanddeiliaid Tai.
- Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio na phenderfyniadau apêl i addasu neu ddileu cytundebau neu amodau S106 ar gyfer tai marchnad leol wedi'u cymeradwyo na'u caniatáu (yn ystod y cyfnod AMB hwn nac ers mabwysiadu'r Cynllun).
- Mae cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi ei ddiogelu wedi'u cefnogi gan y polisïau yn y Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae'r dangosyddion a gynhwysir o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisi.

4.6 Bydd y CDLl ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a nodwyd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd. Bydd ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i casgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wrth baratoi'r sail tystiolaeth fydd yn cefnogi polisïau y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd.

## Atodiad 1: Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

### 1. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

1.1 Roedd y CDLl ar y Cyd yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Bu i'r AC ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Diben yr AC oedd arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i AC y CDLl ar y Cyd adnabod 11 o amcanion a 29 o ddangosyddion sydd wedi'u bwriadu i fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.

1.2 Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd a'i bod wedi tynnu sylw at ddangosyddion posib yn unig. Canfu'r broses monitro bod cyfle i wella'r dasg o fonitro'r AC i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un dangosydd yn cael ei ddileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn nodi'n glir lle nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu yn amherthnasol. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl fel y gellir monitro'n ddefnyddiol.

1.3 Mae nifer o Ddangosyddion AC lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Mae goblygiadau’r pandemig Cofid hefyd wedi golygu nad yw rhai mathau o wybodaeth wedi bod ar gael. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain, o reidrwydd, am fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi'u cadw er mwyn darparu gwaelodlin, gwneir gwaith pellach mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf i bennu p'un a oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael.

1.4 Dylid nodi nad yw'r system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLl wedi'u defnyddio wrth Fonitro'r AC. Mae nifer o'r amcanion AC o natur ddyheadol ac i raddau mae'n wybodaeth fyddai'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLl ei hun fyddai'r unig ffactor i'w ystyried wrth gyflawni'r nodau. Nid yw'r Monitro AC yn cynnwys Targedau fel y cyfryw, yn wahanol i Fonitro'r CDLl, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwadau mewn system sgorio goleuadau traffig.

1.5 Gan mai hon yw'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd y ffocws ar asesu’r newidiadau sydd wedi digwydd i bob dangosydd AC ers y pedwerydd AMB y CDLl. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol ac mae sylwadau i'w cael o dan bob amcan AC sy'n disgrifio'r cynnydd. Mae pob Amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, ac mae'r casgliadau wedi'u nodi yn y rhannau isod. Mae'r lliwiau isod wedi'u defnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

| Lliw | Effaith |
|---|---|
| ✓ | Effeithiau positif |
| +/- | Effeithiau cymysg |
| x | Effeithiau negyddol |
| 0 | Niwtral / Data ddim ar gael |

**Crynodeb Monitro AC**

1.6 Mae Tabl 1 yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau'r Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd. Cynhwysir crynodeb o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 1.7.

| **Tabl 1: Monitro Arfarniad Cynaladwyedd – Crynodeb** | | |
|---|---|---|
| | **Amcanion** | **Canlyniad** |
| **1** | Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth | ✓ |
| **2** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol | **0** |
| **3** | Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | ✓ |
| **4** | Cadw, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg | **X** |
| **5** | Cadw, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | ✓ |
| **6** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | ✓ |
| **7** | Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol | ✓ |
| **8** | Gwerthfawrogi, cadw a gwella tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun | ✓ |
| **9** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff | ✓ |
| **10** | Cefnogi a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi | ✓ |
| **11** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd | ✓ |

**Crynodeb o'r Canlyniadau**

1.7 Mae canlyniadau'r monitro Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer 9 amcan, effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan efo 1 amcan gydag effaith negyddol. Mae'r canlyniadau'n welliant ar canfyddiadau'r AMB blaenorol yn y ffaith fod yna gynnydd o 2 yn y nifer o effeithiau cadarnhaol. Fodd bynnag oherwydd fod canlyniadau'r Cyfrifiad 2021 ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn dangos gostyngiad mae 1 amcan wedi cael ei adnabod fel cael effaith negyddol. Dengys y tabl bod cynnydd yn cael ei wneud, wrth gydbwyso popeth, gyda mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, yn erbyn yr amrediad o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad y dangosyddion:

| Amcan AC 1: Bioamrywiaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl. | Gostyngiad | 2021/2022 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad. | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr | Cynnydd | 2021/2022 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/lleol) | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd. | Gwelliant | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 6) Nifer ac arwynebedd SINCs a GNL o fewn y Cynllun. | Cynnal/Cynnydd | 2021/2022 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| 1) Cymeradwywyd cyfanswm o 5 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol); roedd y rhain fel a ganlyn: | | | | |

- ADV/2022/4 – Cais i godi bwrdd dehongli treftadaeth yn Ynys Lawd, Caergybi. Dim gwrthwynebiad gan CNC a ni fyddai'n cael effaith andwyol ar ACA, AGA a SoDdGA Glannau Ynys Cybi.
- C22/0382/24/LL - Gosod cuddfan adar newydd, Cuddfan y Foryd, Saron. Roedd CNC yn fodlon bod mesurau lliniaru a nodwyd yn debygol o leihau unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd morol ac na fyddai unrhyw effeithiau andwyol yn debygol ar ACA Afon Menai a Bae Conwy.
- C22/0676/15/LL – Ail wynebu maes parcio Y Glyn Llanberis. Roedd CNC yn fodlon bod mesurau lliniaru a nodwyd yn debygol o leihau unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd morol ac na fyddai unrhyw effeithiau andwyol yn debygol ar SoDdGA Llyn Padarn..
- C22/0832/18/LL – Codi bwrdd dehongli, Ysbyty'r Chwarel, Parc Gwledig Padarn, Llanberis. Nid oedd gan CNC unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig ac ni fyddai'n cael effaith andwyol ar SoDdGA Llyn Padarn.
- C23/0077/15/LL – Newid defnydd llecynnau parcio i greu 9 bae cartrefi modur, Y Glyn, Llanberis. Nid oedd gan CNC unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig ac ni fyddai'n cael effaith andwyol ar SoDdGA Llyn Padarn.

2) Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau, mae polisïau o fewn y CDLl yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod.

3) Dim data mwy diweddar er yr AMB blaenorol. Dim ond ar gyfer ACA ac AGA y mae'r wybodaeth ar gael ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
   - ACA - 40% (8 o'r 20 ACA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o ardal yr holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol';
   - ACA - 89% (8 o'r 9 AGA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o'r holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'.

4) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

5) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

6) Dim newid ers yr AMB blaenorol:
   - 392 (7115HA) Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi'u cadarnhau (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
   - 13 (3137HA) Gwarchodfa Natur Leol

| **Amcan AC 2: Cymuned a Iechyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| wasanaethau allweddol. | | | | |
| 2) Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru. | Gwelliant | - | Data ddim ar gael | **0** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol

**Amcan AC 3: Newid Hinsawdd**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| % newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth. | Gostyngiad | 2018/19 | Gweler esboniad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Nid oes diweddariad wedi bod yn yr ystadegau ers yr AMB blaenorol.

Mae'r tablau canlynol yn dangos amcangyfrifon allyriadau CO2 (KtCO2) ym mhob un o'r 5 sector yng Ngwynedd ac Ynys Môn rhwng 2005 a 2019:

**Gwynedd**

| | 2005 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| **Diwydiannol** | 200.8 | 128.9 | 133.6 |
| **Masnachol** | 109.9 | 50.6 | 45.1 |
| **Domestig** | 358.5 | 218.8 | 213.3 |
| **Trafnidiaeth** | 280.3 | 273.7 | 266 |
| **Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir** | 56.2 | 14.3 | 16.5 |

*(Ffynhonnell: Adran Busnes, Ynni a Diwydiant)*

Fel a welir o'r tabl uchod, gwelwyd gostyngiad yn allyriadau carbon o fewn y sectorau masnachol, domestig a thrafnidiaeth ers yr AMB cynt. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bach mewn allyriadau yn y sectorau coedwigaeth/newid defnydd tir. Wedi dweud hyn, nodir fod patrwm o ostyngiad mewn allyriadau ym mhob sector ers 2005.

**Ynys Môn**

| | 2005 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| **Diwydiannol** | 343 | 76.9 | 76.5 |
| **Masnachol** | 59.7 | 31 | 29.7 |
| **Domestig** | 210.8 | 129.9 | 126.7 |
| **Trafnidiaeth** | 136.2 | 137 | 134.7 |
| **Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir** | 38.6 | 20.3 | 19.3 |

*(Ffynhonnell: Adran Busnes, Ynni a Diwydiant)*

- Fel a welir o'r tabl uchod, gwelwyd gostyngiad yn allyriadau carbon ym mhob un o'r 5 sector ers yr AMB cynt.

| Amcan AC 4: Iaith Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer/ % siaradwyr Cymraeg | Cynnydd | Blwyddyn yn gorffen Rhagfyr 2021 | Cyfrifiad 2021 | **X** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Mae Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Nod Polisïau PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygiadau cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Fodd bynnag o ganlyniad i ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 ar wahaniaeth rhwng hwn ar ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwaith i ddarganfod pam fod yna wahaniaeth rhwng y ffigyrau yma. Oherwydd hyn a'r ffaith fod ffigyrau sgiliau ieithyddol o Gyfrifiad 2021 ar gael eleni mae'r AMB yma yn ffocysu ar ffigyrau'r Cyfrifiad yn hytrach na ffigyrau o'r Arolwg blynyddol.

Yng Ngwynedd ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg sy'n cyfateb i 64.4%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 65.4% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 yn 77,000. Felly mae'r gyfran wedi gostwng 1% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 3,440.

Yn Ynys Môn ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 37,413 o bobl (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg sy'n cyfateb i 55.8%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 57.2% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 yn 38,568. Felly mae'r gyfran wedi gostwng 1.4% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 1,155.

Am fwy o fanylder ar faterion iaith gweler dangosyddion y Iaith Gymraeg yn rhan ?? (tudalennau ??-??).

**Amcan AC 5: Treftadaeth / Diwylliant**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg | Gostyngiad | 2021/2023 | 2022/2023<br>Gweler esboniad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Ar hyn o bryd, nid yw data sy'n ymwneud â nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg ar gael ar lefel Awdurdod Lleol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio oedd yn gyferbyniol i Bolisïau PS20 ac AT 1 dros y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 50 cais cynllunio o fewn y Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Cymru o gymharu â 51 dros gyfnod yr AMB blaenorol. Cymeradwywyd cyfanswm o 97 cais cynllunio o fewn Safleoedd Cadwraeth y Cynllun – lleiafswm o 4 dros gyfnod yr AMB blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys newid defnydd hen Eglwysi, anheddau newydd, anecsau, newid defnydd, trosi, addasiadau ac estyniadau.. Ystyrir bod y caniatadau hyn yn cydymffurfio hefo PS 20 a AT1 a chan hynny fod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol.

**Amcan AC 6: Economi a Chyflogaeth**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1) Actifedd economaidd fesul sector | Cynnydd | 2021/2022 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed. | Cynnydd | 2022/2022 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 3) Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig. | Gostyngiad | 2022 | Gweler esboniad isod | +/- |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1 + 2) Dengys ystadegau y bu cynnydd mewn gweithgaredd economaidd a chyfradd cyflogaeth yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn rhwng Rhagfyr 2021 a Rhagfyr 2022 fel y gwelir yn y tabl isod. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd yr adferiad parhaus o'r pandemig covid.

<u>Cyfradd Cyflogaeth (16 i 64 oed)</u>

| | Blwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2018 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2019 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2020 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2021 | Blwyddyn yn dod i ben 31 Rhagfyr 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 75.7 | 77.1 | 75.1 | 69.6 | 76.9 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 74.4 | 72.2 | 73.2 | 70.1 | 76.9 |
| Cymru | 71.3 | 73.2 | 72.7 | 73.1 | 73.3 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

3) Dengys ystadegau fod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n cymudo allan o Wynedd a gostyngiad yn y nifer o bobl sy'n cymudo allan o Ynys Môn. Tra bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cymudo i Wynedd a chynnydd yn y bobl sy'n cymudo i Ynys Môn fel y gwelir yn y tabl isod. Parhau i fonitro'r dangosydd.

Patrymau Cymudo fesul Awdurdodau Lleol yng Nghymru

| | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2018** | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2019** | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2020** | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2021** | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 10, 200 | 10,500 | 9,800 | 7,800 | 6,900 |
| Gwynedd | 8,600 | 8,700 | 8,000 | 5,700 | 7,100 |
| Cymru | 95,400 | 98,500 | 100,300 | 92,100 | 78,500 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

| | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2018** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2019** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2020** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2021** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 4,200 | 4,500 | 4,300 | 1,900 | 3,000 |
| Gwynedd | 12,500 | 12,200 | 13,300 | 10,100 | 7,300 |
| Cymru | 47,000 | 42,700 | 48,400 | 34,900 | 32,500 |

**Amcan AC 7: Tai**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau. | Cynnydd | 2021/2022 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |

Mae'r tabl isod yn cymharu'r ganran o dai fforddiadwy a gwblhawyd ers mabwysiadu'r cynllun:

| Blwyddyn | Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd | Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd | Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| **2017-18** | 61 | 463 | 13.2% |
| **2018-19** | 189 | 548 | 35.6% |
| **2019-2020*** | 132 | 461 | 28.6% |
| **2020-21*** | 82 | 362 | 22.7% |
| **2021-2022** | 107 | 344 | 31.1% |
| **2022-2023** | 122 | 298 | 40.9% |

**Nodir oherwydd cyfyngiadau pandemig coronafirws, nid oedd yn bosib i ymweld â phob safle dros y cyfnod hwn.*

Bu cynnydd yn nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd a chynyddodd cyfran yr unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd yn 2022-23 o gymharu â 2021-22. Mae'r targed ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gyrraedd.

| **Amcan AC 8: Tirlun a Threflun** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Cyfran o'r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP | Cynnydd | 2019-2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |
| 2) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE | Gostyngiad | 2021-2022 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP | Gostyngiad | 2021-2022 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Dim newid ers yr AMB blaenorol. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffiniwyd dan LANDMAP fel a ganlyn:
   - Gweledol a Synhwyraidd - dosbarthwyd 51% (135 o 267 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Diwylliannol - dosbarthwyd 98% (374 o 382 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Daearegol - dosbarthwyd 62% (133 o 213 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol
   - Tirweddau Hanesyddol - dosbarthwyd 81% (319 o 392 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Cynefinoedd y Dirwedd - dosbarthwyd 47% (592 o 934 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol

2) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn AHNE fel a ganlyn:
   - 2018/2019 = 540
   - 2019/2020 = 219
   - 2020/2021 = 222
   - 2021/2022 = 340
   - 2022/2023 = 209

3) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn rhagorol gan LANDMAP fel a ganlyn:

| Categori LANDMAP | AMB 1 | AMB 2 | AMB 3 | AMB 4 | AMB 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweledol a Synhwyraidd | 81 | 26 | 20 | 24 | 31 |
| Diwylliannol | 1587 | 619 | 613 | 861 | 687 |
| Daearegol | 724 | 291 | 287 | 374 | 322 |
| Hanesyddol | 1270 | 532 | 528 | 691 | 493 |
| Cynefinoedd y Dirwedd | 70 | 26 | 24 | 36 | 36 |

Mae'r nifer o geisiadau cynllunio a chymeradwywyd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio fel rhagorol gan LANDMAP wedi lleihau ers yr AMB blaenorol. Bydd y dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

**Amcan AC 9: Tir, Mwynau a Gwastraff**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1) % cyfradd datblygiad ar dir a | Cynnydd | 2021/2022 | Gweler esboniad isod | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ddatblygwyd o'r blaen. | | | | |
| 2) % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 3) % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol | Cynnydd | 2020/2021 | Gweler esboniad isod | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) mae % cyfran y datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes fel a ganlyn:

- Ynys Môn 2017-2018 = 13.81ha (49%);
- Ynys Môn 2018-2019 = 4.33ha (21%)
- Ynys Môn 2019-2020 = 52.9ha sy'n cyfartalu i 82.8% o holl ddatblygiad (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys diwygiadau i drac rasio presennol, sydd ag arwynebedd safle o 41.4ha).
- Ynys Môn 2020-2021 = 15.20ha (72.8%)
- Ynys Môn 2021-2022 = 15.97ha (49.3%)
- Ynys Môn 2022 – 2023 = 41.25ha (79.6%)

- Gwynedd 2017-2018 12.82ha (64%);
- Gwynedd 2018-2019 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd problemau technegol.
- Gwynedd 2019-2020 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd problemau technegol.
- Gwynedd 2020-2021 - gwybodaeth ddim ar gael oherwydd problemau technegol.
- Gwynedd 2021-2022 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd problemau technegol.
  Gwynedd 2022 – 2023 - gwybodaeth ddim ar gael oherwydd problemau technegol.

Mae nifer a chyfran y ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol wedi cynyddu yn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uwch na rhwng 2017-2019. Oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, nid oes modd dod i gasgliad llawn os yw'r targed wedi ei gyrraedd.

2) 2019-20 oedd y Cynllun diwethaf ble 'roedd Awdurdodau Cynllunio yng Nghymru wedi derbyn lwfans tirlenwi. Felly, nid oes diweddariad ers yr AMB blaenorol. Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi fel a ganlyn *(Ffynhonnell:StatsWales):*

- 2016-2017 = Ynys Môn (6.9%) Gwynedd (31%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (0.5%), Gwynedd (24.3%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (1%), Gwynedd (18.1%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (2%), Gwynedd (7.6%)

Er fod Ynys Môn wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran y gwastraff a anfonwyd i dirlenwi rhwng 2018/2019 a 2019/2020, mae'r ffigwr yn sylweddol llai nac yn 2016-2017. Parhaodd y

| |
|---|
| cyfran o wastraff a aeth i dirlenwi yng Ngwynedd i ostwng yn sylweddol rhwng 2018-2019 a 2019-2020.<br><br>3) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu fel a ganlyn *(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru):*<br>• 2016-2017 = Ynys Môn (66%) Gwynedd (61%)<br>• 2017-2018 = Ynys Môn (72%), Gwynedd (60%)<br>• 2018-2019 = Ynys Môn (70%) Gwynedd (62%)<br>• 2019-2020 = Ynys Môn (68%) Gwynedd (65%)<br>• 2020-2021 = Ynys Môn (65.7%) Gwynedd (65.5%)<br>• 2022-2023 = Ynys Môn (62.3%) Gwynedd (64.2%)<br><br>Mae'r ddau awdurdod wedi gweld gostyngiad yng nghanran y gwastraff dinesig a ailgylchwyd rhwng 2020/2021 a 2022/2023. Parhau i fonitro mewn AMBau dilynol. |

| **Amcan AC 10: Trafnidiaeth a Mynediad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char | Gostyngiad | Cyfrifiad 2011 | Cyfrifiad 2021 | ✓ |
| 2) Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafnidiaeth trafnidiaeth gyhoeddus) | Cynnydd | 2017/2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. | Cynnydd | 2016/17 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) % cynnydd yn y rhwydwaith beicio | Cynnydd | Papur Testun Trafnidiaeth (2015) | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur. | Cynnydd | 2019 ymlaen | Gweler esboniad isod | **0** |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |

1) Mae'r tablau isod yn cymharu'r sefyllfa yn Môn, Gwynedd a Chymru rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 ar gyfer y gwahanol ddulliau o deithio i'r gwaith (rhain ar sail poblogaeth oedran 16-74 sydd yn gweithio):

**Ynys Môn**

| **Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)** | **Ynys Môn % (Cyfrifiad 2011)** | **Ynys Môn % (Cyfrifiad 2021)** | **Newid %** |
|---|---|---|---|
| Gweithio'n bennaf gartref | 6.85% | 22.51% | 15.66% |
| Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram | 0.07% | 0.02% | -0.05% |
| Trên | 0.71% | 0.41% | -0.30% |
| Bws neu bws mini | 2.67% | 1.59% | -1.08% |
| Tacsi | 0.38% | 0.32% | -0.06% |
| Beic modur, sgwter neu moped | 0.73% | 0.39% | -0.34% |
| Gyrru car neu fan | 70.40% | 61.35% | -9.05% |
| Teithiwr mewn car neu fan | 6.10% | 4.64% | -1.46% |
| Beic | 1.58% | 0.96% | -0.62% |
| Ar droed | 9.54% | 6.87% | -2.67% |
| Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith | 0.96% | 0.74% | -0.22% |

**Gwynedd**

| **Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)** | **Gwynedd % (Cyfrifiad 2011)** | **Gwynedd % (Cyfrifiad 2021)** | **Newid %** |
|---|---|---|---|
| Gweithio'n bennaf gartref | 8.41% | 23.66% | 15.25% |
| Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram | 0.07% | 0.05% | -0.02% |
| Trên | 0.71% | 0.38% | -0.33% |
| Bws neu bws mini | 4.53% | 2.44% | -2.09% |
| Tacsi | 0.23% | 0.24% | 0.01% |
| Beic modur, sgwter neu moped | 0.51% | 0.26% | -0.25% |
| Gyrru car neu fan | 62.97% | 56.61% | -6.36% |
| Teithiwr mewn car neu fan | 5.94% | 4.38% | -1.56% |
| Beic | 1.31% | 1.03% | -0.28% |
| Ar droed | 14.55% | 10.21% | -4.34% |
| Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith | 0.78% | 0.74% | -0.04% |

**Cymru**

| **Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)** | **Cymru % (Cyfrifiad 2011)** | **Cymru % (Cyfrifiad 2021)** | **Newid %** |
|---|---|---|---|
| Gweithio'n bennaf gartref | 5.36% | 25.61% | 20.25% |
| Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram | 0.09% | 0.04% | -0.05% |
| Trên | 2.01% | 0.84% | -1.17% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bws neu bws mini | 4.61% | 2.30% | -2.31% |
| Tacsi | 0.48% | 0.56% | 0.08% |
| Beic modur, sgwter neu moped | 0.56% | 0.34% | -0.22% |
| Gyrru car neu fan | 67.37% | 56.46% | -10.91% |
| Teithiwr mewn car neu fan | 6.80% | 4.83% | -1.97% |
| Beic | 1.44% | 1.10% | -0.34% |
| Ar droed | 10.64% | 7.06% | -3.58% |
| Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith | 0.64% | 0.86% | 0.22% |

Fel y gwelir y newid mwyaf yw yn y canran o bobl sydd yn gweithio o adref +15.66% yn Môn, +15.25% yng Ngwynedd a +20.25% yng Nghymru. O ran y nifer sy'n gyrru car neu fan i'r gwaith mae hyn wedi gostwng -9.05% yn Môn, -6.36% yng Ngwynedd a -10.91% yng Nghymru.

2) 100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.

3) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Ym Môn, ceir y trydydd nifer isaf o ddeiliaid tocyn bws mantais ar gyfer pobl 60 mlwydd oed a throsodd (75.6%).
- Mae'r pedwerydd nifer isaf i'w gael yng Ngwynedd (80.0%).
- Yr ardal gyda'r nifer isaf yw Powys (71.5%).
- Yr ardal gyda'r nifer uchaf yw Caerdydd (98.9%).
- Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%. Felly, mae Ynys Môn a Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

4) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn ardal Taith. Mae Gwynedd wedi'i chynnwys yn ardaloedd Taith a Tracc.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Taith yw: 5 - Reading i Gaergybi; 8 - Caerdydd i Gaergybi.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Tracc yw: 8 - Caerdydd i Gaergybi; 42 - Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw; 43 - Llanfair ym Muallt i Abertawe; 81 - Aberystwyth i'r Amwythig; 82 - Porthmadog i Aberteifi.

5) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Ar hyn o bryd, mae 92 o orsafoedd tanwydd yng Nghymru sy'n gwerthu tanwydd LPG.
- Mae dwy orsaf yn Ynys Môn yn gwerthu LPG. Y rhain yw: Amlwch – 1; Gaerwen – 1.
- Mae deg gorsaf yng Ngwynedd yn gwerthu LPG. Y rhain yw: A496 – 1; A4487 – 1; Bangor – 1; Abermaw - 1; Blaenau Ffestiniog – 1; Caernarfon -2; Machynlleth – 1; Pwllheli – 2.

| **Amcan AC 11: Dŵr a Pherygl Llifogydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaladwy. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2) % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler yr esboniad isod | ✓ |
| 3) Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15). | Gostyngiad | 2020-2021 | Gweler yr esboniad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Nid yw'r Awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Bydd yr GPPC yn gweithio â'r ddau Awdurdod i ganfod ffordd o gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2) Dim gwybodaeth diweddar ers yr AMB blaenorol ar gael. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol


3) Caniatawyd 23 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1; roedd rhan fwyaf o'r rhain yn geisiadau gan ddeiliaid tai. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15. Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

   Caniatawyd 53 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1; cymysg o geisiadau deiliaid tai ac isadeiledd. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ddatblygiad hynod fregus' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Llifogydd). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn y parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15.

   Mewn casgliad, felly, gellid dweud fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS 5, PS 6, PCYFF 1 a PCYFF 2 o'r CDLl ar y Cyd. Felly, ystyrir fod y polisïau'n parhau i weithredu'n effeithiol.

**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**1 EBRILL 2022 - 31 MAWRTH 2023**


**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PREMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**1 APRIL 2022 - 31 MARCH 2023**






**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**ERS MABWYSIADU'R CYNLLUN - 1 AWST 2017 - 31 MAWRTH 2023**


**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PREMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**SINCE THE PLAN'S ADOPTION -1 AUGUST 2017 - 31 MARCH 2023**




© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**1 EBRILL 2022 - 31 MAWRTH 2023**

**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PERMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**1 APRIL 2022 - 31 MARCH 2023**







## Allwedd / Key

- Caniatadau / Permissions
- Dim Caniatadau / No Permissions

**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**ERS I'R CYNLLUN CAEL EI FABWYSIADU - 1 AWST 2017 - 31 MAWRTH 2023**

**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PERMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**SINCE THE PLAN'S ADOPTION - 1 AUGUST 2017 - 31 MARCH 2023**




© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

## D25 – DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL
## 1 EBRILL 2022 - 31 MAWRTH 2023

**Canolfan Isranbarthol:**

1. Bangor (46 uned preswyl wedi cael caniatâd y cyfnod yma / 284 uned preswyl wedi cael caniatâd ers i'r cynllun cael ei fabwysiadu)

**Canolfannau Gwasanaeth Trefol:**

Ynys Môn

2. Amlwch (4 uned / 49 uned),
3. Caergybi (43 uned / 197 uned),
4. Llangefni (16 uned / 239 uned)

Gwynedd

5. Blaenau Ffestiniog (4 uned / 23 uned),
6. Caernarfon (28 uned / 110 uned),
7. Porthmadog (1 uned / 19 uned),
8. Pwllheli (6 uned / 77 uned)

**Canolfannau Gwasanaeth Lleol:**

Ynys Môn

9. Biwmares (0 uned / 9 uned),
10. Benllech (19 uned / 51 uned)
11. Bodedern (31 uned / 65 uned),
12. Cemaes (0 uned / 21 uned),
13. Gaerwen (0 uned / 21 uned),
14. Llanfairpwllgwyngyll (3 uned / 27 uned),
15. Pentraeth (0 uned / 35 uned),
16. Porthaethwy (2 uned / 17 uned),
17. Rhosneigr (1 uned / 5 uned),
18. Y Fali (0 uned / 55 uned)

Gwynedd

19. Abermaw (6 uned / 17 uned),
20. Abersoch (1 uned / 2 uned),
21. Bethesda (2 uned / 35 uned),
22. Criccieth (6 uned / 38 uned),
23. Llanberis (1 uned / 12 uned),
24. Llanrug (0 uned / 12 uned),
25. Nefyn (4 uned / 13 uned),
26. Penrhyndeudraeth (0 uned / 14 uned),
27. Penygroes (12 uned / 39 uned),
28. Tywyn (2 uned / 25 uned)

**Pentrefi Gwasanaeth:**

Ynys Môn

29. Gwalchmai (0 uned / 25 uned),
30. Llannerch-y-medd (10 uned / 15 uned),
31. Niwbwrch (15 uned / 18 uned)

Gwynedd

32. Bethel (1 uned / 16 uned),
33. Bontnewydd (0 uned / 29 uned),
34. Botwnnog 0 uned / 1 uned),
35. Chwilog (0 uned / 56 uned),
36. Deiniolen (7 uned / 46 uned),
37. Rachub (1 uned / 31 uned),
38. Tremadog (0 uned / 1 uned),
39. Y Ffôr

**Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol:**

**A) Pentrefi Lleol**

Ynys Môn

40. Bethel (0 uned / 1 uned),
41. Bodffordd (0 uned / 4 uned),
42. Bryngwran,
43. Brynsiencyn (12 uned / 14 uned),
44. Caergeiliog (0 uned / 8 uned),
45. Dwyran (0 uned / 3 uned),
46. Llanddaniel-fab,
47. Llandegfan (0 uned / 4 uned),
48. Llanfachraeth (0 uned / 10 uned)
49. Llanfaethlu (0 uned / 1 uned),
50. Llanfechell (1 uned / 26 uned),
51. Llanfihangel-yn-Nhywyn,
52. Llangaffo,
53. Llangristiolus (0 uned / 1 uned),
54. Llanrhuddlad (1 uned / 2 uned),
55. Pencarnisiog (1 uned / 5 uned),
56. Pen-y-Sarn (0 uned / 24 uned),
57. Rhos-y-bol (0 uned / 17 uned),
58. Talwrn (0 uned / 13 uned),
59. Tregele

Gwynedd

60. Abererch,
61. Brynrefail (0 uned / 1 uned),
62. Caeathro,
63. Carmel (0 uned / 1 uned),
64. Cwm y Glo,
65. Dinas (Llanwnda (0 uned / 12 uned),
66. Dinas Dinlle,
67. Dolydd a Maen Coch,
68. Efailnewydd,
69. Garndolbenmaen (0 uned / 1 uned),
70. Garreg-Llanfrothen,
71. Groeslon,
72. Llandwrog,
73. Llandygai,
74. Llangybi (1 uned/ 1uned),
75. Llanllyfni,
76. Llanystumdwy (6 uned / 7 uned),
77. Nantlle (0 uned / 1 uned),
78. Penisarwaun (0 uned / 3 uned),
79. Pentref Uchaf (3 uned / 3 uned),
80. Rhiwlas (1 uned / 3 uned),
81. Rhosgadfan (0 uned / 4 uned),
82. Rhostryfan,

83. Sarn Mellteyrn (0 uned / 1 uned),
84. Talysarn (0 uned / 2 uned),
85. Trefor (1 uned / 1 uned),
86. Tregarth (1 uned / 15 uned),
87. Tudweiliog,
88. Waunfawr ( 0 uned / 2 uned),
89. Y Fron

**B) Pentrefi Arfordirol/Gwledig:**

Ynys Môn

90. Aberffraw (0 uned / 1 uned),
91. Bae Trearddur (2 uned / 3 uned),
92. Carreg-lefn (0 uned / 2 uned),
93. Llanbedr-goch,
94. Llanddona (2 uned / 4 uned),
95. Llanfaelog (0 uned / 2 uned),
96. Llangoed (0 uned / 1 uned),
97. Malltraeth,
98. Moelfre (0 uned / 4 uned),
99. Pontrhydybont (0 uned / 2 uned)

Gwynedd

100. Aberdaron,
101. Borth-y-Gest (0 uned / 1 uned),
102. Clynnog Fawr,
103. Corris (0 uned / 1 uned),
104. Edern (0 uned / 1 uned),
105. Fairbourne,
106. Llanaelhaearn (1 uned / 2 uned),
107. Llanbedrog (0 uned / 1 uned),
108. Llangian,
109. Llithfaen (0 uned / 1 uned),
110. Morfa Bychan (0 uned / 2 uned),
111. Morfa Nefyn,
112. Mynytho,
113. Rhoshirwaun,
114. Sarn Bach,
115. Y Felinheli (0 uned / 2 uned)

**Clystyrau:**

Ynys Môn

116. Bodorgan,
117. Bro Iarddur (Bae Trearddur),
118. Bryn Du (8 uned / 8 uned),
119. Brynminceg (Hen Llandegfan),
120. Brynrefail,
121. Brynteg,
122. Bryn y Môr (Y Fali)
123. Bwlch Gwyn,
124. Capel Coch,
125. Capel Mawr,
126. Carmel,
127. Cerrig-mân,
128. Cichle,
129. Glan-yr-afon (Llangoed),
130. Glyn Garth,
131. Gorsaf Gaerwen,
132. Haulfre (Llangoed)
133. Hebron,
134. Hendre Hywel (Pentraeth),
135. Hermon,
136. Llan-faes,
137. Llangadwaladr,
138. Llansadwrn,
139. Llanynghenedl (0 uned / 1 uned),
140. Llynfaes,
141. Marian-glas,
142. Nebo,
143. Penlon,
144. Penmon,
145. Pentre Berw,
146. Pentre Canol (Caergybi),
147. Pen y Marian,
148. Porth Llechog,
149. Rhoscefnhir (0 uned / 3 uned),
150. Rhos-meirch (0 uned / 1 uned),
151. Rhostrehwfa,
152. Rhyd-wyn,
153. Star,
154. Traeth Coch,
155. Trefor (0 uned / 1 uned),
156. Tyn Lôn (Glan yr Afon),
157. Tyn-y-gongl

Gwynedd

158. Aberdesach,
159. Aberllefenni,
160. Aberpwll,
161. Bethesda Bach,
162. Bryncir,
163. Bryncroes,
164. Caerhun/Waen Wen,
165. Capel y Graig,
166. Corris Uchaf,
167. Crawia,
168. Dinorwig,
169. Gallt y Foel,
170. Glasinfryn (7 uned / 9 uned),
171. Groeslon Waunfawr,
172. Llanaber (1 uned / 1 uned),
173. Llandderfel,
174. Llanengan (0 uned / 2 uned),
175. Llanfor,
176. Llanllechid,
177. Llannor,
178. Llanwnda,
179. Llwyn Hudol,
180. Minffordd,
181. Minffordd (Bangor),
182. Mynydd Llandygai,

183.Nebo,
184.Pantglas,
185.Penmorfa,
186.Penrhos,
187.Penrhos (Caeathro),
188.Pentir,
189.Pentrefelin,
190.Pistyll (1 uned / 1 uned),
191.Pontllyfni,
192.Rhoslan,
193.Saron (Llanwnda),
194.Swan,
195.Tai'n Lôn,
196.Talwaenydd,
197.Talybont,
198.Tan y Coed,
199.Treborth (0 uned / 4 uned),
200.Ty'n-lôn,
201.Ty'n y Lôn,
202.Waun (Penisarwaun) (0 uned / 1 uned).

**ATODIAD 3 – DARPARIAETH O DIR AR GYFER TAI**

Cefndir

Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021) (paragraffau 4.2.10 a 4.2.11) yn nodi fod yn rhaid dangos y gallu i ddarparu'r gofyn am dai yn y Cynllun drwy daflwybr tai. Rhaid i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu taflwybr tai fel sail ar gyfer monitro'r broses o gyflawni eu gofyniad tai. Mae angen gwybodaeth fanwl ar y tai a gyflenwir wedi'i hasesu yn erbyn y taflwybr er mwyn llunio rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol y cynllun datblygu ac adolygiad cynllunio dilynol. Nodir y gall tangyflawni yn erbyn y taflwybr fod yn ddigon o reswm ynddo'i hun i adolygu cynllun datblygu. Mae'r broses hon wedi disodli'r angen i arddangos cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai a oedd yn cael ei asesu drwy'r broses Cyd-astudiaeth Tir ar gyfer Tai.

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn rhoi gwybodaeth bellach o ran y broses o ran ystyried a diweddaru'r taflwybr o fewn Adroddiadau Monitro Blynyddol. Gweler y tabl a'r graff diwygiedig yn y wybodaeth mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B).

Fel rhan o'r broses hon mae angen cyflwyno tablau sydd yn nodi amserlen datblygu ar gyfer y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun ynghyd a safleoedd ar hap mawr o fewn y banc tir h.y. safleoedd sydd â 5 neu fwy o unedau sydd â chaniatâd cynllunio ond nad sydd wedi eu lleoli ar ddynodiad tai. Mae'n hanfodol fod Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn rhan o'r broses hon drwy ddarparu eu barn ynglŷn â'r modd y mae'r amserlenni hyn a camau cyflawni'r unedau ar y safleoedd perthnasol wedi eu nodi. Fel rhan o'r broses hon cysylltwyd â pherchnogion y safleoedd perthnasol er mwyn derbyn eu barn ynglŷn â'r modd maent yn bwriadu datblygu'r safleoedd hyn.

Mae aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Tai fel y ganlyn:

- Ffederasiwn Adeiladwyr Tai
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Grŵp Cynefin
- Cymdeithas Dai Gogledd Cymru
- Cymdeithas Dai Adra
- Cymdeithas Dai Clwyd Alyn
- Gwasanaeth Hwylusydd Tai Gwledig Gogledd Gorllewin Cymru
- Adran Dai Cyngor Gwynedd
- Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn

Ymgynghorwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ar y 10fed Mai, 2023 am gyfnod o 9 diwrnod mewn perthynas â'r safleoedd a'u nodir yn nhablau A1, A2 a A3 isod, sef y safleoedd mawr (5 neu ragor o unedau) sydd yn y banc tir ynghyd a'r safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun.

Cafwyd ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn a Gwasanaeth Tai Cyngor Gwynedd. Cafwyd sylw gan Wasanaeth Tai Cyngor Gwynedd ynglyn ag amserlen datblygu un safle ac roedd yr holl sylwadau eraill a gyflwynwyd yn rhai cyffredinol. Derbynwyd y sylw a'i gyflwynwyd ac

felly nid oedd angen ymgynghori yn bellach mewn perthynas â safleoedd ble roedd anghytundeb ac nid oedd angen ychwaith cynnal cyfarfod o'r Grŵp i drafod y safleoedd ymhellach.

Gweler y modd y mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi a'r safleoedd banc tir mawr wedi eu categoreiddio yn nhablau A1, A2 a A3 isod.

Noder isod sut mae'r wybodaeth hyn, ynghyd a rhagdybiaethau a wnaethpwyd ar gyfer cydrannau eraill o'r ddarpariaeth tai, wedi bwydo i mewn i'r diweddariad o'r taflwybr. **Mae'r ffigyrau a nodir yn y tabl taflwybr yn yr AMB [cyn dangosyddion D43(A) a D43(B)] wedi eu hamlygu gyda lliw yn y wybodaeth isod.**

**<u>Safleoedd bach (Safleoedd banc tir a safleoedd ar hap)</u>**

Ar gyfer safleoedd banc tir bach (caniatâd am lai na 5 uned) ystyriwyd y cyfartaledd o ran unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd o'r fath dros y 5 mlynedd diwethaf:

| 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | Cyfanswm | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 129 | 110 | 91 | 99 | 97 | 526 | 105.2 = 105 |

O gofio mai 3 mlynedd sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun, mae'r cyfartaledd blynyddol uchod wedi ei gyfleu ar sail y cyfnod hwn er mwyn sefydlu'r ddarpariaeth ar safleoedd banc tir bach ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun h.y. cyfartaledd 5 mlynedd dros gyfnod o 3 mlynedd:

105.2 x 3 = 315.6 = 316 uned

Ar sail arolwg tai Ebrill 2023 nodir bod 347 uned yn y banc tir safleoedd bach heb gyfrif yr unedau ble nad oes unrhyw weithgaredd wedi digwydd ar y safleoedd hynny yn y 5 mlynedd diwethaf (o ran unrhyw waith datblygu na chaniatad pellach).

Gan fod y nifer o unedau sydd yn y banc tir (safleoedd bach) yn uwch na'r ffigwr cyfartaledd unedau sydd wedi eu datblygu ar safleoedd bach dros y 5 mlynedd blaenorol wedi ei gyfleu dros gyfnod o 3 mlynedd, i bwrpas y taflwybr nid oes unedau ychwanegol i'w darparu ar safleoedd ar hap bychan h.y. caniatadau o'r newydd yn dilyn cyfnod AMB 5, gan rhagdybir y bydd y ddarpariaeth berthnasol yn cael ei gwrdd drwy fodd unedau sydd eisioes yn y banc tir (gweler tabl perthnasol isod).

Noder felly'r 105 uned y flwyddyn sydd i'w ddisgwyl ar safleoedd bychan oll ar safleoedd banc tir (caniatâd presennol) gyda dim ar safleoedd ar hap (caniatadau o'r newydd). Byddai rhagdybiath beth bynnag am y ddwy flynedd nesaf (2023/24 a 2024/25) fod yr holl unedau i'w datblygu ar safleoedd sydd yn y banc tir yn bresennol [noder, mae un uned ychwanegol h.y. 106 uned, wedi ei nodi ar gyfer 2025/26 er mwyn cwrdd â'r ffigwr cyfanswm o 316].

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir bach:

| **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|
| 105 | 105 | 106 |

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn

| **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|
| Dim unedau ar safleoedd ar hap o'r newydd yn cael eu cwblhau yn y ddwy flynedd nesaf. | | 0 |

**Safleoedd banc tir mawr**

Mae'r ffigyrau ar gyfer unedau ar hap mawr yn deillio o dablau A1 a A2 isod mewn perthynas â safleoedd banc tir mawr yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r wybodaeth yn y tablau hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ac wedi eu cytuno gyda hwy. Mae'r ffigyrau yn gyfuniad o wybodaeth Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer yr unedau sydd yn ddisgwyliedig o gael eu datblygu ar y safleoedd perthnasol fesul blwyddyn.

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir mawr:

| **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|
| **157**<br><br>(Ynys Môn: 64 / Gwynedd: 93) | **275**<br><br>(Ynys Môn: 135 / Gwynedd: 140) | **213**<br><br>(Ynys Môn: 90 / Gwynedd: 123) |

**Felly:**

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn flynyddol (safleoedd mawr a bach)

| **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **262**<br><br>(157 safleoedd mawr / 105 safleoedd bach) | **380**<br><br>(275 safleoedd mawr / 105 safleoedd bach) | **319**<br><br>(213 safleoedd mawr / 106 safleoedd bach) |

**<u>Safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau)</u>**

Ar gyfer y rhagdybiaeth o ran darpariaeth ar safleoedd ar hap mawr (h.y. caniatadau o'r newydd ar safleoedd gyda 5 neu fwy o unedau nad sydd wedi eu dynodi), mae'r taflwybr diwygiedig yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ardal y Cynllun yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (gweler y tabl isod). Nid yw hyn yn cyfrif unedau sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai. Mae'r ffigwr hwn yn 779 o unedau.

| 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2020-21 | 2021-22 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 197 | 177 | 159 | 122 | 124 | 779 |

O gofio mai 3 mlynedd sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun, mae'r cyfartaledd blynyddol uchod wedi ei gyfleu ar sail y cyfnod hwn er mwyn sefydlu'r ddarpariaeth ar safleoedd ar hap mawr ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun h.y. cyfartaledd 5 mlynedd dros gyfnod o 3 mlynedd:

(779/5) x 3 = 467.4 = 467 uned

Noder fod tablau A1 a A2 isod yn rhagweld y bydd 645 uned yn cael eu datblygu ar safleoedd banc tir mawr yn y 3 mlynedd nesaf (h.y. gweddill oes y Cynllun), sydd yn uwch na'r ddarpariaeth safleoedd mawr a'i nodir uchod. I bwrpas y taflwybr, nid oes unrhyw unedau wedi eu cynnwys felly am weddill oes y Cynllun ar safleoedd ar hap mawr o'r newydd. Ar sail tueddiadau datblygu'r gorffennol, credir fod nifer digonol o unedau yn debygol o gael eu datblygu ar safleoedd banc tir mawr (ar sail yr asesiad gyda'r Grwp Rhanddeiliaid Tai) i gwrdd â'r anghenion o ran y rhan hon o'r ddarpariaeth tai.

<u>Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn flynyddol</u>

| 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|
| Dim unedau ar safleoedd ar hap o'r newydd yn cael eu cwblhau yn y ddwy flynedd nesaf. | | 0 |

**<u>Dynodiadau tai</u>**

Mae'r wybodaeth ar gyfer y nifer o unedau a ragwelir fydd yn deillio o ddynodiadau tai'r Cynllun i'w gweld yn Nhabl A3 isod.

Mae'r wybodaeth yn y tabl hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ac wedi eu cytuno gyda hwy. Mae tabl A3 yn nodi'r wybodaeth fanwl fesul safle. Mae'r cyfanswm o unedau a ragwelir fydd yn cael eu datblygu ar holl ddynodiadau'r Cynllun fesul blwyddyn fel y ganlyn:

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn flynyddol

| **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|
| 120 | 182 | 404 |

**Tabl A1: Amseru a chamau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio – Safleoedd banc tir mawr (Ynys Môn)**

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023 / 24 | 2024 / 25 | 2025 / 26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3014 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir yn Fferm Madryn, Amlwch | 11C304A | 31 | 31 | 0 | 0 | 0 | | | | 31 |
| 4886 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Capel Carmel, Stryd y Capel, Amlwch | FPL/2019/1 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | 7 | | |
| 4908 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Banc HSBC, Amlwch | 11C273G | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | 6 | | |
| 3233 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir gyferbyn Llanfain, Llaingoch, Caergybi | H371C | 24 | 21 | 3 | 3 | 0 | | | | 21 |
| 3246 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cyn Orsaf Repeater, London Road, Caergybi | 19C822D/VAR | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | 8 |
| 3247 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ger Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi | FPL/2022/53 | 23 | 23 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 23 | 0 |
| 4997 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ysgol Gynradd Llaingoch, Caergybi | FPL/2019/341 | 26 | 26 | 26 | 26 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 3877 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir yn Porthdafarch Road, Caergybi | 19C754C | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 5 |
| 3226 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cae OS rhif 3100, Llainfain, Llaingoch, Caergybi | 19C411 | 19 | 1 | 18 | 0 | 0 | | | | 1 |
| 5129 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Post Office, 13A Boston Street, Caergybi | FPL/2020/39 | 8 | | 0 | 0 | 0 | | | 8 | |
| 5185 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ffordd Garreglwyd, Caergybi | FPL/2021/266 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | |
| 3520 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Hen Dŷ Ysgol, Penrallt, Llangefni | 34C617 | 6 | 6 | 0 | 0 | 6 | 6 | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023 / 24 | 2024 / 25 | 2025 / 26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4764 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Bryn Glas, Llangefni | FPL/2019/239 | 6 | 0 | 6 | 6 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 3180 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | OS 4100 & 5600 Tyn Coed (Bro Ednyfed), Llangefni | 34C303 | 110 | 1 | 109 | 0 | 0 | | | | 1 |
| 5078 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Lon Newydd, Llangefni | VAR/2021/69 | 7 | 0 | 7 | 7 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 5110 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Hen Safle Burgess, Llangefni | FPL/2021/276 | 6 | 6 | 6 | **6** | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 5150 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | 14, High Street, Llangefni | FPL/2022/112 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | 5 | | |
| 3711 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ger Penderwydd, Llangefni | 34C529B | 11 | 11 | 0 | 0 | | | 8 | 3 | |
| 4954 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Clwb Cymdeithasol Biwmares, Biwmares | FPL/2019/258 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 | | | |
| 3119 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Cae Mair, Biwmares | B/199'S-12C4C/4 | 33 | 1 | 32 | 2 | 0 | | 1 | | |
| 4929 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Sarn Gannu, Bodedern | RM/2019/12 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | 5 |
| 4939 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Ponc y Rhedyn, Benllech | FPL/2019/204 | 27 | 27 | 27 | **27** | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 5193 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Craig y Don Estate & Cherry Tree Close, Benllech | FPL/2019/217 | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 8 | |
| 5036 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tyddyn Rhydd, Ffordd Caergybi, Gaerwen | FPL/2020/87 | 15 | 15 | 15 | 15 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 5111 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Hen Safle Little Chef, Gaerwen | FPL/2019/124 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023 / 24 | 2024 / 25 | 2025 / 26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3091 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | OS 2418, Lon Refail (Stad Wern Geithin), Llanfairpwll | 31C223M | 31 | 2 | 29 | 7 | 2 | 2 | | | |
| 4914 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Fferm Rhos, Pentraeth | 42C266B | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | | 6 | 6 | |
| 3365 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Fferm Glan yr Afon, Pentraeth | 42C69E | 10 | 2 | 8 | 8 | 0 | | 2 | | |
| 5089 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Lon Lwyd, Pentraeth | FPL/2020/215 | 23 | 23 | 0 | 0 | 23 | 23 | 0 | | |
| 3366 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Old Coal Yard, Y Fali | 49C287B/VAR | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | | | | 9 |
| 3223 | Pentref Gwasanaeth | Tŷ Corniog (Maes y Ffridd), Gwalchmai | 48C126D & F | 7 | 1 | 7 | 7 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 5204 | Pentref Gwasanaeth | Ysgol Niwbwrch, Niwbwrch | FPL/2022/60 | 14 | 14 | 0 | 0 | 0 | | 14 | | |
| 3067 | Pentref Lleol | Tir yn Merddyn Gwyn, Brynsiencyn | RM/2018/5 | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | | | | 13 |
| 5188 | Pentref Lleol | Tir ger Stad Bryn Glas, Brynsiencyn | FPL/2022/46 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 | 0 | |
| 3214 | Pentref Lleol | Cae OS rhif 5866, Tre Ifan, Caergeiliog | 32C27C | 73 | 73 | 0 | 0 | 0 | | 10 | 10 | 53 |
| 3371 | Pentref Lleol | Proskairon, Dwyran | 45C325G/VAR | 6 | 6 | 0 | 0 | 6 | 6 | | | 0 |
| 3209 | Pentref Lleol | Tir ger Ysgol Gynradd, Llanfachraeth | 27C23B | 5 | 5 | 5 | 5 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 4942 | Pentref Lleol | Hen Ysgol Gynradd Llanfachraeth. Llanfachraeth | FPL/2019/278 | 8 | 8 | 8 | 8 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023 / 24 | 2024 / 25 | 2025 / 26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3622 | Pentref Lleol | Bryn Estyn, Llanfaethlu | RM/2019/4 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | | 6 |
| 3323 | Pentref Lleol | Pen y Bont, Mountain Road, Llanfechell | 38C223A | 24 | 7 | 17 | 17 | 0 | | 7 | | |
| 3019 | Pentref Lleol | Stad Tŷ'n Rhos, Penysarn | T1826G_24C31'S | 70 | 14 | 56 | 0 | 0 | | | | 14 |
| 5012 | Pentref Lleol | Y Bedol, Tŷ'n Rhos, Penysarn | FPL/2019/249 | 14 | 14 | 0 | 0 | 8 | 8 | 6 | | |
| 4897 | Pentref Lleol | Bryn Bochan, Talwrn | FPL/2019/172 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | 3 | 3 | |
| 3284 | Pentref Lleol | Cae Garnedd, Tregele | T1223 | 20 | 5 | 15 | 0 | 0 | | | | 5 |
| 3204 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Ger High Tide, Ravenspoint, Trearddur | 46C195A | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | 5 |
| 3254 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Morfa Lon Tywyn Capel, Trearddduur | V1317N | 83 | 83 | 0 | 0 | 0 | | | | 83 |
| 3260 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Cyn Gae Criced, Trearddur | 46C137E | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | 11 |
| 3538 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Safle Cliff Apartments, Trearddur | 46C14H/1 | 33 | 14 | 19 | 19 | 0 | 0 | 3 | 4 | 7 |
| 4272 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Pendorlan, Lon Isallt, Trearddur | 46C402D | 13 | 2 | 11 | 11 | 2 | 2 | | | |
| 4358 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Garreg Fawr Farm, Lon Garreg Fawr, Trearddur | 46C410F | 13 | 0 | 13 | 13 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 3255 | Pentref Arfordirol / Gwledig | 68 & 68A Trearddur Road, Trearddur | 46C188G | 6 | 6 | 0 | 0 | | | | 3 | 3 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023 / 24 | 2024 / 25 | 2025 / 26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3041 | Clwstwr | Cae Ysgawen, Brynteg | RM/2020/6 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | 2 | 2 | 2 |
| 3169 | Clwstwr | The Herb Garden 'Llain Capelulo', Pentre Berw | 33C102K/LUC | 10 | 3 | 7 | 2 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| 3003 | Clwstwr | Tu cefn Parc Trecastell (Glan y Don), Porth Llechog | 11C8W/1 | 103 | 23 | 90 | 21 | 11 | 6 | 5 | 2 | |
| 5153 | Clwstwr | Stad y Felin, Llanfaelog | FPL/2020/149 | 8 | 8 | 0 | | | | 8 | 0 | |
| 3200 | Clwstwr | Sŵn y Gwynt, Rhostrehwfa | V483 | 24 | 7 | 17 | 0 | 0 | | | | 7 |
| 3424 | Cefn gwlad agored | Beauchelles, Marianglas | 26C17G | 9 | 9 | 0 | 0 | 9 | | 9 | | |
| 3517 | Cefn gwlad agored | Tŷ Wian, Llanfairynghornwy | 18C202C/DEL | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | 5 |
| 3279 | Cefn gwlad agored | Chwaen Wen Uchaf, Llantrisant | 47C105E | 7 | 7 | 0 | 0 | 7 | | | | 7 |
| 3718 | Cefn gwlad agored | Adeiladau allanol yn Bryn Goleu, Llanddeusant | 47C135 | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | 5 | | | |
| 3887 | Cefn gwlad agored | Penmynydd, Llanfwrog | 29C39D | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | 2 | 3 |
| 3734 | Cefn gwlad agored | Maes Llwyn, Penmynydd | 41LPA954/CC | 6 | 5 | 1 | 1 | 0 | | | | 5 |
| 3991 | Cefn gwlad agored | Bryn Mel, Llandegfan | 17C48Y | 12 | 2 | 10 | 10 | 0 | | 0 | | 2 |
| 3001 | Cefn gwlad agored | Hafodlin Fawr, Rhosgoch | 11C507C | 6 | 2 | 4 | 4 | 0 | | | 0 | 2 |
| **CYFANSWM** | | | | **1170** | **694** | **566** | **185** | **79** | **64** | **135** | **90** | **315** |

## Tabl A2: Amseru a chamau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio – Safleoedd banc tir mawr (Gwynedd)

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4536 | Canolfan Is-ranbarthol | 390 Stryd Fawr, Bangor | C16/1421/11/LL | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | | 6 |
| 4 | Canolfan Is-ranbarthol | 30-32, Ffordd Caergybi, Bangor | 3/11/722B | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | 8 |
| 4966 | Canolfan Is-ranbarthol | 358-360 Stryd Fawr, Bangor | C19/0009/11/LL | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | 8 | |
| 4578 | Canolfan Is-ranbarthol | Clwb Cymdeithasol Maesgeirchen, Rhodfa Penrhyn, Bangor | C17/0084/11/LL | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | | | | 10 |
| 1932 | Canolfan Is-ranbarthol | Neuadd Deiniol & Wayside, Ffordd Caergybi, Bangor | C11/0342/11/TC | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | | | | 24 |
| 5006 | Canolfan Is-ranbarthol | 137 Stryd Fawr, Bangor | C20/0848/11/LL | 12 | 12 | 0 | 0 | 12 | 12 | 0 | | |
| 4972 | Canolfan Is-ranbarthol | 196-200 Stryd Fawr, Bangor | C19/0444/11/LL | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | |
| 178 | Canolfan Is-ranbarthol | Coed y Maes (Caeau Briwas), Penrhos, Bangor | 3/25/195AB | 20 | 2 | 18 | 0 | 0 | | | | 2 |
| 179 | Canolfan Is-ranbarthol | Tir yn Y Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor | C06A/0663/25/LL | 5 | 1 | 4 | 0 | 0 | | | 1 | |
| 5105 | Canolfan Is-ranbarthol | Railway Institute, Ffordd Euston, Bangor | C21/0803/11/LL | 25 | 25 | 0 | 0 | 0 | | 25 | | |
| 5106 | Canolfan Is-ranbarthol | Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor | C21/0648/11/LL | 39 | 39 | 0 | 0 | 0 | | 39 | | |
| 5109 | Canolfan Is-ranbarthol | Tir yn Ffordd Pen y Ffridd, Bangor | C19/1072/11/LL | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | | 30 | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5200 | Canolfan Is-ranbarthol | Blenheim House, Ffordd Caergybi, Bangor | C20/0669/11/LL | 36 | 36 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | |
| 5201 | Canolfan Is-ranbarthol | Maes Berea, Bangor | C18/0365/11/AM | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |
| 2206 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Rhan OS 8825, Cae Clyd, Manod, Blaenau Ffestiniog | C14/0248/03/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | 3 | 2 | |
| 5069 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog | C20/0538/03/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 | | | |
| 1660 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cyn Westy Marine, Ffordd y Gogledd, Caernarfon | C18/1040/14/LL | 15 | 15 | 0 | 0 | 15 | | | 15 | 0 |
| 5142 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cyn Rhandir Cae Glyn, Ffordd Bethel, Caernarfon | C21/0767/14/LL | 17 | 17 | 0 | 0 | 17 | 17 | | | |
| 5209 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Garej Lleiod, Ffordd Llanberis, Caernarfon | C22/0745/14/LL | 21 | 21 | 0 | 0 | 0 | | | 21 | |
| 2518 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Capel Garth, Bank Place, Porthmadog | C16/0761/44/LL | 9 | 9 | 0 | 0 | 9 | 9 | | | |
| 1969 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Snowdon Mill, Heol yr Wyddfa, Porthmadog | C07D/0707/44/LL | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | | | | 24 |
| 1640 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Plot 31, Awel y Grug, Porthmadog | C15/0224/44/LL | 10 | 1 | 9 | 0 | 0 | | 1 | | |
| 4880 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Canolfan Frondeg, Ala Uchaf, Pwllheli | C19/0858/45/LL | 28 | 28 | 0 | 0 | 28 | 28 | 0 | | |
| 4838 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir Ysgubor Wen, Pwllheli | C20/0870/45/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 4 | 4 | 1 | | |
| 743 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Promenad Abermaw | 5/51/815B | 26 | 26 | 0 | 0 | 0 | | | | 26 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5181 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Auckland House 17 Rhodfa'r Mor, Abermaw | C21/0575/00/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | 5 | | | |
| 4100 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Safle Gwesty Whitehouse, Abersoch | C14/1208/39/LL | 18 | 18 | 0 | 0 | 0 | | | | 18 |
| 5023 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | C20/0018/13/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | 7 | | |
| 24 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | OS 8361, 8958, 8650, Bryn Caseg, Bethesda | 3/13/130A-E | 22 | 1 | 21 | 0 | 0 | | 1 | | |
| 2528 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Ger Gwesty George IV, Criccieth | C16/0292/35/LL | 37 | 37 | 0 | 0 | 0 | | | 8 | 29 |
| 224 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Stad Gorseddfa, Criccieth | 2/15/143A-Z | 13 | 1 | 12 | 0 | 0 | | | | 1 |
| 225 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Stad Wern y Wylan, Criccieth | C96D/0181/15/CL | 9 | 1 | 8 | 0 | 0 | | | | 1 |
| 5198 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tir ger Treddafydd Stryd Fawr, Penygroes | C19/1089/22/LL | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | | 7 | 5 | 0 |
| 2495 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Capel Seion, Stryd y Plas, Nefyn | C04D/0722/42/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 7 | | | 0 | 7 |
| 285 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Stad Bro Gwylwyr, Nefyn | C07D/0699/42/LL | 35 | 1 | 34 | 1 | 0 | | | 1 | |
| 4820 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Meysydd Llydain, Bryniau Hendre, Penrhyndeudraeth | C16/1021/08/LL | 9 | 0 | 9 | 9 | **WEDI'I GWBLHAU 2022/23** | | | | |
| 3790 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tir y Farchnad, Sandilands Road, Tywyn | C13/0102/09/LL | 18 | 18 | 0 | 0 | 0 | | | | 18 |
| 76 | Pentref Gwasanaeth | Bro Eglwys, Saron, Bethel | 3/18/202J | 50 | 14 | 36 | 0 | 0 | | | | 14 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1330 | Pentref Gwasanaeth | Tir gyferbyn B4413, Botwnnog | C02D/0322/32/LL | 5 | 0 | 5 | 1 | WEDI'I GWBLHAU 2022/23 | | | | |
| 4576 | Pentref Gwasanaeth | Cae Bodlondeb, Ael y Bryn (Safle 1), Chwilog | C16/1363/41/AM & C20/0674/41/MG | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 |
| 4577 | Pentref Gwasanaeth | Cae Bodlondeb, Ael y Bryn (Safle 2), Chwilog | C16/1603/41/AM & C20/0673/41/MG | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 |
| 2539 | Pentref Gwasanaeth | Rhiw Goch, Deiniolen | C19/0003/18/MG | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | | | | 17 |
| 5177 | Pentref Gwasanaeth | Capel Ebeneser, Stryd Fawr, Deiniolen | C19/1194/18/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | 7 | | |
| 2477 | Pentref Gwasanaeth | Stad Llwyn Bedw, Rachub | C10A/0040/21/MG | 13 | 2 | 11 | 7 | 0 | | | 2 | |
| 3966 | Pentref Lleol | Plot o dir ger Hen Gapel, Ffordd Waunfawr Road, Caeathro | C09A/0412/26/LL | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | | 6 | 6 | |
| 2216 | Pentref Lleol | Ceir Cwm, Cwm y Glo | C10A/0087/23/LL | 8 | 5 | 3 | 3 | 0 | | | | 5 |
| 5171 | Pentref Lleol | Tir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy | C21/1091/41/LL | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | |
| 772 | Pentref Lleol | Fron Deg, Rhostryfan | C15/0355/24/LL | 18 | 0 | 18 | 18 | WEDI'I GWBLHAU 2022/23 | | | | |
| 1669 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Plotiau 15-23 Heol Seithendre, Fairbourne | C04M/0072/01/LL | 9 | 5 | 4 | 0 | 0 | | | | 5 |
| 5107 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Tir ger Cae Gors, Tregarth | C21/0617/16/LL | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | 12 | | | |
| 2517 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Gyferbyn Halfway House, Y Felinheli | C09A/0424/20/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | | | 7 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1730 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Gwesty Plas Dinorwig, Y Felinheli | C05A/0152/20/LL | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | 8 |
| 1428 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Harbwr, Y Felinheli | C05A/0750/20/LL | 22 | 3 | 19 | 0 | 0 | | | | 3 |
| 5168 | Clwstwr | Ger Bro Infryn, Glasinfryn | C21/1206/25/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | 7 | | |
| 2428 | Clwstwr | OS 3910, Ger Eglwys St Engan, Llanengan | C11/1186/39/MG | 6 | 2 | 5 | 5 | 1 | 1 | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **820** | **605** | **216** | **44** | **98** | **93** | **140** | **123** | **248** |

## Tabl A3: Amseru a chamau cyflawni dynodiadau tai

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 3944 | Canolfan Is-ranbarthol | T1 | Goetra Uchaf, Bangor | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 4591 | Canolfan Is-ranbarthol | T2 | Caeau Chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor | 43 | | | | | | | 22 | 21 |
| 4225 | Canolfan Is-ranbarthol | T3 | Hen safle Jewsons, Bangor | 70 | Caniatâd cynllunio C17/0835/11/MG | 0 | 0 | 0 | | | | 70 |
| 4592 | Canolfan Is-ranbarthol | T4 | Tir dros ffordd i'r Amlosgfa, Bangor | 72 | | | | | | | | 72 |
| 4719 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T5 | Tir ger Maes Mona, Amlwch | 50 | | | | | | | | 50 |
| 4028 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T6 | Tir ger Lôn Bach, Amlwch | 73 | | | | | | | | 73 |
| 4703 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T7 | Tir yn Fferm Madyn, Amlwch | 152 | | | | | | | | 152 |
| 4704 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T8 | Tir ger Cae Rheinwas, Amlwch | 40 | | | | | | | | 40 |
| 4705 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T9 | Tir yn Tan y Bryn, Amlwch | 58 | | | | | | | 20 | 38 |
| 3229 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T10 | Tyddyn Bach, Caergybi | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 4706 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T11 | Tir ger Cae Rhos, Caergybi | 36 | Caniatâd cynllunio 19C1231 | 0 | | | 0 | 12 | 12 | 12 |
| 4707 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T12 | Tir ger Yr Ogof, Caergybi | 72 | | | | | | | 10 | 62 |
| 4708 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T13 | Tir ger Fferm Tyddyn Bach, Caergybi | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 3856 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T14 | Tir ger Stad Waunfawr, Caergybi | 22 | | | | | | | | 22 |
| 3943 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T15 | Glan y Dŵr, Caergybi | 90 | | | | | | | | 90 |
| 3231 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T16 | Lôn Cae Serri, Caergybi | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 4713 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T17 | Tir ger Ty Hen, Llangefni | 154 | | | | | | | 30 | 124 |
| 4724 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T18 (rhan) | Cyn Ysgol y Bont, Llangefni | **RHAN O'R SAFLE WEDI'I GWBLHAU (CANIATÂD 34C687/ECON)** | | | | | | | | |
| 4714 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T18 (rhan) | Cyn Ysgol y Bont, Llangefni | 52 | Caniatâd cynllunio RM/2020/13 ar ran o'r safle | 16 | 16 | 36 | 36 | | | |
| 4688 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T19 (rhan) | Tŷ'n Coed, Llangefni | 134 | Caniatâd cynllunio 34C553A | 63 | 63 | 0 | 21 | 23 | 27 | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 4715 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T19 (rhan) | Tŷ'n Coed, Llangefni<br><br>Unedau'n weddill ar sail 30 uned yr hectar ar sail fod cais 34C553A (4688) wedi ei ganiatáu ar rhan o'r safle | 21 | | | | | | | | 21 |
| 4825 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T20<br>T21<br>T22 | Tir Coleg Menai, Llangefni (T20, 21 & T22) | 151 | Caniatâd cynllunio 34C304K/1 | 0 | 0 | 60 | 30 | 30 | 30 | 61 |
| 4596 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T23 | Cyn Gaeau Chwarae, Blaenau Ffestiniog | 95 | | | | | | | | 95 |
| 4597 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T24 | Tir yn Congl y Wal, Blaenau Ffestiniog | 60 | | | | | | | 10 | 50 |
| 4443 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T25 | Cyn Ysgol Hendre, Caernarfon | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 1373 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T26 | Tu cefn i Maes Gwynedd, Caernarfon | 29 | | | | | | | 29 | |
| 1372 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T27 | Lôn Cae Phillips, Caernarfon | | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | |
| 2213 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T28 | Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli | 150 | | | | | | | | 150 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 1400 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T29 | Cae Deiniol, Pwllheli | 14 | Caniatâd cynllunio C21/0111/45/LL | 0 | 0 | 14 | 14 | | | |
| 1399 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T30 | Cyn Gae Hoci, Pwllheli | 14 | Caniatâd cynllunio C18/1198/45/AM | 0 | 0 | 0 | | 14 | 0 | |
| 3407 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T31 | Casita, Biwmares | 35 | Caniatâd cynllunio 12C49M/VAR | 0 | 0 | 14 | 14 | | 21 | |
| 4720 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T32 | Ger Caffi Wendon, Benllech | 12 | | | | | | | | 12 |
| 5010 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T33 (rhan) | Tir ger Llwyn Angharad, Bodedern | 29 | Caniatâd cynllunio FPL/2022/71 | 0 | 0 | 0 | | | 29 | 0 |
| 4712 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T33 (rhan) | Tir ger Llwyn Angharad, Bodedern<br><br>Y rhan o'r safle sydd yn weddill yn dilyn caniatâd OP/2019/17 (safle 5010) | 18 | | | | | | | 6 | 12 |
| 4692 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T34 (rhan) | Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes | **RHAN O'R SAFLE WEDI'I GWBLHAU (CANIATADAU 20C313A & 20C313D)** | | | | | | | | |
| 4709 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T34 (rhan) | Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes<br><br>Unedau yn weddill ar sail 30 uned yr hectar ar sail fod ceisiadau 20C313A | 45 | | | | | | | 20 | 25 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| | | | a 20C313D wedi ei ganiatáu ar rhan o'r safle | | | | | | | | | |
| 4711 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T35 | Tir ger Bryn Eira, Llanfairpwll | 30 | | | | | | | 15 | 15 |
| 3093 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T36 | Tir ger Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll | 15 | Caniatâd cynllunio 31C170B/DA | 14 | 14 | 1 | 1 | 0 | | |
| 3103 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T37 | Ty Mawr, Porthaethwy | 21 | Caniatâd cynllunio 39C18G | 20 | 15 | 0 | 0 | | | 1 |
| 3102 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T38 | Tyddyn Mostyn, Porthaethwy | 132 | Caniatâd cynllunio LPA206 | 72 | 0 | | | | | 60 |
| 4716 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T39 | Tir Lôn Gamfa, Porthaethwy | 14 | | | | | | | | 14 |
| 4718 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T40 | Cyn Cae Sêl, Y Fali | 54 | Caniatâd cynllunio FPL/2021/215 | | | | | 54 | 0 | |
| 2205 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T41 | Tir ger North Teras, Criccieth | 34 | | | | | | | 12 | 22 |
| 1374 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T42 | Tir ger Gwesty'r Fic, Llanberis | 16 | | | | | | | | 16 |
| 2790 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T43 | Tir ger Lôn Tŷ Du, Llanberis | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 3602 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T44 | Cae'r Eglwys, Llanrug | 9 | Caniatâd cynllunio C18/0942/23/LL | 8 | 0 | 1 | 1 | 0 | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 2567 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T45 | Tir ger Lôn Rhythallt, Llanrug | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | |
| 4603 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T46 | Tir ger Helyg, Nefyn | 19 | | | | | | | 5 | 14 |
| 3832 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T47 | Cyn Gerddi Rhandir, Nefyn | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | |
| 1405 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T48 | Canol Cae, Penrhyndeudraeth | 31 | | | | | | 19 | 12 | |
| 4604 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T49 | Tir ger cyn Ysbyty Bron Garth, Penrhyndeudraeth | 46 | | | | | | | | 46 |
| 4605 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T50 | Tir ger Canol Cae, Penrhyndeudraeth | 31 | | | | | | | | 31 |
| 1379 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T51 (rhan) | Tir ger Maes Dulyn, Penygroes<br><br>Caniatâd C20/0942/22/LL (5064) ar ran o'r safle - Nifer o unedau yn seiliedig ar yr arwynebedd safle sydd yn weddill. | 15 | | | | | | | | 15 |
| 5064 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T51 (rhan) | Tir ger Maes Dulyn, Penygroes | 24 | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | |
| 2142 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T52 | Sŵn y Tonnau, Tywyn | 41 | Caniatâd cynllunio C06M/0069/09/LL | 32 | 23 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 667 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T53 | Garreglwyd, Tywyn | 23 | Caniatâd cynllunio 5/79/134 | 11 | 2 | 0 | | | | 12 |
| 5002 | Pentref Gwasanaeth | T54 (rhan) | Tir ger A5, Gwalchmai | 7 | Caniatâd cynllunio 48C207C | 0 | 0 | 3 | | 3 | 3 | 1 |
| 4717 | Pentref Gwasanaeth | T54 (rhan) | Tir ger A5, Gwalchmai<br><br>Caniatâd 48C207C (5002) ar ran o'r safle - Nifer o unedau yn seiliedig ar yr arwynebedd safle sydd yn weddill. | 16 | | | | | | | | 16 |
| 3113 | Pentref Gwasanaeth | T55 | Stad Tyn Cae, Niwbwrch | 53 | Caniatâd cynllunio 45C39G | 48 | 7 | 1 | 1 | 2 | 2 | |
| 4710 | Pentref Gwasanaeth | T56 | Tir ger Tyn y Ffynnon, Llannerch-y-Medd | 10 | Caniatâd cynllunio OP/2021/10 | 0 | 0 | 0 | | 5 | 5 | |
| 4598 | Pentref Gwasanaeth | T57 | Tir gyferbyn â Stad y Cremlyn, Bethel | 28 | | | | | | | 28 | |
| 4599 | Pentref Gwasanaeth | T58 | Tir gyferbyn â Stad Rhoslan, Bethel | 7 | Caniatâd cynllunio C18/0545/18/MG | 4 | 4 | 3 | 2 | 1 | | |
| 2478 | Pentref Gwasanaeth | T59 | Tir ger Stad Glanrafon, Bontnewydd | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 4593 | Pentref Gwasanaeth | T60 | Tir ger Pont Glan Beuno, Bontnewydd | 10 | | | | | | | 5 | 5 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 4594 | Pentref Gwasanaeth | T61 | Tir ger Cefn Capel, Botwnnog | 21 | | | | | | | 18 | 3 |
| 4595 | Pentref Gwasanaeth | T62 | Tir ger Pentre, Botwnnog | 11 | | | | | | | 3 | 8 |
| 4125 | Pentref Gwasanaeth | T63 | Tir tu cefn i'r Madryn Arms, Chwilog | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 1364 | Pentref Gwasanaeth | T64 | Tir ger Cae Capel, Chwilog | 21 | Caniatâd cynllunio C18/1055/441/LL | 0 | 0 | 0 | | 7 | 7 | 7 |
| 3959 | Pentref Gwasanaeth | T65 | Tir ger Pentre Helen, Deiniolen | 27 | Caniatâd cynllunio C09A/0396/18/AM | 0 | 0 | 0 | | 9 | 9 | 9 |
| 4600 | Pentref Gwasanaeth | T66 | Tir ger Maes Bleddyn,Rachub | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| 4601 | Pentref Gwasanaeth | T67 | Tir ger Tyn Lôn, Y Ffor | 18 | | | | | | | 6 | 12 |
| 4602 | Pentref Gwasanaeth | T68 | Tir ger yr Ysgol, Y Ffor | 10 | | | | | | | 5 | 5 |
| 2214 | Pentref Gwasanaeth | T69 | Tir ger Bro Gwystil, Y Ffor | **SAFLE WEDI'I GWBLHAU** | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | | **288** | **144** | **133** | **120** | **182** | **404** | **1567** |

| | |
|---|---|
| * | Ar gyfer safleoedd sydd â chaniatad cynllunio, mae'r ffigwr yn nodi'r nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd. |
| ** | Ar wahân ein bod wedi derbyn gwybodaeth fanwl gan y tirfeddianwyr/datblygwr, mae cyfnod sydd o leiaf 2 flynedd wedi ei nodi cyn fod unrhyw uned wedi ei gwblhau ar safle sydd wedi ei ddynodi sydd heb ganiatâd cynllunio. |
| (coch) | Safle wedi ei gwblhau |
| (melyn) | Caniatâd cynllunio byw (datblygiad heb ei gwblhau) |

This page is intentionally left blank

**ATODIAD 2**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio – Cylch Gorchwyl Drafft**

**1.0 Prif Bwrpas**

1.1 Pwyllgor sy'n darparu cefnogaeth a mewnbwn i'r broses o baratoi a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol.

**2.0 Swyddogaethau**

2.1 Bydd y Pwyllgor yn darparu arweiniad a barn yn ôl y gofyn ar:

- ddogfennau drafft a baratowyd gan y Tîm Polisi Cynllunio wrth fynd ati i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyn iddynt fynd ymlaen at drefniadau sy'n arwain at geisio adborth gan y cyhoedd;
- sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o ymgysylltu â'r cyhoedd neu gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol wrth baratoi'r Cynllun, a derbyn negeseuon ac ymatebion posib gan y Tîm Polisi Cynllunio;
- dogfennau drafft wrth fynd ati i baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol cyn iddynt fynd ymlaen at drefniadau sy'n arwain at geisio adborth gan y cyhoedd;
- sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau o ymgysylltu â'r cyhoedd neu gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol wrth baratoi'r Canllawiau, a derbyn negeseuon ac ymatebion posib gan y Tîm Polisi Cynllunio;
- Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl; a
- dogfennau sy'n cael eu paratoi fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLl.

**3.0 Mandad**

3.1 Bydd y Pwyllgor yn:

- Bwyllgor o aelodau etholedig trawsbleidiol sy'n cael ei gydnabod yn y Cytundeb Cyflawni ac mae'n cefnogi ac yn cyfrannu at y broses o greu a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol;
- corff sy'n gweithredu ar sail gwybodaeth a thystiolaeth; a
- fforwm sy'n hwyluso'r gwaith mewn amgylchedd cefnogol ac adeiladol.

**4.0 Cyfansoddiad**

4.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys:

- cyfanswm o 11 aelod etholedig a benodir, o bryd i'w gilydd, yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, yn cynnwys yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;
- bydd y Prif Swyddog Cynllunio a'r Prif Swyddog Polisi, neu eu dirprwyon, yn mynychu'r cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau a chynghori'r Pwyllgor; a
- bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cael eu hethol o blith yr aelodau etholedig bob blwyddyn.

**5.0 Cefnogaeth gan Swyddogion i'r Gweithgor**

5.1 Bydd Swyddogion o adrannau eraill yn mynychu yn ôl y gofyn, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Polisi Cynllunio. Bydd gan Swyddogion Statudol neu eu cynrychiolwyr hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfodydd.

**6.0 Cworwm**

6.1 O ran gwneud penderfyniadau, bydd rhaid i o leiaf pum aelod fod yn bresennol i ffurfio cworwm.

**7.0 Amlder**

7.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob mis/yn ôl y gofyn i ddarparu adborth a barn yn ystod y camau allweddol yn y broses o baratoi CDLl newydd, yr Adroddiad Monitro Blynyddol, y broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol neu adolygu'r CDLl.

**8.0 Rhaglenni**

8.1 Bydd y Rheolwr Polisi Cynllunio o'r Tîm Polisi Cynllunio yn gyfrifol am gytuno ar y rhaglen mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cynllunio.

8.2 Ac eithrio mewn sefyllfa frys, bwriedir bod Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn yr holl bapurau 5 diwrnod gwaith clir cyn unrhyw gyfarfod.

**9.0 Trefniadau Adrodd**

9.1 Bydd adborth a barn y Pwyllgor yn cyfrannu at brosesau a gwaith yn gysylltiedig â pharatoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol.

9.2 Bydd adborth a barn y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau y bydd gofyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Pecyn Ymgeisydd

## Uwch Swyddog Polisi Cynllunio







## Dyddiad Cau: 09/10/23

ynysmon.llyw.cymru

Cyngor Sir Ynys Môn | cyngormon | cyngormon | cyngormon

# PECYN YMGEISYDD

## Uwch Swyddog Polisi Cynllunio


## CYNNWYS


CEFNDIR Y SWYDD
UWCH SWYDDOG POLISI CYNLLUNIO 2

BUDDION GWEITHWYR 3

SWYDD DDISGRIFIAD 4


Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg / This document is available in English.



# CEFNDIR Y SWYDD

## Uwch Swyddog Polisi Cynllunio

Diolch am gymryd y cyfle i ymweld â swyddi Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hi'n gyfle cyffrous i ymuno â'r Cyngor a chefnogi gwaith y tîm Polisi Cynllunio, sydd ar daith o lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.

Bydd y Cynllun gosod strategaeth ac amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Môn yn ogystal â chael dylanwad cryf ar sut bydd yr ardal a'i chymunedau'n cael eu datblygu dros gyfnod o 15 mlynedd, gan ganolbwyntio ar amcanion strategol y Cyngor Sir. Y bwriad yw mabwysiadu Cynllun bydd yn gosod sail ar gyfer ffyniant yr Ynysa'i thrigolion o safbwynt ei economi a'i hamgylchedd.

Mae gennym pedair rôl o fewn y tîm Polisi Cynllunio a fyddai'n addas ar gyfer unigolion sy'n chwilio am gyfleoedd gyrfaol newydd, neu sy'n chwilio am gyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad ymhellach. Mae'r swyddi yma'n rhan hanfodol o'r tîm Polisi Cynllunio, a bydd yn cynnwys ystod o ddyletswyddau. Fel rhan o'r swyddi byddwch yn darparu lefel uchel o gefnogaeth, broffesiynol, technegol a gweinyddol, cyfrannu at arwain y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, a gweithio gydag amrediad o randdeiliaid.

Mae'r tîm Polisi Cynllunio yn rhan o Wasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Ynys Môn sy'n cynnig cyfleoedd gwych i unigolion sydd eisiau cyfrannu'n llawn at uchelgais y Cyngor o greu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus - lle gall bobl ffynnu.

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i greu diwylliant sy'n datblygu ein staff a bydd cyfle i chi fanteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant a chyrsiau perthnasol. Rydym hefyd yn ymfalchïo mewn cynnig diwylliant sefydliadol cefnogol, lle cynigir telerau ac amodau cyflogaeth ardderchog ar gyflogau cystadleuol. Fe weithredir trefniant gweithio'n hybrid sef cyfuniad o weithio gartref ac o leoliadau'r Cyngor.

Mae gan Ynys Môn lawer i'w gynnig. Mae'n lleoliad sy'n ysbrydoli, yn wledd i'r holl synhwyrau a'n le i ddianc rhag prysurdeb bywyd. Ond yn bennaf oll, mae Ynys Môn yn lle i fynd ati i gyflawni!

Os dymunwch gael trafodaeth anffurfiol am y swyddi, cysylltwch â **John Ifan Williams (01248 752460 / johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru)**, neu **Dewi Francis Jones (01248 752420 / dewijones@ynysmon.llyw.cymru).**



# BUDDION GWEITHWYR

Mynediad i Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol

Cynllun disgownt Manteision Môn - disgownts helaeth yn nifer o siopau e.e. ASDA, Morrisons, Tesco, John Lewis ayyb

Gostyngiad ar aelodaeth i 4 Canolfan hamdden yr Awdurdod

Mynediad i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol

Gostyngiadau ar ffonau symudol. Gostyngiadau ar dechnoleg a ffordd o fyw yn cynnwys cynlluniau technoleg aberthu cyflog

Gwasanaethau Cefnogi Llesiant ac Iechyd Galwedigaethol

Ffisiotherapi

Profion llygaid am ddim i ddefnyddwyr VDU rheolaidd

Cynllun beicio i'r gwaith – mae'r cyngor, drwy ei bartneriaeth a Halfords, yn darparu Cynllun Beicio i'r Gwaith ar gyfer gweithwyr.

Medra - gwasanaeth cwnsela hunangyfeirio 24/7 ar gyfer gweithwyr - hyd at 4 sesiwn y flwyddyn. Mynediad at wasanaeth ar-lein.

Mae gan Ynys Môn bolisïau rhagorol er mwyn sicrhau y gall gweithwyr gydbwyso gofynion y gwaith ac adref

Polisïau teulu gyfeillgar yn cynnwys:

- Polisi Mamolaeth
- Polisi Tadolaeth
- Absenoldeb Rhiant
- Absenoldeb mabwysiadu a Seibiant


# SWYDD DISGRIFIAD

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Darparu arbenigedd cynllunio polisi arbenigol a chyfrannu at gyflawni gwaith Tîm Polisi Cynllunio'r Cyngor wrth baratoi, hyrwyddo, monitro ac adolygu polisïau cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion llesiant Cymunedau'r Ynys.

**Cyffredinol:** Cydymffurfio â:

1. Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw'n ei roi ar bob gweithiwr, gan gydweddu â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion a all fod mewn perygl a'u teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel ac iach;
2. Polisïau a gweithdrefnau (e.e. Rheoliadau Caffael yr UE a Rheoliadau Ariannol y Cyngor; y Ddeddf Diogelu Data; y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; Deddf Cydraddoldeb 2010; Safonau'r Gymraeg).



# Prif Ddylestwyddau a Chyfrifoldebau

1. Llywio a dylanwadu'r gwaith o ddatblygu a monitro'r Fframwaith Polisi Cynllunio lleol a rhanbarthol, yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Datblygu Strategol a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor.
2. Darparu arbenigedd a chymorth ar holl agweddau'r Polisi Cynllunio i'r Cyngor (yn cynnwys Uwch Swyddogion ac Aelodau Etholedig), asiantaethau allanol, y sector preifat, y cyhoedd ac yn ystod ymchwiliadau/gwrandawiadau (naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddirprwyo'r dasg i swyddogion eraill).
3. Meddau ar wybodaeth helaeth ynglŷn â ddeddfwriaethau cynllunio perthnasol a chyd-destun polisïau cenedlaethol sy'n cael eu datblygu, a rhoi hyn ar waith yn rhaglenni gwaith y Tîm.
4. Cynrychioli'r Tîm Polisi Cynllunio yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio a chyfarfodydd llywodraethu mewnol perthnasol eraill yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol a gwaith cysylltiedig y tîm polisi.
5. Arwain a chydlynu'r gwaith o baratoi a monitro Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn a dogfennau polisi perthnasol eraill, cydlynu'r camau statudol sydd ynghlwm â'r broses.
6. Arwain y gwaith o baratoi a diweddaru'r Canllawiau Cynllunio Atodol.
7. Arwain ar ddarparu cyngor polisi ar gynigion cynllunio, ceisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio a gorfodi.
8. Arwain y gwaith o gyflawni rhaglen waith y Tîm Polisi Cynllunio'n effeithiol.
9. Cyfrannu at y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol newydd.
10. Arwain y gwaith o baratoi ymateb y Cyngor i ymgynghoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru (a chyrff perthnasol eraill).
11. Cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a phartneriaid (yn cynnwys Aelodau Etholedig, Gwasanaethau eraill, Awdurdodau Lleol, ymgyngoreion statudol, grwpiau cymunedol, grwpiau preifat a'r cyhoedd), gan ddarparu cyngor a chyfarwyddyd cadarn ar faterion a gweithdrefnau cynllunio.
12. Cynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfrifoldebau statudol y Swyddogaeth Cynllunio ehangach.
13. Arddangos gwerthoedd, safonau ac ymddygiad proffesiynol bob amser a datblygu ac ysgogi staff y Tîm Polisi Cynllunio i weithio i'w llawn botensial a chefnogi gweithgareddau i gyflawni newid diwylliannol ac ymrwymiad i wella'n barhaus.
14. Arwain y gwaith o fonitro Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn (sy'n cyfrannu at y gwaith o baratoi adroddiadau perthnasol).
15. Cynnal ymgynghoriadau ar ddogfennau polisi cynllunio.
16. Rheoli'r gwaith o gomisiynu ymchwil, dadansoddi a dehongli data a pharatoi adroddiadau cefndir i lywio blaenoriaethau a gweithgareddau Polisi Cynllunio'r Cyngor.
17. Dirprwyo i'r Rheolwr Polisi Cynllunio.
18. Efallai y bydd rhaid i ddeilydd y swydd ysgwyddo cyfrifoldebau eraill sy'n cyd-fynd â natur a graddfa'r swydd.

# Manyleb Person

**ALLWEDD:** Hanfodol **(H)** Dymunol **(D)**

## ADDYSG A HYFFORDDIANT

**Y gofynion addysgol/ proffesiynol neu'r cymwysterau galwedigaethol sylfaenol ar gyfer y swydd:**

1. Gradd ym maes cynllunio (neu ddisgybliaeth berthnasol) - H
2. Gweithio tuag at aelodaeth lawn (siartredig) o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol - D

**Unrhyw hyfforddiant penodol ar gyfer y swydd yn cynnwys ardystiad: Dim**

## GOFYNION CYMHWYSEDD ALLWEDDOL

**Gwybodaeth swydd-gysylltiedig sy'n hanfodol:**

1. Gwybodaeth a dealltwriaeth eang o ddeddfwriaethau, gweithdrefnau a phrosesau Cynllunio (yn benodol ym maes polisi cynllunio) - H
2. Profiad o gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a monitro Cynllun Datblygu Lleol - H
3. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddangosyddion perfformiad a thargedau cynllunio cenedlaethol - H
4. Deall y berthynas rhwng y maes Cynllunio a meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor. - H

## SGILIAU PENODOL

1. Gallu meddwl yn strategol a gweithredol er mwyn gweithredu polisi cynllunio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr Ynys. - H
2. Gallu arwain, rheoli a datblygu pobl er mwyn gwella perfformiad. - H
3. Gallu ysgogi perfformiad a gwelliant. - H
4. Gallu herio a dylanwadu credoau ac ymddygiadau sydd wedi ennill eu plwyf. - H
5. Sgiliau cyfathrebu rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg. - H
6. Hyfedr mewn ymchwil, dadansoddi a monitro. - D
7. Sgiliau proffilio a monitro cyllidebau. - D
8. Gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill. - H
9. Gallu gweithio gyda sefydliadau eraill yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol eraill a'r sector preifat. - H
10. Defnyddio synnwyr cyffredin wrth roi cyngor/argymhellion. - H

# Safle yn y Sefydliad

**Adrodd i:** Rheolwr Polisi Cynllunio

**Staff a oruchwylir:** Hyd at 3 aelod o staff yn y tîm Polisi Cynllunio yn absenoldeb y Rheolwr Polisi

## TREFNIADAU AC AMODAU GWEITHIO

**Wythnos waith**: Unrhyw 5 diwrnod allan o 7 (Dydd Llun – Dydd Sul)

**Oriau cytundebol:** 37

**Lleoliad gwaith dynodedig:** Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.  Efallai, fodd bynnag, y caniateir i chi weithio unrhyw le yn ardal y Cyngor yn barhaol neu dros dro heb hawlio amser neu daliad ychwanegol am wneud hynny.


Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn peilota model gweithio hybrid yn dilyn covid ar gyfer mwyafrif ei rolau swyddfa, sy'n golygu bod cyfle i chi weithio yn y swyddfa a hefyd o'r cartref.

**Gofynion swydd a allai, os na chânt eu bodloni, gyfyngu ar berfformiad effeithiol yn y swydd:**
1. Ymagwedd hyblyg tuag at oriau gwaith.
2. Trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd y gellir ei ddefnyddio at ddibenion gwaith.

## HYBLYGRWYDD

Tynnir eich sylw at y ffaith fod mewn rhai achosion ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n anodd eu diffinio a gallent amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol ar i bob gweithiwr dderbyn elfen o hyblygrwydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau a phan fo angen cyfnewid oddi mewn i'r sefydliad er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth. Bydd y fath ofynion yn golygu y bydd arbenigedd penodol deilydd y swydd yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio i'r eithaf er budd y cyflogwr a'r gweithiwr fel ei gilydd.

**Dyddiad paratoi'r ddogfen Disgrifiad Swydd hon:** Hydref 2022



# Fframwiath Sgiliau Iaith – Lefelau Asesiad Swydd

## (I) GWRANDO

**0** Dim sgiliau
**1** Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg/Saesneg
**2** Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg/Saesneg
**3** Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg rhugl
**4** Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafddaethau grŵp
**5** Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith

## (II) DARLLEN

**0** Dim sgiliau
**1** Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml
**2** Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)
**3** Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur
**4** Yn gallu darllen y rhan fwyaf o'r deunydd yn eich maes eich hun
**5** Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith

## (III) SIARAD

**0** Dim sgiliau
**1** Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol [cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd]
**2** Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
**3** Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol
**4** Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Cymraeg/Saesneg
**5** Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fod angen

## (IV) YSGRIFENNU

**0** Dim sgiliau
**1** Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol
**2** Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth
**3** Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol
**4** Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth i wirio
**5** Medrus – yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu heb yr angen i wirio